Rhif ymchwil cymdeithasol: 21/2026

Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2026

# Arolwg sbotolau ar amgueddfeydd 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-970-3

Arolwg sbotolau ar amgueddfeydd 2024

Awduron: Emma Chaplin, Jane Henderson, Phil Parkes ac Esther Roberts

Adroddiad Ymchwil Llawn: Chaplin E, Henderson J, Parkes P, Roberts E (2025). *Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 21/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2024

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'n farn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Diwylliant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: diwylliant@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys

Rhestr o dablau ... 3
Rhestr o ffigurau ... 8
Rhestr Eirfa ... 10
1. Rhagymadrodd a chefndir ... 13
1.1. Hanes Sbotolau ... 13
1.2. Nodau ac Amcanion ... 14
1.2.1. Cam 1 ... 14
1.2.2. Cam 2 ... 15
1.3. Strwythur ... 15
2. Methodoleg ... 16
2.1. Cynllun ymchwil ... 16
2.2. Datganiadau ystod ... 17
2.3. Diwygiadau i gwestiynau arolwg ... 17
2.3.1. Ychwanegwyd esboniad ychwanegol ar ddiffiniad gwirfoddolwr (amgueddfa) a gwirfoddolwr (ymddiriedolwr) (C28) ... 18
2.3.2. Diweddarwyd diffiniad o siaradwyr Cymraeg (C28b) ... 18
2.3.3. Newid opsiynau ar gyfer ffurfiau gwaredu (C39) ... 18
2.3.4. Newidiwyd y cwestiwn i gasglu data ar ddefnydd cyfrifianellau carbon (C46) 18
2.3.5. Newid opsiynau ar gyfer camau E&I a diffiniad wedi'i ychwanegu (C48) ... 18
2.3.6. Cwestiwn Newydd ar Gydraddoldeb a Chynhwysiant (C49) ... 19
2.3.7. Cwestiynau ychwanegol ar ARWAP (C50) ... 19
2.3.8. Cwestiwn ychwanegol ar gytundeb i gyhoeddi data (C57) ... 20
2.4. Amserlen ... 20
2.5. Platfform yr Arolwg ... 20
2.6. Lansio arolwg ... 20
2.7. Cymorth gyda'r arolwg ... 20
2.8. Y Gymraeg ... 21
2.9. Poblogaeth Sampl ... 21
2.10. Allforio data ... 21
2.11. Dadansoddi'r data ... 22
2.11.1. Maint amgueddfa ... 22
2.11.2. Cymhwyster ar gyfer cynnwys (achrediad) ... 23

2.12. Cyfleu'r canfyddiadau: Cyfarfodydd sector wedi'u cynllunio ..... 23
2.13. Cyfleu'r canfyddiadau: Taflenni data sector terfynol ..... 23
3. Canfyddiadau a dehongliad ..... 25
3.1. Ymatebion ..... 25
3.2. Nifer yr ymatebion - canlyniadau ar gyfer cymharu ..... 26
3.3. Ymwelwyr ag Amgueddfeydd ..... 28
3.4. Trosolwg ariannol ..... 36
3.5. Effaith economaidd ..... 37
3.6. Ffynonellau Ariannu ..... 44
3.7. Gweithlu amgueddfa ..... 45
3.8. Casgliadau ..... 52
3.9. Dysgu ..... 64
3.10. Cydraddoldeb Amrywiaeth Cynhwysiant ..... 75
3.11. Cynaliadwyedd Amgylcheddol ..... 85
3.12. Partneriaethau ..... 86
3.13. Polisi a chynllunio ..... 89
4. Adolygiad methodoleg gydag argymhellion ar gyfer casglu data yn y dyfodol ..... 91
4.1. Amseriad yr arolwg ..... 91
4.2. Cronfa Ddata Cysylltiadau ..... 91
4.3. Newid Sefydliadol ..... 91
4.4. Datganiadau ystod ..... 92
4.5. Geiriad ..... 92
4.6. Cwestiynau ychwanegol ..... 92
4.7. Gwella ansawdd data ..... 93
Atodiad A: Holiadur ..... 94
Atodiad B: Rhestr o'r holl amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg ..... 135
Atodiad C: Data datganiad ystod ..... 139

# Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Ymatebion i'r arolwg yn ôl sir ....... 25
Tabl 3.2: Ymatebion i'r arolwg yn ôl math o lywodraethu ....... 26
Tabl 3.3: Ymatebion i'r arolwg yn ôl maint yr amgueddfa ....... 27
Tabl 3.4: Ymatebion i'r arolwg yn ôl ardal ddaearyddol a math o lywodraethu ....... 27
Tabl 3.5: Patrwm agor normal amgueddfeydd sy'n ymateb i arolwg[1] ....... 28
Tabl 3.6: Patrwm agor normal yn ôl math o lywodraethu [1] ....... 28
Tabl 3.7: Tarfu ar batrymau agor yn ystod 2024 yn ôl math o lywodraethu [1] ....... 28
Tabl 3.8: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol), gwirioneddol ac amcangyfrifedig, yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1] ....... 29
Tabl 3.9: Cyfanswm ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1] ....... 29
Tabl 3.10: Adferiad ffigur ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1] ....... 30
Tabl 3.11: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein), gwirioneddol ac amcangyfrifedig yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1] ....... 31
Tabl 3.12: Cyfanswm ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1] ....... 32
Tabl 3.13: Nifer yr amgueddfeydd sydd wedi cynnal ymchwil cynulleidfa[1] ....... 35
Tabl 3.14: Mathau o ymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan amgueddfeydd[1] ....... 35
Tabl 3.15: Cyllidebau gweithredu cyfartalog blynyddol amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu[1] ....... 36
Tabl 3.16: Cyllidebau gweithredu cyfartalog blynyddol amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu (Ffigurau gwirioneddol yn unig) ....... 36
Tabl 3.17: Cyllidebau gweithredu cyfartalog blynyddol amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu (Ffigurau amcangyfrif yn unig) ....... 36
Tabl 3.18: Newid mewn cefnogaeth Awdurdod Lleol yn ôl math o lywodraethu [1] ....... 38
Tabl 3.19: Ffurfiau cefnogaeth Awdurdod Lleol yn ôl math o lywodraethu[1] ....... 38
Tabl 3.20: Amgueddfeydd yn codi tâl mynediad yn ôl math o lywodraethu[1] ....... 39
Tabl 3.21: Amgueddfeydd yn codi tâl am arddangosfeydd neu wasanaethau yn ôl math o lywodraethu[1] ....... 40
Tabl 3.22: Dadansoddiad o incwm a gwariant ar gyfer 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1] ....... 41

Tabl 3.23: Dadansoddiad o incwm a gwariant cyfartalog ar gyfer 2023/24 yn ôl math o lywodraethu (ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig)[1] ....................................... 42
Tabl 3.24: Dadansoddiad o incwm a gwariant cyfartalog ar gyfer 2023/24 yn ôl math o lywodraethu (gwirioneddol yn unig)[1] ................................................................... 43
Tabl 3.25: Gweithlu mewn amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu[1]................................ 45
Tabl 3.26: Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn ôl math o lywodraethu[1]........ 46
Tabl 3.27: Nifer y staff proffesiynol cyfwerth ag amser llawn yn ôl rôl a math o lywodraethu amgueddfa[1]............................................................................................. 47
Tabl 3.28: Nifer y curaduron a gwarchodwyr cymwys yn ôl math o lywodraethu[1] .............. 47
Tabl 3.29: Staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir ar sail tymor penodol ar gyfer prosiectau penodol yn ôl math o lywodraethu[1] ....................................................................... 48
Tabl 3.30: Cyfraniad gwirfoddolwyr at amgueddfeydd 2023/24 yn ôl math o lywodraethu amgueddfa[1]............................................................................................. 48
Tabl 3.31: Oriau blynyddol cyfartalog 2023/24 a gyfrannwyd gan wirfoddolwyr yn ôl math o lywodraethu amgueddfa[1] ......................................................................... 49
Tabl 3.32: Newid mewn cyllideb hyfforddi er Sbotolau 2022 yn ôl math o lywodraethu[1] .... 49
Tabl 3.33: Gwrthrychau sy'n cael eu cadw gan amgueddfeydd a chaffaeliadau newydd yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1]..................................................................... 56
Tabl 3.34: Gwrthrychau yn gadael casgliadau parhaol yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1] ......................................................................................... 57
Tabl 3.35: Pryd y bydd storfeydd yn orlawn ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu (nifer yr amgueddfeydd)[1]....................................................................... 57
Tabl 3.36: Pa mor hir hyd nes y bydd y storfeydd yn orlawn ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu (canran yr amgueddfeydd) [1]] ......................................................... 58
Tabl 3.37: Mynediad i'r cyhoedd at gasgliadau ar-lein[1] ..................................................... 63
Tabl 3.38: Sesiynau dysgu ffurfiol a phresenoldeb (wyneb yn wyneb) yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1] ............................................................................................ 64
Tabl 3.39: Sesiynau dysgu ffurfiol a phresenoldeb (digidol) yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1] ......................................................................................... 64
Tabl 3.40: Cyfanswm nifer y sesiynau dysgu a phresenoldeb yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1] ......................................................................................... 65
Tabl 3.41: Cyfanswm nifer y sefydliadau dysgu ffurfiol a ymgysylltodd yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1] ............................................................................................ 66

Tabl 3.42: Sesiynau dysgu anffurfiol a phresennoldeb (wyneb yn wyneb) yn ôl math o lywodraethu[1] ....66
Tabl 3.43: Sesiynau dysgu anffurfiol a phresenoldeb (digidol) yn ôl math o lywodraethu[1] .67
Tabl 3.44: Cyfanswm nifer y sesiynau dysgu anffurfiol a phresenoldeb yn 2023/24[1] .........67
Tabl 3.45: Datganiadau Ystod Cyfartalog - Dysgu Ffurfiol ac Anffurfiol yn ôl math o lywodraethu[1] ....68
Tabl 3.46: Datganiadau Ystod Cyfartalog - Dysgu Ffurfiol ac Anffurfiol yn ôl maint amgueddfa[1]....68
Tabl 3.47: Cymharu darpariaeth dysgu Sbotolau 2024 yn erbyn Sbotolau 2020 a Sbotolau 2022[1] ....69
Tabl 3.48: Nifer yr amgueddfeydd sy'n defnyddio Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Creadigol UCL yn ôl math o lywodraethu[1] ....73
Tabl 3.49: Darpariaeth arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau yn targedu cymunedau penodol yn ôl math o lywodraethu [1]....75
Tabl 3.50: Nifer yr amgueddfeydd sydd wedi cynnal archwiliad mynediad ffurfiol yn ôl math o lywodraethu[1] ....76
Tabl 3.51: Nifer yr amgueddfeydd sy'n cynnal camau cysylltiedig â chydraddoldeb a chynhwysiant[1]....80
Tabl 3.52: Cydraddoldeb a chynhwysiant o fewn polisïau a chynlluniau[1]....81
Tabl 3.53: Nifer yr amgueddfeydd sy'n ymgysylltu â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol[1]....83
Tabl 3.54: Nifer y staff a gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith mewn amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu[1] ....84
Tabl 3.55: Lefelau risg i amgueddfeydd o lifogydd[1] ....85
Tabl 3.56: A ofynnwyd i'r amgueddfa gyflenwi data i'w Hawdurdod Lleol / corff cyhoeddus fel rhan o adrodd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?[1] ....86
Tabl 3.57: Math o wasanaethau a ddarperir gan AC-MW a ddefnyddiwyd yn ôl math o lywodraethu[1] ....87
Tabl 3.58: Nifer y gwasanaethau a ddarperir gan AC-MW a ddefnyddiwyd yn ôl math o lywodraethu[1] ....87
Tabl 3.59: A ydych chi wedi gweithio mewn partneriaeth gyda AC-MW yn ôl math o lywodraethu[1] ....88
Tabl C.1: Newid datganiad ystod datblygu cynulleidfa a marchnata strategol o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....140

Tabl C.2: Newid datganiad ystod cyfartalog datblygiad cynulleidfa a marchnata strategol o 2006 i 2024[1][2] ....... 140
Tabl C.3: Newid datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddolwyr o 2006 I 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....... 141
Tabl C.4: Newid datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddolwyr o 2006 I 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ....... 141
Tabl C.5: Newid datganiad ystod darpariaeth adeiladau addas o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....... 142
Tabl C.6: Newid datganiad ystod darpariaeth adeiladau addas o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ....... 142
Tabl C.7: Newid datganiad ystod monitro amgylcheddol o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....... 143
Tabl C.8: Newid datganiad ystod monitro amgylcheddol o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ....... 143
Tabl C.9: Newid datganiad ystod rheoli amgylcheddol o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....... 144
Tabl C.10: Newid datganiad ystod rheoli amgylcheddol o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ....... 144
Tabl C.11: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....... 145
Tabl C.12: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ....... 145
Tabl C.13: Newid datganiad ystod arddangos a chadw tŷ o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....... 146
Tabl C.14: Newid datganiad ystod arddangos a chadw tŷ o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ....... 146
Tabl C.15: Newid datganiad ystod dogfennaeth o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....... 147
Tabl C.16: Newid datganiad ystod dogfennaeth o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] 147
Tabl C.17: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....... 148
Tabl C.18: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ....... 148

Tabl C.19: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....149
Tabl C.20: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ....149
Tabl C.21: Newid datganiad ystod arddangos o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....150
Tabl C.22: Newid datganiad ystod arddangos o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ..150
Tabl C.23: Newid datganiad ystod mynediad o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] 151
Tabl C.24: Newid datganiad ystod mynediad o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2]....151
Tabl C.25: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu[1][2] ....152
Tabl C.26: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa[1][2] ....152

## Rhestr o ffigurau


Ffigur 3.1: Cyfanswm yr ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn ... 30

Ffigur 3.2: Cyfanswm ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn ... 32

Ffigur 3.3: Newid datganiad ystod datblygu cynulleidfa a marchnata strategol o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu ... 33

Ffigur 3.4: Newid datganiad ystod datblygu cynulleidfa a marchnata strategol o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa ... 34

Ffigur 3.5: Mae datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddolwyr yn newid dros amser yn ôl math o lywodraethu ... 50

Ffigur 3.6: Newid datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddolwyr dros amser yn ôl maint amgueddfa ... 51

Ffigur 3.7: Newid datganiad ystod darparu adeiladau addas dros amser yn ôl math o lywodraethu ... 52

Ffigur 3.8: Newid datganiad ystod darparu adeiladau addas dros amser yn ôl maint amgueddfa ... 52

Ffigur 3.9: Newid datganiad ystod monitro amgylcheddol dros amser yn ôl math o lywodraethu ... 53

Ffigur 3.10: Newid yn y datganiad ystod monitro amgylcheddol dros amser yn ôl maint amgueddfa ... 54

Ffigur 3.11: Newid yn y datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl math o lywodraethu ... 55

Ffigur 3.12: Newid yn y datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl maint amgueddfa ... 55

Ffigur 3.13: Pa mor hir hyd nes y bydd storfeydd yn orlawn ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu ... 58

Ffigur 3.14: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu ... 59

Ffigur 3.15: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl maint amgueddfa ... 59

Ffigur 3.16: Newid datganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu ... 60

Ffigur 3.17: Newid yn natganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl maint amgueddfa ... 61

Ffigur 3.18: Newid yn natganiad ystod dogfennau dros amser yn ôl math o lywodraethu ...62
Ffigur 3.19: Newid yn natganiad ystod dogfennau dros amser yn ôl maint amgueddfa .......62
Ffigur 3.20: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol dros amser yn ôl math o lywodraethu .....70
Ffigur 3.21: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol dros amser yn ôl maint ...........................70
Ffigur 3.22: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol dros amser yn ôl math o lywodraethu .71
Ffigur 3.23: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol dros amser yn ôl maint .......................72
Ffigur 3.24: Newid datganiad ystod arddangos dros amser yn ôl math o lywodraethu ........77
Ffigur 3.25: Newid datganiad ystod arddangos dros amser yn ôl maint yr amgueddfa ........77
Ffigur 3.26: Newid datganiad ystod mynediad dros amser yn ôl math o lywodraethu..........78
Ffigur 3.27: Newid datganiad ystod mynediad dros amser yn ôl maint yr amgueddfa .........79
Ffigur 3.28: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio dros amser yn ôl math o lywodraethu ...........................................................................................................................89
Ffigur 3.29: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio dros amser yn ôl maint ...................90

## Rhestr Eirfa

**AC-MW**

Amgueddfa Cymru – Museum Wales. AC-MW yw Amgueddfa Cymru ac yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru

**Achrediad**

Achrediad yw Cynllun Safonau Amgueddfeydd y DU sy'n amlinellu safonau arfer da a gytunir yn genedlaethol.

**Art UK**

Gofod diwylliannol ar-lein sy'n dwyn ynghyd cofnodion digidol o weithiau celf yng nghasgliadau celf cyhoeddus y DU.

**AIM**

Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol

**ALVA**

Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Mawr

**ARWAP**

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

**Cyllid Cyfalaf**

Cyllid a ddarperir i gefnogi adeiladau a seilwaith. Fe'i disgrifir ar wahân i gyllid refeniw sy'n cefnogi gweithgareddau blwyddyn ar ôl blwyddyn

**CELF**

Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru

**CyMAL**

Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru Is-adran Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar sectorau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru, bellach yr Is-adran Diwylliant

**DEC**

Tystysgrif Ynni i'w Harddangos

**E&I**

Tegwch a chynhwysiant. Mae tegwch yn golygu trin pobl yn deg, mae tegwch yn golygu cydnabod bod gan bawb wahanol anghenion ac amgylchiadau. Mae'n golygu sicrhau bod

gan bawb gyfle i lwyddo, nid yn unig drwy gymhwyso'r un rheolau i bawb, ond drwy ddarparu'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt yn seiliedig ar eu hanghenion unigol.

**CALI**

Cyfwerth ag Amser Llawn

**Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Llyfr Gwyrdd**

Mae'r Llyfr Gwyrdd yn arweiniad a gyhoeddir gan Drysorlys EF ar sut i werthuso polisïau, rhaglenni a phrosiectau. Mae hefyd yn cynnig arweiniad ar gynllun a defnydd monitro a gwerthuso cyn, yn ystod ac ar ôl gweithredu.

**GSR**

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

**Julie's Bicycle**

Mae Julie's Bicycle yn cyflenwi rhaglenni dysgu, offer ac adnoddau, a mentrau arweinyddiaeth, sy'n ymateb i alwadau argyfwng hinsawdd.

**MA**

Cymdeithas Amgueddfeydd y DU

**Gwasanaeth Data Amgueddfeydd (Museum Data Service)**

Gwasanaeth sy'n anelu at gysylltu a rhannu cofnodion gwrthrychau digidol ar draws amgueddfeydd y DU.

**Cyfrifiannell Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru**

Gwasanaeth i Gymru gyfan sy'n rhoi data ar berygl o lifogydd mewn ardal yn ôl cod post.

**NCVO**

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol

**Datganiadau ystod**

Offeryn meincnodi rhannol-feintiol i gasglu perfformiad ystod amrywiol o weithgareddau sy'n cyflenwi amcan cyffredin megis dogfennu casgliadau neu ddatblygu fframwaith polisi a chynllunio. Wedi'i daenu dros chwe lefel meincnodi, gofynnir i amgueddfeydd hunan-asesu pa lefel sy'n disgrifio orau eu harfer.

**Sbotolau 2022**

Adroddiad GSR a sail data arolwg Sbotolau ar gyfer 2022 a gasglwyd gan amgueddfeydd yng Nghymru sydd wedi'u Hachredu neu'n Gweithio tuag at Achrediad.

**Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Creadigol UCL**

Mae'r Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Creadigol UCL yn set o raddfeydd mesur y gellir eu defnyddio i asesu lefelau llesiant seicolegol sy'n deillio o gymryd rhan mewn gweithgareddau amgueddfeydd, orielau a threftadaeth.

**LlC**

Llywodraeth Cymru

# 1. Rhagymadrodd a chefndir

Ar hyn o bryd mae cyfleoedd clir i amgueddfeydd gyfrannu at gyflenwi blaenoriaethau cenedlaethol. Amlinellir y blaenoriaethau hyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Rhaglen Lywodraethu 2021. Mae ymrwymiad i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd gyda buddsoddiad yn y rhwydwaith diwylliannol ac amgueddfa. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i feithrin cymdeithas gynhwysol a theg i bawb. Bydd cyflenwi ar y cynllun hwn yn sicrhau bod hanes cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn cael ei gynrychioli yn amgueddfeydd Cymru. Mae Blaenoriaethau Diwylliant Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi fframwaith perthnasol ar gyfer gweithgaredd amgueddfeydd. Yn y polisïau hyn gall amgueddfeydd ganfod strategaethau perthnasol ar dwristiaeth, digidol, y Gymraeg a newid hinsawdd.

## 1.1. Hanes Sbotolau

Cynhaliwyd Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd yng Nghymru yn 2006, 2011, (adroddwyd yn Adolygiad o wasanaethau amgueddfeydd, cyllid ac uchafbwyntiau 2015) , 2020 (adroddwyd yn Sbotolau ar amgueddfeydd 2020) a 2022 (adroddwyd yn Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd: 2022). Yn 2016 cafwyd arolwg cryno o'r enw 'Spotlite'. Yn 2002 comisiynodd Cyngor Amgueddfeydd Cymru adolygiad o gasgliadau a gwasanaethau amgueddfeydd. Yr adolygiad hwn oedd yr anogwr cychwynnol ar gyfer sefydlu Arolygon Sbotolau.

Roedd y fformat yn deillio o gorff rhagflaenydd (CyMAL) a ddylanwadwyd gan gyfres o ddogfennau critigol. Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys y Fframwaith Annog Dysgu i Bawb, Meincnodau wrth Ofalu am Gasgliadau a'r gofynion achredu. Amlinella Cynllun Achredu Amgueddfeydd y DU safonau arfer da. Mae'r cynllun achredu yn galluogi i amgueddfeydd asesu eu perfformiad cyfredol. O'r asesiad hwn, mae'r cynllun yn cefnogi amgueddfeydd i gynllunio datblygu eu gwasanaethau. Er mwyn cynnig cysondeb data, nid yw fformat yr arolwg Sbotolau wedi newid rhyw lawer. Rhoddodd hyn ddata cymharu, gan ddefnyddio rhanddeiliaid allweddol a gafodd eu galw yn grŵp craidd. Ar hyd y blynyddoedd ychwanegwyd mwy o adrannau a chwestiynau at yr arolwg. Mae cwestiynau newydd yn ystyried testunau megis datblygu cynulleidfa a marchnata, darpariaeth ddysgu ac ymgysylltiad addysgol, a mynediad i'r amgueddfa ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Mae gan yr Arolwg Sbotolau rôl unigryw wrth fonitro ac asesu iechyd parhaus y sector amgueddfa. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Sbotolau wedi darparu data hanfodol i hysbysu penderfyniadau strategol ar gyfer amgueddfeydd. Mae hyn yn helpu i gynnig tystiolaeth ar gynllunio, cyllido, a phenderfyniadau eraill.

## 1.2. Nodau ac Amcanion

Comisiynodd Isadran Diwylliant Llywodraeth Cymru Emma Chaplin Gwasanaethau Treftadaeth ac Amgueddfeydd i ymgymryd â'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024. Mae'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd yn arolwg cynhwysfawr o amgueddfeydd yng Nghymru sy'n casglu data i roi darlun cyfredol o sector amgueddfeydd Cymru. Mae canfyddiadau o Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd yn helpu i gyfrannu at amcangyfrifon o effaith gymdeithasol ac economaidd amgueddfeydd yng Nghymru. Mae'r data hwn yn hanfodol i swyddogion Llywodraeth Cymru hysbysu a chefnogi penderfyniadau polisi. Mae'r data hwn yn rhoi tystiolaeth ar gyfer blaenoriaethau Gweinidogol i'r dyfodol ar gyfer y sector amgueddfeydd a diwylliant yng Nghymru. Gall Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd gefnogi amgueddfeydd sy'n gallu cyrchu data cyfredol a meincnodi eu hunain yn erbyn ystod o gymaryddion. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyfoethogi yn 2024 trwy ofyn i ymatebwyr gytuno ar ryddhau data sydd wedi'i gynnwys o fewn rhai o'u hatebion mewn fformat mynediad anghyfyngedig. Gwnaeth ychwanegu cymal rhyddhau data o fewn yr holiadur hi'n bosibl i ganiatáu i amgueddfeydd rannu a chyrchu data craidd.

Mae Sbotolau 2024 hefyd yn anelu at ymgysylltu â rhanddeiliaid y sector amgueddfeydd i helpu i ledaenu canfyddiadau allweddol o'r arolwg. Bydd set gynhwysfawr a chadarn o ddata yn rhoi tystiolaeth lle mae amgueddfeydd yn cael effaith gadarnhaol neu'n wynebu heriau.

Amlinellwyd nodau'r gwaith hwn yn y manylion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhannwyd y nodau yn ddau gyfnod o waith penodol. Roedd y cam cyntaf yn gofyn i'r contractwr gynnal Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024 a darparu cymorth i'r sector amgueddfeydd cyn ac yn ystod prif gamau'r gwaith maes i uchafu ar y gyfradd ymateb. Roedd yr ail gam yn nodi y dylai'r contractwr helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r sector. Bydd y cyfranogiad hwn trwy gyfres o weithdai rhithiol i gyfathrebu canfyddiadau allweddol o'r arolwg i'r sector.

### 1.2.1. Cam 1

- Darparu cymorth i'r sector amgueddfeydd cyn i'r arolwg fynd yn fyw i uchafu ar y gyfradd ymateb, yn enwedig wrth dargedu amgueddfeydd llai ac annibynnol yng Nghymru.
- Cynnal yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024 gydag Amgueddfeydd Achrededig neu'r rhai hynny sy'n Gweithio Tuag at Achrediad a chynnal dadansoddiad o'r ymatebion.
- Datblygu cymorth ychwanegol i amgueddfeydd yn ystod camau gwaith maes i uchafu ar y gyfradd ymateb.
- Cyflenwi cyflwyniad dwyieithog o ganfyddiadau allweddol yr arolwg i Swyddogion Isadran Diwylliant Llywodraeth Cymru.
- Llunio adroddiad Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth terfynol a dwyieithog (gan gynnwys crynodeb gweithredol dwyieithog).

- Cynhyrchu isafswm o bump ffeithlun â thema yn amlinellu canfyddiadau arolwg allweddol er mwyn i arweinwyr amgueddfeydd a rhanddeiliaid sector ar draws Cymru gyrchu'r rhain yn hawdd (a bwydo'n uniongyrchol i gam dau'r gwaith).

#### 1.2.2. Cam 2

- Cyflenwi'n brydlon uchafswm o ddau weithdy dwyieithog rhithiol mewn partneriaeth â chydweithwyr polisi Isadran Diwylliant Llywodraeth Cymru a mynychu isafswm o dri chyfarfod sectorol i randdeiliaid sector amgueddfeydd allanol i rannu effaith canfyddiadau allweddol.

### 1.3. Strwythur

Wrth gyfathrebu canfyddiadau'r arolwg, mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Mae Adran 2 yn cyflwyno methodoleg yr arolwg, gan gynnwys newidiadau i fersiynau blaenorol a chyfyngiadau methodolegol.

Cyflwyna Adran 3 ganfyddiadau'r arolwg ac yn cynnig peth dehongliad o ganlyniadau o'i gymharu ag arolygon sbotolau blaenorol yng nghyd-destun y sector amgueddfeydd a threftadaeth.

Cyflwyna Adran 4 adolygiad o'r fethodoleg gydag argymhellion ar gyfer casglu data yn y dyfodol.

# 2. Methodoleg

Rhoddodd dîm Llywodraeth Cymru ddogfennaeth i'r tîm prosiect a oedd yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, adroddiadau Sbotolau a gyhoeddwyd yn flaenorol, copi o'r holiadur arolwg y cytunwyd arno a'r data craidd o gylchoedd arolwg Sbotolau blaenorol. Adolygodd y tîm prosiect y data hwn ac argymell grŵp bach o newidiadau (gweler 2.3 isod). Yna argymhellodd y tîm prosiect fersiwn terfynol o'r holiadur. Cytunodd Rheolwr Prosiect Llywodraeth Cymru yr holiadur terfynol yn y cam Adrodd Cychwynnol cyn rhyddhau. Cyflenwodd dîm Llywodraeth Cymru fanylion cyswllt yr amgueddfeydd o fewn y sampl.

## 2.1. Cynllun ymchwil

Cafodd nodau'r ymchwil Sbotolau, y modd ymchwilio (arolygu amgueddfeydd unigol) a chwmpas yr ymchwil (y cwestiynau a'u cystrawen) eu pennu naill ai'n gyfan neu'n bennaf gan y cytundeb. Mae deall y dull Sbotolau 2024 yn gofyn am ddealltwriaeth o hanes Sbotolau. Amlinellir hanes Sbotolau yn adran 1 ac amlinellir ei werthusiad yn adran 2.

Arolwg cyfrifiad yw'r modd ymchwilio. Rhoddodd Lywodraeth Cymru restr o gysylltiadau dynodedig a restrir ar gyfer 107 o amgueddfeydd achrededig a derbyniodd pob cyswllt holiadur llawn. Pennwyd y rhestr arolwg gan y cleient ac mae'n cynnwys y rheini sy'n gweithio tuag at achrediad a'r rheini sy'n meddu ar achrediad dros dro. Testun yr arolwg oedd amgueddfeydd o fewn y cynllun achrededig ar ddechrau'r cyfnod arolwg. Rhoddodd hyn gyfanswm maint sampl posib o 107 o amgueddfeydd.

Mae Sbotolau yn casglu data meintiol ac ansoddol. Ymhlith y cwestiynau a ofynnwyd oedd data nominal, trefnol a chyfwng. Mae data nominal yn casglu data pendant gydag ansawdd enwol; mae hyn yn cynnwys enwau amgueddfeydd neu adborth ar enghreifftiau o lwyddiannau. Mae data trefnol yn yr arolwg yn casglu gwybodaeth y gellir ei graddio. Ymhlith y mathau o ddata trefnol a gasglwyd oedd lefelau perygl llifogydd neu newidiadau mewn cefnogaeth ariannol ers yr arolwg diwethaf. Casglwyd data cyfwng am bethau y gellir eu cynrychioli gydag ansawdd diffiniedig. Ymhlith yr enghreifftiau fyddai nifer y sesiynau addysg neu'r gyllideb weithredol ar gyfer yr amgueddfa. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddata cyfwng gall yr ymatebydd nodi data amcangyfrif. Mae'r gronfa ddata yn cofnodi p'un a yw atebion yn amcangyfrifon neu ffigurau gwirioneddol. Mae'r data datganiad ystod a ddisgrifir yn adran 2.2 yn drefnol o ran y gellir ei raddio. Mae'n well gan y tîm ymchwil ddisgrifio hyn fel rhannol-feintiol oherwydd natur oddrychol yr ymatebion.

Cafodd y data eu gwirio o ran synnwyr gan yr ymgynghorwyr. Pe bai'n ymddangos bod gwall megis adio ffigurau cyllideb fe wnaeth y tîm ymchwil wirio gyda'r ymatebwyr. Gallai enghraifft o hyn gynnwys pe bai mwy o staff CALI wedi'u rhestru na chyfanswm nifer y staff. Lle gallai'r ymateb fod yn oddrychol parchodd y tîm ymchwil hunanasesiad yr ymatebydd. Gallai enghraifft o hyn gynnwys graddau'r gorlenwi. Cafodd yr holl ymatebwyr gynnig hyfforddiant a chefnogaeth lle cawsant eu hannog yn gryf i nodi asesiadau realistig o arfer cyfredol. Pan ofynnwyd i ymatebwyr am ddata rhifiadol ond roeddent yn gallu nodi testun rhydd, mae'r testun rhydd wedi'i dynnu.

Ar gyfer rhai gwasanaethau amgueddfeydd a'r amgueddfeydd Cenedlaethol roedd meysydd data nad oedd modd eu dadgyfuno rhwng amgueddfeydd. Gallai enghraifft o hyn gynnwys defnyddwyr ar-lein a data ariannol. Lle'r oedd ymatebwyr yn cyflenwi data cronnus, cafodd y ffigurau eu rhannu'n gyfartal rhwng pob safle yn y grŵp.

## 2.2. Datganiadau ystod

Mae datganiadau ystod wedi bod yn nodwedd gyffredin o arolwg Sbotolau. Mae datganiadau ystod yn offeryn meincnodi rhannol-feintiol i gasglu perfformiad. Mae datganiadau ystod yn ystyried ystod amrywiol o weithgareddau sy'n cyflenwi amcan cyffredin megis dogfennu casgliadau neu ddatblygu fframwaith polisi a chynllunio. Gan ystyried chwe lefel feincnodi, gofynnir i amgueddfeydd hunanasesu pa lefel sy'n disgrifio eu harfer orau. Ychydig iawn o amgueddfeydd fyddai'n canfod pariad union rhwng y meincnod a'u harfer. Mae'n gyffredin cael rhai elfennau o feincnodi uwch ond dewis un sy'n is i gynrychioli'r amgueddfa orau. O ganlyniad, ni ddylid gorddweud cywirdeb y datganiadau hyn. Serch hynny, oherwydd eu defnydd cyson a chynefindra â'r metrig o fewn y sector mae'r rhain wedi'u cadw. Mae ffigur rhifiadol ynghlwm wrth ddisgrifydd enwol. Cred yr awduron bod newidiadau yn sgorau datganiad ystod yn debygol o gydberthyn i newid mewn perfformiad.  Cynigia newidiadau mewn sgorau datganiad ystod fewnwelediad i'r perfformiad o fewn amgueddfeydd Cymru.

## 2.3. Diwygiadau i gwestiynau arolwg

Roedd yr ymgynghorwyr yn ymwybodol o gynnwys ac allbynnau o fersiynau blaenorol o arolygon Sbotolau (a Spotlite, sef fersiwn gryno o'r arolwg a gynhaliwyd yn 2016) o brofiad uniongyrchol o gasglu data a chymryd rhan mewn trafodaethau yn y sector treftadaeth ddiwylliannol. Ar y cyfan mae fformat arolwg Sbotolau wedi parhau'n ddinewid sy'n cynnig cysondeb o ran data. Mae adrannau a chwestiynau ychwanegol wedi'u hychwanegu dros amser. Ychwanegwyd cwestiynau am fynediad ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig ac aliniad â pholisiau megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Ystyriwyd natur a graddau'r diwygiadau a fyddai'n briodol. Ystyriodd yr ymgynghorwyr hyn a baich y cwestiynau ychwanegol ar ymatebwyr. Cafodd hyn ei gyd-bwyso â phwysau i newid cwestiynau i bennu perthnasedd. Nododd adborth o'r sector bynciau ychwanegol posib ar gyfer yr holiadur ond hefyd ymdeimlad llethol bod y sector yn teimlo ei fod yn cael ei or-arolygu. Roedd anghenion Llywodraeth Cymru i ymgymryd â dadansoddiad hir dymor o ddata cyson hefyd yn ffactor wrth lunio holiadur a oedd yn gyffredinol yn gyson â fersiynau blaenorol.

Ychwanegwyd dau gwestiwn a darparwyr mân newidiadau a diffiniadau ychwanegol ar gyfer eraill. Gobaith ymgynghorwyr yw y bydd y raddfa newid hon yn osgoi anfodlonwydd ymhlith ymatebwyr a chyfradd ddychwelyd is.

### 2.3.1. Ychwanegwyd esboniad ychwanegol ar ddiffiniad gwirfoddolwr (amgueddfa) a gwirfoddolwr (ymddiriedolwr) (C28)

Gwahanodd arolwg 2022 ymddiriedolwyr yn benodol oddi wrth wirfoddolwyr am y tro cyntaf. Yn C28 "Beth yw cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr yn yr amgueddfa?", gofynnwyd i ymatebwyr wahaniaethu rhwng Gwirfoddolwyr (Amgueddfa) a Gwirfoddolwyr (Ymddiriedolwyr). Mewn rhai amgueddfeydd, bydd unigolion yn gwneud y ddwy rôl. Ychwanegwyd disgrifiad o'r gwahaniaeth rhwng math o wirfoddolwr er mwyn cynorthwyo dehongliad. Mae pwysigrwydd ymddiriedolwyr yn wahanol i wirfoddolwyr eraill. Mae ymddiriedolwyr yn cyfrannu at eu cymuned fel gwirfoddolwyr, ac mae ganddynt rôl gyfreithiol fel ymddiriedolwr elusen. Ymddiriedolwyr sy'n cyfarwyddo'r polisi a rheolaeth yr amgueddfa. Mae casglu data ar amrywiaeth o fewn arweinyddiaeth yn fesur pwysig ar sut y mae amgueddfeydd yn cynrychioli cymdeithas.

### 2.3.2. Diweddarwyd diffiniad o siaradwyr Cymraeg (C28b)

Ychwanegwyd diffiniad o siaradwyr Cymraeg 'yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu arferol cysylltiedig â gwaith' ar gyfer 2024. Roedd hwn yn disodli'r diffiniad 'yn gallu cyrchu gwasanaethau yn Gymraeg?'. Y bwriad oedd adnabod galluoedd Cymraeg gwirfoddolwyr a staff. Y lefel berfformio oedd a allai gwirfoddolwyr a staff ddelio ag ymholiadau, derbynfa, a gwaith yr amgueddfa o ddydd i ddydd yn Gymraeg.

### 2.3.3. Newid opsiynau ar gyfer ffurfiau gwaredu (C39)

Gofynnodd arolwg 2024 i amgueddfeydd eitemeiddio nifer y gwrthrychau a gaffaelwyd ac a waredwyd yng nghyfnod yr arolwg. Yn C39 arolwg Sbotolau 2024 rhestrwyd yr opsiynau ar ffurfiau gwaredu fel 'rhoddion a throsglwyddiadau, gwerthu, dinistrio'. Yn arolwg 2022 yr opsiynau hyn oedd 'rhoddion, gwerthu, dinistrio'.

### 2.3.4. Newidiwyd y cwestiwn i gasglu data ar ddefnydd cyfrifianellau carbon (C46)

Gofynnodd arolwg 2022 (C46) i amgueddfeydd am eu defnydd o gyfrifiannell carbon 'Julie's Bicycle'. Yn C46 arolwg Sbotolau 2024, gofynnwyd i amgueddfeydd 'Ydych chi wedi cynnal asesiad carbon?'. Rhoddwyd opsiwn testun rhydd i ymatebwyr gofnodi'r dull penodol a ddefnyddiwyd a'r canlyniad. Y nod oedd casglu data am effaith amgylcheddol amgueddfeydd ac i adolygu'r pecynnau cymorth asesiad carbon a ddefnyddir yn amgueddfeydd Cymru.

### 2.3.5. Newid opsiynau ar gyfer camau E&I a diffiniad wedi'i ychwanegu (C48)

Ar gyfer C48 arolwg Sbotolau 2024 ar wella E&I cafodd 'Pa weithgareddau yr ydych chi wedi'u cynnal i wella'ch camau cysylltiedig â Thegwch a Chynhwysiant (E&I)? Ticiwch bob un sy'n berthnasol' yr opsiynau wedi'u newid ychydig. Cafodd yr ymateb 'digwyddiadau ad hoc' ei ddileu ac yn ei le rhoddwyd 'hyfforddiant E&I ar gyfer staff/gwirfoddolwyr perthnasol' i gasglu data mwy penodol am y gweithgareddau a gynhaliwyd. Diffiniwyd tegwch o fewn yr arolwg fel 'trin pobl yn deg, cydnabod bod gan bawb anghenion ac amgylchiadau gwahanol. Mae'n golygu bod gan bawb gyfle i lwyddo, nid yn unig trwy gymhwyso'r un rheolau i bawb,

ond trwy roi'r gefnogaeth a'r adnoddau y mae eu hangen arnynt ar sail eu hanghenion unigol.'

### 2.3.6. Cwestiwn Newydd ar Gydraddoldeb a Chynhwysiant (C49)

Ychwanegwyd cwestiwn C49 newydd a ofynnodd, 'A ydych chi wedi cynnwys camau yn ymwneud â chynhwysiant, cydraddoldeb, a gwaredu rhwystrau y mae unrhyw un o'r cymunedau a ganlyn yn eu hwynebu ym mholisïau a chynlluniau'ch sefydliad?'. Roedd y cymunedau a ddisgrifiwyd yr un rhestr a ddefnyddiwyd yn C15 ac mewn arolygon blaenorol.

Defnyddiodd y cwestiwn yr un rhestr o gymunedau a ddefnyddiwyd mewn arolygon Sbotolau blaenorol ac yn C15 'Ers arolwg Sbotolau 2022 a ydych chi wedi darparu arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau a oedd wedi'u targedu at unrhyw un o'r cymunedau a ganlyn'. Ymestynnodd hyn sylfaen dystiolaeth ar weithgareddau E&I i'r cyhoedd.

### 2.3.7. Cwestiynau ychwanegol ar ARWAP (C50)

Casglodd arolwg Sbotolau 2022 ddata sy'n berthnasol i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP). Ar sail y camau a'r effeithiau a nodir yn y cynllun ar gyfer sefydliadau Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon (tudalennau 57 i 58), cafodd 5 maes targed eu cynnwys yn yr arolwg ar gyfer adrodd yn 2022. Ar gyfer arolwg 2024 cafodd bum maes targed eu hychwanegu. Ehangodd hyn gwmpas cyfranogi a chynrychiolaeth o fewn casgliadau, addysg ac arddangosfeydd. Bydd gwybod graddau'r ymrwymiad yn y sector yn llywio gwaith datblygu yn y dyfodol yn y maes blaenoriaeth hwn.

Opsiynau gwreiddiol:

- arddangos ymrwymiad i wrth-hiliaeth yn eich llywodraethu
- cymryd camau i greu amgylchedd gwaith cynhwysol
- casglu data gwaelodlin ar amrywiaeth ethnig o fewn eich gweithle a thîm llywodraethu
- wedi mabwysiadu strategaethau recriwtio cadarnhaol ar gyfer grwpiau wedi'u tangynrychioli
- wedi adolygu systemau ar gyfer adrodd a delio â chwynion o wahaniaethu

Opsiynau a ychwanegwyd ar gyfer 2024:

- digwyddiadau, gweithgareddau, arddangosfeydd a/neu ddehongliad wedi'u cyd-gynllunio gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- wedi adolygu'ch casgliadau i adnabod gwrthrychau perthnasol i adrodd straeon cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- wedi ychwanegu gwrthrychau at eich casgliadau i gynrychioli cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- wedi cynnwys straeon o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eich dehongliad (arddangosfeydd, arddangosiadau ac orielau parhaol)

- wedi cynnwys straeon cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eich rhaglen ddysgu ac adnoddau addysgol

#### 2.3.8. Cwestiwn ychwanegol ar gytundeb i gyhoeddi data (C57)

Ychwanegwyd cwestiwn newydd (C57), a ofynnodd, 'A ydych chi'n cytuno i Lywodraeth Cymru gyhoeddi data o gwestiynau 1, 3, 6, 9, 10, 12, 19, 20, 28, 29 ar wefan Llywodraeth Cymru?'. Mae'r cynnig hwn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru rannu data gan amgueddfeydd unigol mewn ystod o weithgareddau cyhoeddus megis llywodraethu, cynulleidfa a niferoedd staff amgueddfeydd.

### 2.4. Amserlen

Agorodd yr arolwg ar 16 Mehefin 2025 ac fe gaeodd yn swyddogol am hanner nos ar 31 Gorffennaf 2025. Trwy gytundeb, caniatawyd estyniadau i nifer gyfyngedig o ymatebwyr o hyd at bythefnos ac fe gaeodd yr arolwg eto am hanner nos ar 17 Awst 2025.

### 2.5. Platfform yr Arolwg

Defnyddiodd tîm y prosiect Arolygon Ar-lein (a alwyd yn arolwg ar-lein Bryste yn flaenorol) fel y llwyfan ar gyfer cynnal yr arolwg. Roedd y feddalwedd yn gyfarwydd i'r sector amgueddfa gan ei bod wedi'i defnyddio ar gyfer arolwg Sbotolau 2022. Mae'r feddalwedd yn cydymffurfio â GDPR ac o fewn cwmpas tystysgrifau ISO9001 a ISO27001 a gedwir gan JISC, asiantaeth nid-er-elw cenedlaethol y DU ar gyfer digidol, data, a thechnoleg o fewn sectorau addysg uwch, addysg bellach ac ymchwil.

### 2.6. Lansio arolwg

Cafodd amgueddfeydd rybudd bod lansio'r arolwg yn agos gan yr Is-adran Diwylliant a'r ymgynghorwyr a oedd yn defnyddio eu rhwydweithiau. Lansiwyd yr arolwg ar 16 Mehefin 2025 trwy e-bost o gyfrif e-bost tîm Sbotolau 2024 yn y fformat dwyieithog safonol. Roedd y neges e-bost hon i'r grŵp arolwg yn cynnwys dolenni wedi'u gwreiddio i'r arolwg, gwahoddiad i gofrestru i'r gweithdai cymorth dwyieithog, copi o ganllaw cychwyn cyflym, copi o'r set cwestiynau a chyfeiriad bwlch post pwrpasol ar gyfer cefnogaeth wrth lenwi'r arolwg neu i fynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau. Atodwyd hefyd copi PDF o atebion a gyflwynwyd i arolwg Sbotolau 2022, os oeddynt ar gael.

### 2.7. Cymorth gyda'r arolwg

Cyflenwyd dau weithdy dwyieithog rhithiol dwy awr o hyd ar ddechrau ac ynghanol y cyfnod arolwg. Yn y rhain, amlinellwyd nodau ac amcanion yr arolwg, ynghyd â newidiadau o fersiynau blaenorol, cyngor am sut i ganfod ffordd drwy'r arolwg a chanllawiau ar gwblhau'r ystod o gwestiynau ystod datganiad. Daeth y gweithdai i ben gyda chwestiynau cyffredin a sesiwn holi ac ateb. Cynhaliwyd gweithdai yn breifat ar zoom heb recordio'r sesiwn er rhoddwyd PDF o'r PowerPoint i'r holl gyfranogwyr. Cynigiwyd sesiynau cynghori un i un preifat ar ddiwedd y gweithdai os oedd eu hangen ar gyfer materion y cytunwyd eu bod yn gyfrinachol rhwng cyfranogwyr a'r tîm arolwg.

Darparwyd galwadau ffôn ac e-byst cefnogi ychwanegol, ac roedd y gwasanaeth hwn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y bobl hynny oedd yn ei chael hi'n anodd cyrchu'r platfform.

## 2.8. Y Gymraeg

Darparwyd yr holl allbynnau cyhoeddus, holiaduron a dogfennau cefnogi mewn fformat dwyieithog. Cafodd y gweithdai cefnogi eu cryfhau gan wasanaeth cyfieithu byw i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y mae eu disgwyl ym maes gwaith y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cyrchwyd gwaith cyfieithu gan gwmni cyfieithu uchel ei barch gyda phrofiad yn y Gymraeg ac sy'n aelodau llawn o Gymdeithas Cwmnïau Cyfieithu ac yn Aelod Corfforaethol o Sefydliad Cyfieithu a Dehongli.

## 2.9. Poblogaeth Sampl

Defnyddia Adolygiad arbenigol o ddarpariaeth amgueddfeydd lleol yng Nghymru ddiffiniad o amgueddfa a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Amgueddfeydd sef 'Mae amgueddfeydd yn galluogi pobl i archwilio casgliadau ar gyfer eu dehongli, dysgu ohonynt a'u mwynhau. Maen nhw'n sefydliadau sy'n casglu, yn diogelu, ac yn gwneud arteffactau a samplau yn hygyrch, y maen nhw'n eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cymdeithas'. Er mwyn cael ei ystyried yn amgueddfa, rhaid i sefydliad fodloni nodweddion allweddol y diffiniad hwn. Mae Amgueddfeydd yng Nghymru yn disgyn yn bennaf i dri grŵp eang: amgueddfeydd cenedlaethol sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, amgueddfeydd lleol sy'n cael eu gweithredu a'u hariannu gan awdurdodau lleol, ac amgueddfeydd lleol annibynnol sydd weithiau yn derbyn cymhorthdal gan awdurdodau lleol.

Amcangyfrifa Lywodraeth Cymru bod tua 160 o 'amgueddfeydd' y gellir eu disgrifio ar hyn o bryd yn gyffredinol fel amgueddfa neu y gallent alw eu hunain yn amgueddfa yng Nghymru. O blith y rhain, mae 107 sy'n bodloni diffiniad Cymdeithas Amgueddfeydd o amgueddfa ac yn cyfranogi yng Nghynllun Achredu Amgueddfeydd y DU. Mae cyfranogiad yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hachredu'n llawn, wedi'u hachredu dros dro ac yn gweithio tuag at achrediad. Gosoda Gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU safonau gofynnol ar gyfer darpariaeth amgueddfeydd ac mae'n nod o sicrwydd ansawdd.

Mae meintiau amrywiol amgueddfeydd, a nifer fwy o amgueddfeydd bychain yn y sampl a'r argaeledd cyfatebol o – a chyfyngiadau ynghylch – adnoddau ac arbenigedd, yn gallu cael effaith ar gapasiti a sgiliau (yn enwedig llythrennedd TG) wrth ymgysylltu â'r Arolwg Sbotolau. Mae gwybodaeth helaeth tîm y prosiect am y sector amgueddfeydd yng Nghymru wedi sicrhau bod y cymorth wedi'i deilwra a'r dargedu'n briodol i sicrhau cyfraddau uchel o gwblhau'r arolwg.

## 2.10. Allforio data

Ar ôl cwblhau'r arolwg, allforiwyd data'r arolwg i fformat Excel ar gyfer dadansoddi data a'i archifo mewn ffeil ODS gan ddilyn canllawiau hygyrchedd Llywodraeth Cymru.

## 2.11. Dadansoddi'r data

Mae'r broses o ddadansoddi'r data wedi dilyn yr un patrwm ag adroddiadau blaenorol er mwyn cynhyrchu data y gellir ei gymharu, ond mae data wedi'u dadansoddi hefyd â'r nod o nodi unrhyw dueddiadau neu faterion newydd a allai fod wedi codi ers yr arolygon blaenorol. Mae dulliau ystadegol priodol wedi'u defnyddio i amlygu data y gellir ei ddeall orau fel tueddiadau (datganiadau ystod), fel canran o rif cyfan (mathau o amgueddfeydd) neu fel cyfansymiau (nifer yr ymwelwyr). Dewiswyd sylwadau priodol yn ddaearyddol sy'n cyd-fynd orau â'r math o ddata sydd wedi'i dywys gan argymhellion 'Llyfr Gwyrdd'. Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol hefyd.

Roedd y rhan fwyaf o gwestiynau'r arolwg yn orfodol. Gan hynny, yn adran 3 bydd nifer sylfaen ar gyfer unrhyw dabl neu siart lle mae niferoedd amgueddfeydd yn cael eu defnyddio yn gyfanswm nifer yr ymatebion (n84) oni nodir yn wahanol yn nodiadau'r tabl. Pan ofynnir cwestiwn lle mae angen i'r ymatebwyr ddewis o blith set benodol o atebion, cynhwysir yr holl opsiynau a gynigiwyd yn y tabl sy'n dangos y data. Cynigiodd rai cwestiynau gwymplen ond nid oeddynt yn orfodol (Cwestiynau 6, 8a, 9, 14a, 15, 27, 44, 46, 47, 48, 49, 50, 52) ac adroddwyd ar yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn unol â hynny.

Cafwyd nifer o gwestiynau gydag atebion nominal (h.y. enw amgueddfa) neu rifiadol (h.y. niferoedd ymwelwyr) lle gallai ymatebwyr ddewis eu testun eu hunain. Ar gyfer yr adroddiad hwn, nid ydynt yn cael eu hystyried yn gwestiynau testun rhydd.

Nid oedd dau o'r cwestiynau yn orfodol ac roeddynt yn casglu data rhifiadol. Gofynnodd y ddau gwestiwn hyn (C22 a C29) i'r ymatebydd adnabod a ddefnyddiwyd blwyddyn ariannol amgen (C22) ac am ddarpariaeth y Gymraeg (C29b).

Cafwyd 17 o gwestiynau testun rhydd (Cwestiynau 9,12, 14, 15, 20, 23, 24, 25, 27, 30, 44, 46, 51, 52, 54, 55, 56). Roedd llawer o'r atebion hyn yn dilyn rhestr gwymplen ac yn caniatáu i ymatebwyr nodi esboniad dros ddewis arall. Nid oedd ymatebion testun rhydd yn orfodol, felly roedd yr holl atebion testun rhydd wedi'u hunan-ddewis gan ymatebwyr. Mae'r holl sylwadau testun rhydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Er bod y rhif bôn yn parhau'n gyson (n84) mae'r data testun rhydd wedi'i adrodd ar sail cyfansymiau neu restrau ac nid fel data canrannol.

Nid yw'r sylwadau testun rhydd wedi'u hadrodd yn llawn yn yr adroddiad hwn. Dewiswyd enghreifftiau i dynnu sylw at themâu neu faterion. Mae enwau amgueddfeydd wedi'u tynnu o'r testun rhydd, a nodir hyn gan '[enw]' yn y testun. Mae hyn yn osgoi adnabod amgueddfeydd unigol ac yn atal dyfyniadau gormodol. Roedd tua 22,000 o eiriau wedi'u cynnwys yn yr ymatebion testun rhydd. Mae'r sylwadau testun rhydd wedi'u cofnodi'n llawn yn yr arolwg ac wedi'u cyflenwi i Lywodraeth Cymru fel y gallai eu dadansoddi yn y dyfodol.

### 2.11.1. Maint amgueddfa

Ar gyfer arolwg Sbotolau 2024, cyfrifir maint amgueddfa yn unol ag iteriadau blaenorol, ar sail niferoedd ymwelwyr ar gyfer y 5 mlynedd flaenorol. Yna neilltuwyd categori bach, canolig neu fawr i'r amgueddfa.

Wrth ddehongli datganiadau ystod hanesyddol sy'n ymestyn dros gyfnodau amser hwy na 5 mlynedd roedd hi'n angenrheidiol darparu ar gyfer amgueddfeydd sydd wedi newid maint dros y cyfnod hwy hwn. Ar gyfer arolwg Sbotolau 2022, dyrannwyd maint i amgueddfa gan ddefnyddio ffigur ymwelwyr cyfartalog o'r holl ddata sydd ar gael er 2006.

Ar gyfer adroddiad Sbotolau 2024, adroddwyd ar feintiau amgueddfeydd gyda mwy o bwyslais wrth edrych ar ddata datganiad ystod hanesyddol. Dyrennir maint amgueddfa ar sail data ar gyfer y cyfnod adrodd penodol (e.e. mae ffigur 2006 wedi'i seilio ar ddata ymwelwyr Sbotolau 2006). Mae amgueddfeydd bellach wedi'u nodi yn y categori maint cywir ar gyfer y dyddiad sy'n cael ei adrodd. Er enghraifft, pe bai amgueddfa yn cael ei gategoreiddio yn un bach yn 2006 ond canolig yn 2011 bydd yn cael ei ddyrannu i'r adroddiadau datganiad ystod ar gyfer eu maint cyfartalog cywir ar gyfer pob dyddiad. Mae hyn yn sicrhau bod adroddiad 2024 yn cynnwys data ym mhob datganiad ystod sy'n cydberthyn arfer â maint amgueddfa ar y pwynt amser hwnnw yn hytrach na'i faint cyfartalog yn gweithio yn ôl o'r presennol.

### 2.11.2. Cymhwyster ar gyfer cynnwys (achrediad)

Mae arolygon sbotolau blaenorol wedi casglu data o amrywiaeth o amgueddfeydd, gan gynnwys rhai achrededig a rhai nad ydynt yn achrededig, yn ogystal â rhai sefydliadau nad ydynt yn bodoli mwyach ar ffurf amgueddfa. Er mwyn darparu mesur cyson o newidiadau mewn sgorau datganiad ystod dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, tynnodd y data a gasglwyd yn 2022 yr holl ymatebion nad oeddynt gan amgueddfeydd achrededig (neu'n gweithio tuag at achrediad) o'r wybodaeth waelodlin. Defnyddiwyd y set data gwaelodlin o ddim ond amgueddfeydd achrededig ac yn gweithio tuag at achrediad eu defnyddio trwy gydol y dadansoddiad yn 2024. Mae hyn yn sicrhau bod ymatebion data o'r grŵp o amgueddfeydd sy'n rhan o'r sector amgueddfeydd ar hyn o bryd yn cael eu cymharu dros amser.

## 2.12. Cyfleu'r canfyddiadau: Cyfarfodydd sector wedi'u cynllunio

Mae cyfarfodydd â rhanddeiliaid sector wedi'u cynllunio i ledaenu'r canfyddiadau. Cysylltir â chyrff proffesiynol gan gynnwys y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Gymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru i ledaenu canfyddiadau. Bydd y cyfarfodydd hyn yn adnabod fformatau priodol er mwyn rhannu canfyddiadau a rhannu pwysigrwydd yr arolwg wrth ddatblygu dealltwriaeth o waith cyfredol y sector amgueddfeydd.

## 2.13. Cyfleu'r canfyddiadau: Taflenni data sector terfynol

Diben yr adroddiadau hyn yw cyfleu'r data ynglŷn â'r sector fesul cyfres o themâu sectoraidd a chymdeithasol. Mae prif Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) yn cynnwys ac yn adrodd ar ddata hollbwysig sy'n disgrifio cynnydd a swyddogaethau'r sector amgueddfeydd ac yn ein galluogi i feincnodi a datblygu metrigau cyflawni.

Yn unol â hynny, cafodd pum maes thematig eu dewis i gynnig taflenni data sy'n wynebu'r sector sy'n creu effaith. Roedd y negeseua a'r gwaith o adrodd ar y data yn cynnwys ffeithluniau i gyfleu'r wybodaeth yn fwy helaeth. Cafodd y meysydd a ganlyn eu hadnabod

fel rhai sy'n bodloni'r briff: cryfhau cydlyniant cymdeithasol ar gyfer y dyfodol, hyrwyddo arferion cynhwysol ar gyfer gwydnwch, hyrwyddo cynaliadwyedd ar gyfer ffyniant hirdymor, meithrin cydweithio strategol ar gyfer datblygu a dylanwadu ar gasgliadau ar gyfer cyfoethogi diwylliannol. Cafodd pob maes ei baru â phennawd thema byrrach, gan adlewyrchu Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

- cryfhau cydlyniant cymdeithasol i'r dyfodol (dwyn pobl ynghyd)
- hyrwyddo arferion cynhwysol ar gyfer gwydnwch (cynhwysol, hygyrch ac amrywiol)
- cynaliadwyedd ar gyfer ffyniant hirdymor (gwydnwch a chynaliadwyedd)
- meithrin cydweithio strategol ar gyfer datblygu (gweithlu proffesiynol a medrus)
- dylanwadu ar gasgliadau ar gyfer cyfoethogi diwylliannol (casgliadau sy'n cefnogi dysgu, creadigedd a llesiant)

Mae llawer o feysydd casglu data pwysig eraill wedi'u casglu gan arolwg Sbotolau 2024. Mae'r holl ddata yn cael ei gasglu yn yr adroddiad, ac mae'n parhau'n bosibl i adroddiadau sectoraidd â thema ychwanegol gael eu cynhyrchu.

# 3. Canfyddiadau a dehongliad

## 3.1. Ymatebion

O'r 107 o arolygon a anfonwyd, derbyniwyd 84 o ymatebion yn cynrychioli cyfradd ddychwelyd o 79 y cant. Roedd dosbarthiad y gyfradd ddychwelyd yn amrywio yn ôl ardal ddaearyddol yn ogystal â math o lywodraethu'r amgueddfa.

Cafwyd ymatebion i'r arolwg Sbotolau 2024 gan sawl amgueddfa nad oedd wedi ymateb i arolygon Sbotolau blaenorol. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n bosib i ymchwilwyr ddiweddaru ffigurau ymwelwyr yn achos sawl amgueddfa, gan roi dosbarthiad mwy cynrychiadol.

### Tabl 3.1: Ymatebion i'r arolwg yn ôl sir

| Sir | Nifer yr amgueddfeydd | Ymatebion | Canran |
|---|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 4 | 2 | 50% |
| Gwynedd | 13 | 11 | 85% |
| Conwy | 4 | 4 | 100% |
| Sir Ddinbych | 6 | 5 | 83% |
| Sir y Fflint | 4 | 4 | 100% |
| Wrecsam | 3 | 3 | 100% |
| Powys | 16 | 10 | 63% |
| Ceredigion | 4 | 4 | 100% |
| Sir Benfro | 9 | 7 | 78% |
| Sir Gaerfyrddin | 6 | 6 | 100% |
| Abertawe | 4 | 4 | 100% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 1 | 100% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 0 | 0% |
| Bro Morgannwg | 2 | 1 | 50% |
| Caerdydd | 6 | 5 | 83% |
| Rhondda Cynon Taf | 6 | 5 | 83% |
| Merthyr Tudful | 2 | 2 | 100% |
| Caerffili | 1 | 1 | 100% |
| Blaenau Gwent | 4 | 1 | 25% |
| Torfaen | 3 | 2 | 67% |
| Sir Fynwy | 5 | 4 | 80% |
| Casnewydd | 3 | 2 | 67% |
| **Cyfanswm** | **107** | **84** | **79%** |

Ffynhonnell: Data o restr amgueddfeydd Llywodraeth Cymru, arolwg Sbotolau 2024

Cafwyd cyfradd ymateb gyfartal ar draws y wlad, gyda chyfradd ymateb o 78% ar gyfer amgueddfeydd yng Ngogledd Cymru a chyfradd ymateb o 79% ar gyfer amgueddfeydd yn Ne Cymru.

## Tabl 3.2: Ymatebion i'r arolwg yn ôl math o lywodraethu

| Math [1] | Cyfanswm [2] | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|---|
| Annibynnol | 56 | 40 | 71% |
| Awdurdod Lleol | 31 | 30 | 97% |
| Cenedlaethol | 7 | 7 | 100% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 9 | 4 | 44% |
| Prifysgol | 4 | 3 | 75% |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **107** | **84** | **79%** |

Ffynhonnell: C3, Arolwg Sbotolau 2024

[1] Math o lywodraethu amgueddfa wedi'i gymryd o'r rhestr o amgueddfeydd a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru

[2] Cyfanswm yr amgueddfeydd a gymerwyd o'r rhestr o amgueddfeydd a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru

Roedd y gyfradd ymateb isaf ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (44%), gydag amgueddfeydd annibynnol (71%) a phrifysgol (75%) yn y canol ar dros 70%, ac roedd y gyfradd ymateb uchaf ar gyfer awdurdod lleol (97%) ac Amgueddfeydd cenedlaethol (100%).

Credir bod hyn o ganlyniad i'r dull casglu data yn ystod cyfnod o newid sefydliadol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gallai cyfraddau ymateb uwch gan amgueddfeydd Cenedlaethol ac awdurdod lleol adlewyrchu perthynas agosach gyda chymorth sector amgueddfeydd gan Lywodraeth Cymru.

### 3.2. Nifer yr ymatebion - canlyniadau ar gyfer cymharu

Mae'r patrwm ymateb ar gyfer data 2024 yn gwahaniaethu o'r ymateb data yn 2022 mewn tair prif ffordd. Yn gyntaf, cafwyd nifer fawr o ymatebion yn 2024 (n84) nac yn 2022 (n77). Yn ail, cafwyd dosbarthiad mwy cyfartal o gyfraddau ymateb rhwng gogledd a de Cymru o 60.7% Gogledd / 76.7% De yn 2022 i 78.0% Gogledd / 78.9% De yn 2024. Yn olaf, cafwyd newid yng nghyfraddau dychwelyd yn ôl math o lywodraethu. Rhwng 2022 a 2024 cynyddodd y gyfradd ymateb ar gyfer rhai mathau o lywodraethu fel a ganlyn: cynyddodd ymatebion gan amgueddfeydd annibynnol o 60% i 71%, cynyddodd amgueddfeydd awdurdod lleol o 81% i 97%, amgueddfeydd cenedlaethol o 88% i 100%. I'r gwrthwyneb, gostyngodd ymatebion Ymddiriedolaeth Genedlaethol o 64% i 44% a gostyngodd ymatebion prifysgol o 100% i 75%. Effaith cyfradd ymateb gynyddol yw gwneud y data yn fwy cynrychioladol o'r sector yn enwedig lle caiff ymatebion eu cyflwyno fel canrannau. Lle darperir cyfansymiau rhifiadol eu gwneud o adio'r holl ymatebion bydd y nifer cynyddol o ymatebion yn ffactor yn y gwahaniaethau mewn data o adroddiadau blaenorol. Er enghraifft, disgwylir i gyfanswm nifer yr ymwelwyr a gafodd eu cofnodi gynyddu gyda chyfradd ymateb mwy. Ar gyfer ychydig o ddadansoddiad, bydd y newid mewn cydbwysedd a gynrychiolir gan ymatebion cynyddol gan amgueddfeydd annibynnol a llai gan yr Ymddiriedolaeth

Genedlaethol yn cael effaith ar ddibynadwyedd y cymharu rhwng ffigurau 2022 a 2024. Cynghorir bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng y setiau data.

### Tabl 3.3: Ymatebion i'r arolwg yn ôl maint yr amgueddfa

| Maint [1] | Nifer Ymatebion |
|---|---|
| Mawr | 16 |
| Canolig | 24 |
| Bach | 44 |
| **Cyfanswm** | **84** |

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2024, C6

[1] Mae'r categorïau hyn wedi'u seilio ar ffigurau ymwelwyr blynyddol cyfartalog o ddata rhwng 2020 a 2024. Bach <10,000 o ymwelwyr blynyddol, Canolig 10,000 i 50,000 o ymwelwyr blynyddol, Mawr >50,000 o ymwelwyr blynyddol.

### Tabl 3.4: Ymatebion i'r arolwg yn ôl ardal ddaearyddol a math o lywodraethu

| Math [1] | Cyfanswm gogledd Cymru | Ymatebion | Y cant | Cyfanswm de Cymru | Ymatebion | Y cant |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 29 | 22 | 76% | 27 | 18 | 67% |
| Awdurdod Lleol | 13 | 13 | 100% | 18 | 17 | 94% |
| Cenedlaethol | 1 | 1 | 100% | 6 | 6 | 100% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 6 | 2 | 33% | 3 | 2 | 67% |
| Prifysgol | 1 | 1 | 100% | 3 | 2 | 67% |
| **Cyfanswm** | **50** | **39** | **78%** | **57** | **45** | **79%** |

Ffynhonnell: arolwg Sbotolau 2024

[1] Math o lywodraethu amgueddfa wedi'i gymryd o'r rhestr o amgueddfeydd a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru

## 3.3. Ymwelwyr ag Amgueddfeydd

### Tabl 3.5: Patrwm agor normal amgueddfeydd sy'n ymateb i arolwg[1]

| Patrwm agor | Nifer yr amgueddfeydd | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ar agor drwy'r flwyddyn | 53 | 63% |
| Ar agor am ran o'r flwyddyn - cyfnod cau tymhorol rheolaidd | 29 | 35% |
| Ar agor drwy apwyntiad yn unig - drwy gydol y flwyddyn | 1 | 1% |
| Ar agor drwy apwyntiad yn unig - rhan o'r flwyddyn | 1 | 1% |

Ffynhonnell: C4 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Sut fyddech chi'n dosbarthu patrwm gweithredu normal eich amgueddfa?'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis un o'r opsiynau a restrwyd yn y tabl.

Cyfran yr ymatebwyr sy'n agor trwy gydol y flwyddyn yw 63% gyda 35% yn agor am ran o'r flwyddyn. Cynhaliwyd arolwg Sbotolau 2024 ym mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst pan fydd amgueddfeydd sydd ar agor yn dymhorol ar agor ar y cyfan.

### Tabl 3.6: Patrwm agor normal yn ôl math o lywodraethu [1]

Nifer

| Math | Flwyddyn Gyfan | Rhan o'r Flwyddyn | Apwyntiad yn unig | Apwyntiad yn unig (Rhan o'r flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 20 | 19 | 0 | 1 |
| Awdurdod Lleol | 22 | 8 | 0 | 0 |
| Cenedlaethol | 7 | 0 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 2 | 2 | 0 | 0 |
| Prifysgol | 2 | 0 | 1 | 0 |

Ffynhonnell: C4 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Sut fyddech chi'n dosbarthu patrwm gweithredu normal eich amgueddfa?'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis un o'r opsiynau a restrwyd yn y tabl.

### Tabl 3.7: Tarfu ar batrymau agor yn ystod 2024 yn ôl math o lywodraethu [1]

Nifer

| Math | Ni tharfwyd ar batrwm agor | Tarfwyd ar batrwm agor |
|---|---|---|
| Annibynnol | 29 | 11 |
| Awdurdod Lleol | 20 | 10 |
| Cenedlaethol | 6 | 1 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 4 | 0 |
| Prifysgol | 3 | 0 |

Ffynhonnell: C5 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A yw'ch patrymau gweithredu normal wedi'u tarfu eleni (er enghraifft oherwydd ailddatblygu)?'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 'Do' neu 'Naddo'.

Bu lefel fesuradwy o darfu i wasanaethau, gydag un chwarter (26%) o amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg yn adrodd ar darfu i batrymau agor yn ystod 2024.

## Tabl 3.8: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol), gwirioneddol ac amcangyfrifedig, yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1]

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math** | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Gwirioneddol | Amcangyfrif |
| Annibynnol | 99,252 | 47,872 | 207,822 | 95,113 | 343,341 | 247,590 | 366,575 | 272,607 | 379,944 | 266,780 |
| Awdurdod Lleol | 183,788 | 21,621 | 345,077 | 28,525 | 685,952 | 77,371 | 1,037,702 | 68,053 | 1,016,816 | 96,569 |
| Cenedlaethol | 349,214 | 0 | 516,654 | 0 | 1,181,207 | 0 | 1,327,922 | 0 | 1,478,347 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 102,688 | 0 | 305,386 | 0 | 462,649 | 0 | 457,550 | 0 | 442,922 | 0 |
| Prifysgol | 4,289 | 3,531 | 3,646 | 20,000 | 19,795 | 0 | 26,374 | 32,685 | 25,910 | 36,516 |

Ffynhonnell: C6 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Rhowch eich ffigurau ymwelwyr blynyddol ar gyfer y blynyddoedd calendr a ganlyn'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi 'Amcangyfrif' a 'Gwirioneddol' ar gyfer bob ffigur.

Mae'r tabl yn dangos bod y data amcangyfrifedig yn isel. Yn 2024 mae'r data amcangyfrifedig yn cyfrannu llai na 11% o gyfanswm y ffigur.

## Tabl 3.9: Cyfanswm ffigurau ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1]

| Math | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 147,124 | 302,935 | 590,931 | 639,182 | 646,724 |
| Awdurdod Lleol | 205,409 | 373,602 | 763,323 | 1,105,755 | 1,113,385 |
| Cenedlaethol | 349,214 | 516,654 | 1,181,207 | 1,327,922 | 1,478,347 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 102,688 | 305,386 | 462,649 | 457,550 | 442,922 |
| Prifysgol | 7,820 | 23,646 | 19,795 | 59,059 | 62,426 |
| **Cyfanswm [2]** | **812,255** | **1,522,223** | **3,017,905** | **3,589,468** | **3,743,804** |

Ffynhonnell: C6 Arolwg Sbotolau 2024


[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Rhowch eich ffigurau ymwelwyr blynyddol ar gyfer y blynyddoedd calendr a ganlyn'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi 'Amcangyfrif' a 'Gwirioneddol' ar gyfer bob ffigur.

[2] Mae cyfanswm ffigur blynyddol yn cyfuno niferoedd gwirioneddol ac amcangyfrifedig.

Adroddodd ymatebwyr 3,743,804 o ymwelwyr yn 2024, cynnydd o 4.3 y cant o 2023. Fe wnaeth pob math o lywodraethu adrodd ar gynnydd mewn ffigurau ymwelwyr rhwng 2023 a 2024 ac eithrio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd ffigur yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer 2024 yn is na'r un ar gyfer 2023 a 2022. Mae'r gostyngiad hwn yng

nghyfanswm ffigurau ymwelwyr ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn debyg o fod wedi'i effeithio gan y nifer ostyngol o ymatebion yn y math o lywodraethu hwn.

### Ffigur 3.1: Cyfanswm yr ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn




Disgrifiad o Ffigur 3.1: Graff colofn clystyrog yn dangos cynnydd yng nghyfanswm y ffigurau ymwelwyr blynyddol ar draws pob math o amgueddfa rhwng 2020 a 2024.

Ffynhonnell: C6 Arolwg Sbotolau 2024

### Tabl 3.10: Adferiad ffigur ymwelwyr blynyddol (corfforol) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1]

Canran

| Math | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 18% | 45% | 70% | 77% | 80% |
| Awdurdod Lleol | 18% | 33% | 70% | 101% | 101% |
| Cenedlaethol | 18% | 27% | 61% | 68% | 76% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 10% | 76% | 103% | 95% | 76% |
| Prifysgol | 15% | 47% | 39% | 117% | 123% |
| **Cyfanswm [2]** | **18%** | **33%** | **66%** | **80%** | **84%** |

Ffynhonnell: Arolwg Sbotolau 2022 ac arolwg Sbotolau 2024 (n65)

[1] At ddibenion cymharu yn unig, dim ond yr ymatebwyr hynny a atebodd yn 2022 a 2024 sydd wedi'u defnyddio. Mae hyn yn gostwng nifer sylfaen yr ymatebwyr ar gyfer y tabl hwn i 65 o amgueddfeydd. Defnyddir cyfanswm ffigurau ymwelwyr corfforol ar gyfer 2019 o Sbotolau 2022 (C6) fel gwaelodlin 100% ac mae ffigurau ymwelwyr rhwng 2020 i 2024 yn defnyddio data o Sbotolau 2024 (C6). Mae'r ffigur ymwelwyr blynyddol yn cyfuno niferoedd gwirioneddol ac amcangyfrifedig.

[2] Mae cyfanswm y ffigur ar gyfer pob math o amgueddfeydd wedi'u cyfuno.

Yn 2024 adrodda amgueddfeydd prifysgol ac amgueddfeydd awdurdod lleol ffigurau ymwelwyr sy'n rhagori ar waelodlin cyn Covid 2019.

Mae amgueddfeydd cenedlaethol (76%) ac amgueddfeydd annibynnol (80%) yn dangos cynnydd yn adferiad blwyddyn ar flwyddyn yn erbyn gwaelodlin 2019 rhwng 2021 a 2024.

Mae ymatebwyr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn adrodd ar anterth mewn adferiad i 103% yn 2022 ond cwymp i 76% yn 2024. Gallai hyn adlewyrchu poblogrwydd ofodau agored yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn y cyfnod cynnar ar ôl Covid.

Dangosodd Ffigurau Ymwelwyr 2024 ALVA bod atyniadau mawr (dros 100,000 o ymwelwyr y flwyddyn) wedi profi cynnydd cyffredinol o 3.4% ar ymwelwyr 2023 ond wedi parhau 8.8% i lawr ar ymwelwyr cyn pandemig Covid-19 yn 2019.

## Tabl 3.11: Ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein), gwirioneddol ac amcangyfrifedig yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1]

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math** | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Gwirioneddol | Amcangyfrif |
| Annibynnol | 303,000 | 233,150 | 629,853 | 173,650 | 639,020 | 180,315 | 851,889 | 205,526 | 1,448,496 | 219,657 |
| Awdurdod Lleol | 253,816 | 355,092 | 219,186 | 393,092 | 236,247 | 325,342 | 532,416 | 326,930 | 1,063,322 | 356,328 |
| Cenedlaethol | 1,746,450 | 0 | 3,058,014 | 0 | 3,514,669 | 0 | 2,569,836 | 0 | 2,421,104 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 130,713 | 0 | 265,689 | 0 | 224,063 | 0 | 251,973 | 0 | 234,137 | 0 |
| Prifysgol | 44,585 | 19,000 | 154,820 | 19,500 | 121,740 | 0 | 224,286 | 22,000 | 1,102,288 | 22,000 |

Ffynhonnell: C6 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Rhowch eich ffigurau ymwelwyr blynyddol ar gyfer y blynyddoedd calendr a ganlyn'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi 'Amcangyfrif' a 'Gwirioneddol' ar gyfer bob ffigur. Mae hyn yn cynnwys rhyngweithiadau ar draws yr holl ffurfiau o ddarpariaeth ar-lein / y cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaeth un allanolyn o 38,000 rhyngweithiad y mis gan amgueddfa fechan ei addasu i fesul blwyddyn gan y credir ei fod yn wall wrth nodi data / dehongli.

Mae ffigurau ymwelwyr ar-lein yn cynnwys cyfran uwch o ddata amcangyfrifedig nag ar gyfer ymwelwyr mewn person. Gallai amgueddfeydd yn gyffredinol wynebu mwy o her wrth gipio data monitro go iawn o ymgysylltiad ar-lein, o ystyried yr ystod eang o weithgareddau y gallai hyn ei gynnwys. Rhoddwyd arweiniad i ymatebwyr y gallai ffigurau ymwelwyr ar-lein gynnwys gweithgaredd ar draws yr holl ffurfiau o ryngweithio a darpariaeth ar-lein. Ar hyn o bryd, nid oes yr un dull safonol mewn amgueddfeydd Cymru o gipio rhyngweithiadau ar-lein, felly dylid dehongli'r ffigurau hyn â gofal. Roedd ymatebion o amgueddfeydd cenedlaethol yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol, sy'n awgrymu bod gan y sefydliadau mwy seilwaith TG gwell i gasglu'r data hyn yn fanwl gywir.

## Tabl 3.12: Cyfanswm ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn [1]


| Math o lywodraethu | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 536,150 | 803,503 | 819,335 | 1,057,415 | 1,668,153 |
| Awdurdod Lleol | 608,908 | 612,278 | 561,589 | 859,346 | 1,419,650 |
| Cenedlaethol | 1,746,450 | 3,058,014 | 3,514,669 | 2,569,836 | 2,421,104 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 130,713 | 265,689 | 224,063 | 251,973 | 234,137 |
| Prifysgol | 63,585 | 174,320 | 121,740 | 246,286 | 1,124,288 |
| **Cyfanswm** | **3,085,806** | **4,913,804** | **5,241,396** | **4,984,856** | **6,867,332** |

Ffynhonnell: C6 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Rhowch eich ffigurau ymwelwyr blynyddol ar gyfer y blynyddoedd calendr a ganlyn'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi 'Amcangyfrif' a 'Gwirioneddol' ar gyfer bob ffigur.

[2] Mae cyfanswm ffigur blynyddol yn cyfuno niferoedd gwirioneddol ac amcangyfrifedig. Mae hyn yn cynnwys rhyngweithiadau ar draws yr holl ffurfiau o ddarpariaeth ar-lein / y cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaeth un allanolyn o 38,000 rhyngweithiad y mis gan amgueddfa fechan ei addasu i fesul blwyddyn gan y credir ei fod yn wall wrth nodi data / dehongli.

## Ffigur 3.2: Cyfanswm ffigurau ymwelwyr blynyddol (ar-lein) yn ôl math o lywodraethu a blwyddyn




Disgrifiad o Ffigur 3.2: Graff colofn clystyrog yn dangos y newid yn ffigurau ymwelwyr ar-lein rhwng 2020 a 2024. Mae'r rhan fwyaf o fathau o amgueddfeydd wedi gweld ffigurau yn cynyddu yn ystod y cyfnod hwn, ond mae'r amgueddfa Genedlaethol wedi gweld ffigurau yn codi i 2022 ac yn gostwng ers hynny.


Ffynhonnell: C6 Arolwg Sbotolau 2024

Yn 2024 cafwyd 6,867,332 o ryngweithiadau ar-lein eu hadrodd gan ymatebwyr. Cynyddodd ymwelwyr ar-lein blwyddyn ar ôl blwyddyn rhwng 2020 a 2024 ac eithrio ar gyfer 2023. Y ffigur 2024 yw'r uchaf yn y cyfnod adrodd hwn o 5 mlynedd.

Mae'r patrwm ar gyfer rhyngweithiadau ar-lein blynyddol yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau llywodraethu amgueddfa. Mae amgueddfeydd annibynnol, awdurdod lleol a phrifysgol yn adrodd cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn o 2022 i 2024. Rhwng 2023 a 2024 cynyddodd amgueddfeydd annibynnol eu rhyngweithiadau ar-lein gan 57.8%, amgueddfeydd awdurdod lleol gan 65.2% ac amgueddfeydd prifysgol gan 45.6%. Adroddodd amgueddfeydd cenedlaethol gwymp o 6% rhwng 2023 a 2024 sy'n parhau â thuedd o 2022 a 2023, ac adroddodd ymatebwyr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gwymp o 7.6%.

Dengys y data yn 2022 bod ymweliadau ar-lein i amgueddfeydd cenedlaethol yn gwneud 67% o'r cyfanswm. Erbyn 2024 mae amgueddfeydd cenedlaethol yn cyfrannu 35% o'r cyfanswm. Mae hyn yn cynrychioli darlun cymhleth o'r rhan fwyaf o fathau llywodraethu yn cynyddu eu hymwelwyr ar-lein yn enwedig amgueddfeydd prifysgol, annibynnol ac awdurdod lleol. Awgryma'r data er bod yr amgueddfa genedlaethol wedi arwain ar y cynnig ar-lein hwn mae mathau llywodraethu eraill ar amgueddfeydd yn datblygu eu cynnig. Mae amgueddfeydd Cymru yn cynyddu ac yn amrywio eu cynnig ar-lein i ymwelwyr.


### Ffigur 3.3: Newid datganiad ystod datblygu cynulleidfa a marchnata strategol o 2006 i 2024 yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad Ffigur 3.3: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.1

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C7 arolwg Sbotolau 2024

### Ffigur 3.4: Newid datganiad ystod datblygu cynulleidfa a marchnata strategol o 2006 i 2024 yn ôl maint amgueddfa




Disgrifiad o Ffigur 3.4: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.2

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C7 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu data ynglŷn â pherfformiad ar draws ystod o ddangosyddion marchnata a chyfathrebu. Byddai sgôr o 3 yn dynodi bod yr amgueddfa yn cynnal rhywfaint o waith ymgynghori â defnyddwyr ac ymchwil marchnad sy'n arwain at hyrwyddiadau sydd wedi'u cynllunio. Mae sgorau uwch yn dynodi eu bod yn cynnal arolygon, yn gwerthuso ac yn ymgysylltu â'r gynulleidfa darged yn fwy rheolaidd.

Eiddo amgueddfeydd cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd â'r lefel uchaf o arfer wrth ddatblygu cynulleidfa a marchnata strategol ac mae'r duedd gyffredinol ar gyfer y datganiad ystod hwn ar gyfer amgueddfeydd yn yr arolwg ar i fyny ar gyfer pob math o lywodraethu ac eithrio annibynnol sy'n dangos canlyniadau cyson o 2022. Mae capasiti amgueddfeydd i gynnal ymchwil y farchnad y tu hwnt i lefel sylfaenol (sy'n ofynnol ar gyfer sgôr uwchlaw 4) dim ond yn cael ei adrodd gydag amgueddfeydd cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r ymatebion i C8 sy'n dangos bod 100% o ymatebwyr cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi adrodd cynnal ymchwil cynulleidfa ffurfiol. Mae'r ymateb ar ymchwil cynulleidfa ffurfiol ar 33% ar gyfer amgueddfeydd prifysgol, 40% ar gyfer rhai annibynnol a 47% ar gyfer amgueddfeydd awdurdod lleol. Mae'r ymatebion i fathau o ymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd yn dangos bod safleoedd cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnal yr ystod ehangaf o opsiynau.

## Tabl 3.13: Nifer yr amgueddfeydd sydd wedi cynnal ymchwil cynulleidfa[1]

| Math o lywodraethu | Nifer | Canran[2] |
|---|---|---|
| Annibynnol | 16 | 40% |
| Awdurdod Lleol | 14 | 47% |
| Cenedlaethol | 7 | 100% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 4 | 100% |
| Prifysgol | 1 | 33% |
| **Cyfanswm** | **42** | **50%** |

Ffynhonnell: C8 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A ydych chi wedi cynnal unrhyw ymchwil cynulleidfa/ymwelwyr ffurfiol i bennu demograffeg eich ymwelwyr amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?'.

[2] Cyfeiria'r ffigur canran at ganran y math hwnnw o sefydliad sydd wedi cynnal ymchwil.

## Tabl 3.14: Mathau o ymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan amgueddfeydd[1]

Nifer yr amgueddfeydd

| Math o lywodraethu | Ymchwil Cynradd | Ymchwil Eilaidd | Ymchwil Meintiol | Ymchwil Ansoddol | Segmentiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 12 | 3 | 4 | 2 | 4 |
| Awdurdod Lleol | 13 | 7 | 11 | 6 | 6 |
| Cenedlaethol | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Prifysgol | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **37** | **21** | **27** | **20** | **21** |

Ffynhonnell: C8a Arolwg Sbotolau 2024

[1] Lle mae ymatebwyr wedi nodi eu bod wedi cynnal ymchwil ffurfiol gofynnwyd cwestiwn dilynol iddynt sef 'Pa un o'r isod ydych chi wedi'i gynnal'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pob un oedd yn berthnasol.

Ymchwil cynradd: megis arolwg ymwelwyr

Ymchwil eilaidd: defnyddio ymchwil sydd eisoes yn bodoli

Ymchwil meintiol: mesuriadau megis roedd 33% o'n defnyddwyr mewn grwpiau teuluol

Ymchwil ansoddol: cwestiynau a themâu ehangach

Segmentiad: deall eich ymwelwyr fel grwpiau

### 3.4. Trosolwg ariannol

## Tabl 3.15: Cyllidebau gweithredu cyfartalog blynyddol amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu[1]

| | 2019 i 20 | 2020 i 21 | 2021 i 22 | 2022 i 23 | 2023 i 24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | £67,519 | £55,133 | £76,413 | £98,486 | £109,485 |
| Awdurdod Lleol | £235,814 | £252,117 | £264,761 | £236,513 | £420,938 |
| Cenedlaethol | £3,618,294 | £3,744,366 | £4,070,781 | £4,437,116 | £4,925,606 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | £150,353 | £69,206 | -£267,396 | -£107,073 | -£237,849 |
| Prifysgol | £38,155 | £46,339 | £43,395 | £35,336 | £34,738 |

Ffynhonnell: C21 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Rhowch eich ffigurau cyllideb gweithredu safonol'. Mae rhai arolygon wedi cynnwys ffigurau negyddol neu '0' ar gyfer cyllidebau gweithredu, ond mae'r rhain wedi'u cynnwys gan nad yw'r sefyllfa wirioneddol yn glir. Mae'r adroddiad uchod yn cynnwys ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig wedi'u cyfuno.

## Tabl 3.16: Cyllidebau gweithredu cyfartalog blynyddol amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu (Ffigurau gwirioneddol yn unig)

| | 2019 i 20 | 2020 i 21 | 2021 i 22 | 2022 i 23 | 2023 i 24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | £59,051 | £66,019 | £67,756 | £72,971 | £77,293 |
| Awdurdod Lleol | £267,598 | £296,902 | £310,912 | £301,583 | £316,561 |
| Cenedlaethol | £3,618,294 | £3,744,366 | £4,070,781 | £4,437,116 | £4,925,606 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | £150,353 | £69,206 | -£267,396 | -£107,073 | -£237,849 |
| Prifysgol | £57,233 | £69,508 | £65,093 | £15,217 | £52,108 |

Ffynhonnell: C21 Arolwg Sbotolau 2024

## Tabl 3.17: Cyllidebau gweithredu cyfartalog blynyddol amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu (Ffigurau amcangyfrif yn unig)

| | 2019 i 20 | 2020 i 21 | 2021 i 22 | 2022 i 23 | 2023 i 24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | £82,036 | £33,362 | £93,727 | £144,049 | £173,868 |
| Awdurdod Lleol | £188,138 | £184,939 | £185,047 | £84,683 | £664,486 |
| Prifysgol | £0 | £0 | £0 | £45,396 | £0 |

Ffynhonnell: C21 Arolwg Sbotolau 2024

Mae gwybodaeth ariannol gyson yn anodd ei chasglu ar draws amrywiaeth wahanol o amgueddfeydd, sydd yn aml â dulliau gwahanol o gadw cyfrifon a gwahanol flynyddoedd ariannol. Dylid darllen y wybodaeth ariannol mewn modd mynegol. Mae'r atebion yn dueddol o fod yn debyg o un flwyddyn i'r llall, felly er nad yw'r cyfansymiau'n union gywir, mae'n debygol bod y tueddiadau'n hysbysol. Rhoddir gwybodaeth am gyllidebau ar ffurf niferoedd cyfartalog gan fod sawl amgueddfa'n gweithredu cyllidebau canolog, sy'n

cwmpasu sawl safle. Gallai rhai elfennau o'r cyllidebau weithredu'n ganolog, ond gallai elfennau eraill gael eu trosglwyddo i safleoedd unigol.

Dangosir y data yn ôl math o lywodraethu gyda chyfartaledd o ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig wedi'u cyfuno (Tabl 3.15), cyfartaledd o ffigurau gwirioneddol (Tabl 3.16) gyda chyfartaledd o ffigurau amcangyfrifedig (Tabl 3.17) i roi dealltwriaeth sy'n newid pwyslais. Darparodd amgueddfeydd Cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol ymatebion heb ffigurau amcangyfrifedig.

Mae cyllidebau gweithredu cyfartalog amgueddfeydd blynyddol gwirioneddol yn dangos cynnydd gwylaidd o 2022/23 i 2023/24 ar gyfer amgueddfeydd annibynnol (5.9%) ac awdurdodau lleol (5%). Mae amgueddfeydd cenedlaethol yn adrodd cynnydd o 11%. O ystyried cyfartaleddau amcangyfrifedig a gwirioneddol wedi'u cyfuno yn Nhabl 3.15, mae cynnydd hefyd o 2022/23 ar gyfer amgueddfeydd annibynnol, awdurdod lleol a chenedlaethol. Mae cyllidebau gweithredu amgueddfeydd prifysgol wedi cwympo rhwng 2021/22 a 2023/24.

Mynegir cyllidebau gweithredu Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel ffigurau negyddol o 2021/22 ymlaen. Mae gan eiddo Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyllidebau sy'n cynnwys costau gweithredu lleol a chyfraniadau a buddion gan y sefydliad cenedlaethol. Nid yw system o'r fath wedi'i chasglu'n glir gan gwestiynau'r arolwg.

## 3.5. Effaith economaidd

Ymatebodd chwe amgueddfa i ddweud eu bod wedi defnyddio pecyn cymorth effaith economaidd Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol (AIM), gyda chyfanswm effaith economaidd o £8,834,000.

Amlinella becyn cymorth effaith economaidd AIM ddull syml o helpu amgueddfeydd i amcangyfrif eu heffaith economaidd yn eu heconomi leol. Cynhyrchwyd y pecyn cymorth yn wreiddiol gan AIM yn 2010 a'i ddiwygio yn 2014. Lansiwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru yn 2024 gyda metrig gwariant twristiaeth wedi'i ddiweddaru ond yn cynnal yr un dull cyffredinol. Mae'r pecyn cymorth yn rhoi fformiwlâu ymwelwyr, fformiwla nwyddau a gwariant a fformiwla cyflogaeth. Mae'n helpu amgueddfeydd i fynegi effaith yr ymweliadau â'u hamgueddfeydd yn nhermau gwerth economaidd.

## Tabl 3.18: Newid mewn cefnogaeth Awdurdod Lleol yn ôl math o lywodraethu [1]

Nifer yr amgueddfeydd

| Math | Wedi codi | Wedi disgyn | Aros yr un peth | Dd/B (Dim Cymorth gan yr ALI) |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 3 | 4 | 26 | 7 |
| Awdurdod Lleol | 11 | 10 | 9 | 0 |
| Cenedlaethol | 0 | 7 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Prifysgol | 0 | 0 | 0 | 3 |

Ffynhonnell: C26 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Ers arolwg Sbotolau 2022, mae'r Awdurdod Lleol wedi...' a gofynnwyd iddynt ddewis un o'r opsiynau a restrir yn y tabl.

## Tabl 3.19: Ffurfiau cefnogaeth Awdurdod Lleol yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer yr amgueddfeydd

| | Cyllid refeniw rheolaidd | Rhyddhad ardrethi | Mentor Amgueddfa | Meddiannu'r adeilad am ddim / cost isel | Costau cynnal a chadw'r adeilad | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 6 | 18 | 7 | 12 | 4 | 5 |
| Awdurdod Lleol | 25 | 0 | 0 | 4 | 16 | 8 |
| Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prifysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **31** | **20** | **7** | **16** | **20** | **20** |

Ffynhonnell: C27 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Os nad yw'r amgueddfa yn derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod Lleol, ar ba ffurf/ffurfiau oedd hyn?'. Gofynnwyd i ymatebwyr rhoi tic wrth bob un sy'n berthnasol o'r opsiynau a restrir yn y tabl.

Derbyniodd wythdeg chwech y cant (n72) o ymatebwyr i Sbotolau 2024 gefnogaeth gan eu hawdurdod lleol. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys amgueddfeydd a weithredir fel gwasanaeth awdurdod lleol. O'r rheini sy'n derbyn cefnogaeth, adroddodd 51% bod lefelau cefnogaeth wedi aros yr un peth ers i arolwg Sbotolau 2022 gael ei gwblhau, dywedodd 29% ei fod wedi disgyn a 19% wedi adrodd cynnydd mewn cefnogaeth. Adroddodd chwe amgueddfa annibynnol eu bod yn derbyn cyllid refeniw rheolaidd gan eu hawdurdod lleol. Ar gyfer amgueddfeydd nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan yr awdurdod lleol y prif ffurfiau

cefnogaeth yw rhyddhad cyfraddau busnes, costau cynnal a chadw adeiladau a meddiannaeth adeilad am ddim neu gost isel.

Dengys y data hwn bod tua dwy ran o dair o amgueddfeydd nad ydynt yn awdurdod lleol yng Nghymru yn derbyn rhyw fath o gefnogaeth ariannol gan eu hawdurdod lleol.

### Tabl 3.20: Amgueddfeydd yn codi tâl mynediad yn ôl math o lywodraethu[1]

Y cant o gyfanswm[2]

| Math | Ydy | Nac oes | Weithiau / Yn Dymhorol |
|---|---|---|---|
| Annibynnol | 18% | 29% | 1% |
| Awdurdod Lleol | 11% | 24% | 1% |
| Cenedlaethol | 0% | 8% | 0% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 5% | 0% | 0% |
| Prifysgol | 0% | 4% | 0% |
| **Cyfanswm** | **34%** | **65%** | **2%** |

Ffynhonnell: C19 arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A yw'ch amgueddfa fel arfer yn codi tâl mynediad'.

[2] Efallai na fydd y canrannau yn gwneud cyfanswm o 100 oherwydd talgrynnu.

Adrodda trideg pedwar y cant o ymatebwyr Sbotolau 2024 eu bod yn codi tâl mynediad tra nad yw 65% yn codi tâl.

Adroddodd ymchwil gan Gymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol ym mis Rhagfyr 2023 i 'Bolisi Prisiau Mynediad mewn Amgueddfeydd a'i Effaith' bod 58% o amgueddfeydd yng Nghymru yn codi tâl mynediad. Seiliwyd yr adroddiad hwn ar sampl o 36 amgueddfa. Disgrifia AIM eu hadroddiad yn 'fwy cynrychioladol o amgueddfeydd annibynnol na rhannau eraill o'r sector amgueddfeydd'.

## Tabl 3.21: Amgueddfeydd yn codi tâl am arddangosfeydd neu wasanaethau yn ôl math o lywodraethu[1]

| Math | Nac oes | Arddangosfeydd dros dro / arbennig | Digwyddiadau | Ymweliadau addysgol ffurfiol | Trafodaethau | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 17 | 0 | 13 | 10 | 14 | 8 |
| Awdurdod Lleol | 6 | 2 | 19 | 20 | 14 | 12 |
| Cenedlaethol | 0 | 7 | 7 | 0 | 7 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 1 | 1 | 3 | 2 | 2 | 1 |
| Prifysgol | 1 | 0 | 2 | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **25** | **10** | **44** | **33** | **38** | **23** |

Ffynhonnell: C20 arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Y tu hwnt i dâl mynediad, a yw'ch amgueddfa yn codi tâl am unrhyw arddangosfeydd neu wasanaethau?' a gofynnwyd iddynt ddewis bob un sy'n berthnasol o'r opsiynau a restrir yn y tabl.

Adroddodd saith deg y cant o amgueddfeydd (n59) yn yr arolwg eu bod yn codi tâl am arddangosfeydd neu wasanaethau penodol y tu hwnt i dâl mynediad. Y gwasanaethau mwyaf cyffredinol y codwyd tâl amdanynt yw sgyrsiau, digwyddiadau ac ymweliadau addysg ffurfiol. Cynigiwyd enghreifftiau eraill o wasanaethau y codwyd tâl amdanynt trwy opsiwn testun rhydd. Ymhlith yr enghreifftiau cyffredinol oedd llogi lleoliad a safle, priodasau, ffilmio, ymchwil, gweithdai celf a chrefft a theithiau arbenigol. Er bod meysydd ariannu cyffredinol mae mentrau codi arian lleol sydd wedi'u teilwra i gyfleoedd lleol yr amgueddfa megis teithiau trên, ymweliadau chwarel a loceri i adael bagiau. Mae arbenigedd staff hefyd yn cael ei harneisio ar gyfer cynhyrchu incwm megis dosbarthiadau meistr celf a chreu torchau.

Mae ystod eang o wasanaethau lle gall amgueddfeydd ennill incwm. Mae amgueddfeydd o bob math o lywodraethu a'r rheini sy'n codi tâl ac nad ydynt yn codi tâl am fynediad, wedi datblygu ystod o ffrydiau incwm ychwanegol y tu hwnt i ymweliad amgueddfa craidd.

## Tabl 3.22: Dadansoddiad o incwm a gwariant ar gyfer 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1]

| | Annibynnol | Awdurdod Lleol | Cenedlaethol | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Prifysgol | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm (heb gynnwys ariannu cyfalaf) | £4,210,839 | £9,856,461 | £38,527,766 | £2,841,482 | £129,159 | £55,565,707 |
| Gwariant (gan gynnwys costau staff ond nid ariannu cyfalaf) | £4,599,669 | £17,502,330 | £38,213,048 | £3,907,285 | £406,987 | £64,629,319 |
| Costau staff | £1,993,791 | £7,154,254 | £29,504,754 | £2,603,025 | £371,939 | £41,627,763 |
| Incwm mynediad | £418,626 | £2,969,633 | £0 | £464,506 | £0 | £3,852,765 |
| Incwm arall a enillir | £1,584,880 | £2,326,750 | £2,183,970 | £541,424 | £43,787 | £6,680,811 |
| Cyllid cyhoeddus / grant | £889,809 | £11,196,282 | £33,725,000 | £0 | £68,872 | £45,879,964 |
| Incwm rhoddion | £299,604 | £36,633 | £12,158,893 | £78,499 | £1,889 | £12,575,518 |
| Incwm arall sydd wedi'i gyfrannu | £303,476 | £145,696 | £0 | £1,186,328 | £0 | £1,635,500 |
| Grant refeniw / incwm prosiect | £316,445 | £1,148,482 | £0 | £35,405 | £0 | £1,500,332 |
| Grant cyfalaf / incwm prosiect | £824,898 | £1,028,238 | £7,627,000 | £0 | £300,000 | £9,780,135 |

Ffynhonnell: C23 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Rhowch gyfansymiau blynyddol ar gyfer y wybodaeth a ganlyn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 i 2024. Mae'r adroddiad uchod yn cynnwys ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig wedi'u cyfuno.

Ac eithrio cyllid cyfalaf yn 2023/24, adroddodd amgueddfeydd a ymatebodd gyfanswm o £55,565,707 o incwm a £64,629,319 o wariant.

Yn y flwyddyn ariannol 2023/24 denodd amgueddfeydd yng Nghymru incwm prosiect grant cyfalaf o £9,780,135. Roedd amgueddfeydd cenedlaethol i gyfrif am 78% o hyn gyda 10.5% wedi'i sicrhau gan amgueddfeydd awdurdod lleol, 8.4% gan amgueddfeydd annibynnol a 3.1% gan amgueddfeydd prifysgol.

Yn 2023/24 derbyniodd amgueddfeydd awdurdod lleol £11,196,282 mewn cyllid cyhoeddus gan gynhyrchu £5,333,016 mewn incwm a enillir yn cynnwys £2,969,633 o fynediad, £2,326,750 o incwm arall a enillir a £36,633 mewn rhoddion.

## Tabl 3.23: Dadansoddiad o incwm a gwariant cyfartalog ar gyfer 2023/24 yn ôl math o lywodraethu (ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig)[1]

| | Annibynnol | Awdurdod Lleol | Cenedlaethol | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Prifysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm (heb gynnwys ariannu cyfalaf) | £105,271 | £328,549 | £5,503,967 | £710,371 | £43,053 |
| Gwariant (gan gynnwys costau staff ond nid ariannu cyfalaf) | £117,940 | £583,411 | £5,459,007 | £976,821 | £135,662 |
| Costau staff | £51,123 | £238,475 | £4,214,965 | £650,756 | £123,980 |
| Incwm mynediad | £10,734 | £98,988 | £0 | £116,127 | £0 |
| Incwm arall a enillir | £39,622 | £77,558 | £311,996 | £135,356 | £14,596 |
| Cyllid cyhoeddus / grant | £22,245 | £373,209 | £4,817,857 | £0 | £22,957 |
| Incwm rhoddion | £7,490 | £1,221 | £1,736,985 | £19,625 | £630 |
| Incwm arall sydd wedi'i gyfrannu | £7,781 | £5,024 | £0 | £296,582 | £0 |
| Grant refeniw / incwm prosiect | £7,911 | £38,283 | £0 | £8,851 | £0 |
| Grant cyfalaf / incwm prosiect | £20,622 | £34,275 | £1,089,571 | £0 | £100,000 |

Ffynhonnell: C23 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Rhowch gyfansymiau blynyddol ar gyfer y wybodaeth isod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 i 24. Mae'r ffigur uchod yn cynnwys ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig wedi'u cyfuno ac mae'n ffigur cyfartalog cymedrig.

## Tabl 3.24: Dadansoddiad o incwm a gwariant cyfartalog ar gyfer 2023/24 yn ôl math o lywodraethu (gwirioneddol yn unig)[1]

| | Annibynnol | Awdurdod Lleol | Cenedlaethol | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Prifysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm (heb gynnwys ariannu cyfalaf) | £83,600 | £447,148 | £5,503,967 | £710,371 | £64,580 |
| Gwariant (gan gynnwys costau staff ond nid ariannu cyfalaf) | £97,096 | £552,085 | £5,459,007 | £976,821 | £203,494 |
| Costau staff | £35,069 | £314,694 | £4,214,965 | £650,756 | £174,470 |
| Incwm mynediad | £10,101 | £116,920 | £0 | £116,127 | £0 |
| Incwm arall a enillir | £39,622 | £77,558 | £311,996 | £135,356 | £14,596 |
| Cyllid cyhoeddus / grant | £19,747 | £282,743 | £4,817,857 | £0 | £22,957 |
| Incwm rhoddion | £3,826 | £1,287 | Dim swm | £19,625 | £945 |
| Incwm arall sydd wedi'i gyfrannu | £3,023 | £5,890 | £0 | £296,582 | £0 |
| Grant refeniw / incwm prosiect | £7,527 | £31,046 | £0 | £8,851 | £0 |
| Grant cyfalaf / incwm prosiect | £12,966 | £28,154 | £1,089,571 | £0 | £0 |

Ffynhonnell: C23 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Rhowch gyfansymiau blynyddol ar gyfer y wybodaeth isod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 i 24. Mae'r adroddiad uchod yn cynnwys dim ond y ffigurau hynny sydd wedi'u hadrodd yn 'gwirioneddol'.

Mae ffigurau incwm a gwariant gwirioneddol cyfartalog yn dangos, fel arfer, bod costau staff yn cynrychioli 36.1% o gyfanswm gwariant ar gyfer amgueddfeydd annibynnol, 57.0% o gyfanswm gwariant ar gyfer amgueddfeydd awdurdod lleol, 77.2% ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol, 66.6% ar gyfer amgueddfeydd Ymddiriedolaeth Genedlaethol a 85.7% ar gyfer amgueddfeydd prifysgol.

## 3.6. Ffynonellau Ariannu

Dengys data o'r arolwg (Ffynhonnell: C23a, arolwg Sbotolau 2024) bod amgueddfeydd yng Nghymru yn cyrchu cyllid o amrywiaeth eang o ffynonellau. Rhoddwyd atebion testun rhydd i'r cwestiwn 'rhowch fanylion ffynonellau ariannu / grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 i 2024'. Mae'r crynodeb a ganlyn o'r mathau o ariannu a sicrhawyd yn cynnig arwydd o'r ystod o ffynonellau a gyrchwyd. O fewn y testun mae nifer yr amgueddfeydd unigryw (uwchlaw un) sy'n adnabod ffynhonnell ariannu wedi'i nodi gan '(nX)'. Efallai bod rhai amgueddfeydd wedi cyrchu ffynhonnell mwy nac unwaith ac efallai nad yw rhai amgueddfeydd wedi adnabod eu holl ffynonellau ariannu, felly mae'r niferoedd hyn yn cyflwyno gwaelodlin ac yn gwasanaethu fel arwydd cyffredinol o'r prif ddarparwyr ac amlder eu defnydd. Yn yr atebion testun rhydd i C23a gofynnwyd i amgueddfeydd roi manylion ffynonellau ariannu / grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 i 2024. Nododd hanner cant ac un o amgueddfeydd gefnogaeth ariannol allanol yr oeddynt wedi'i sicrhau.

Mae amgueddfeydd yng Nghymru yn aml yn cyrchu arian gan gyllidwyr sector cyhoeddus. Nodwyd arian llywodraeth yn aml, yn benodol y Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (n8), Y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y DU (n2), Llywodraeth Cymru (n26), Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru (n17) a Chyngor Celfyddydau Cymru (n3). Mae'n debyg bod grantiau gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru yn bennaf o ariannu anuniongyrchol Llywodraeth Cymru. Mae ariannu a ddarperir gan AIM, Grŵp dros Addysg mewn Amgueddfeydd a Kids in Museums hefyd yn bennaf o ariannu anuniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae ariannu llywodraeth leol (n20) hefyd sy'n benodol i faes awdurdod gweinyddol, er enghraifft dyfarniadau cynghorwyr, a chyllid cyngor sir a thref. Fel arfer mae'r rhain yn gyllid wedi'i dargedu ar gyfer gwaith neu brosiectau penodol.

Ymhlith y rhaglenni targedig a nodwyd hefyd oedd Grant Mannau Cynnes Llywodraeth y DU, Grant Ymrymuso'r Gymuned y DU, Cronfa Cymunedau Arfordirol a Chronfa Grant Cyfalaf Trawsnewid (n4).

Ymhlith y cyrff dosbarthu grantiau a chyrff sector o bwys yn yr ymatebion oedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri (n8), Cronfa Gelf (n6), AIM (n7), Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (n6), Sefydliad Paul Hamlyn (n6), Postcode Lottery (n6), Cronfa Treftadaeth Bensaernïol (n3), Cadw (n2), Grŵp dros Addysg mewn Amgueddfeydd (n3), Kids in Museums (n2), Cymdeithas Amgueddfeydd (n6), Prifysgol Caerdydd (n6), Ymddiriedolaeth y Pererin, Sefydlig Garfield Weston, Prosiect British Museum Sloane lab, Amgueddfa Astudiaethau Natur (n6) a'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol.

Rhestrwyd ffynonellau lleol penodol gan gynnwys Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, Partneriaeth Tirlun Carneddau, Elan Links, Cist Gymunedol Cyngor Sir y Fflint a Gweithredu Gwirfoddol Cyngor Sir y Fflint, Ymddiriedolaeth Oakdale, Fferm Wynt Clocaenog, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (n3), Ymddiriedolaeth Elan Dŵr Cymru.

Mae amgueddfeydd wedi targedu elfennau arbenigol yn llwyddiannus megis Cronfa Iarlles Lloyd George, Ymddiriedolaeth Derek Williams (n6), Sefydliad Esmée Fairbairn (n2),

Sefydliad Ulrike Michal, Ymddiriedolaeth Llysdinam, Sefydliad Moondance, Cronfa Eglwys Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (n2) hefyd eu nodi.

Darparodd sefydliadau sy'n lletya arian ychwanegol i amgueddfeydd Cymru, gyda chefnogaeth gan sefydliadau gan gynnwys Prifysgol Abertawe, Y Weinyddiaeth Amddiffyn ochr yn ochr â chyfeillion a grwpiau hanes lleol (n2) a benthyciad esgobaethol ad-daladwy.

Gofynnwyd i ymatebwyr 'Er mwyn targedu cefnogaeth ble'r ydych chi'n bwriadu edrych am gyllid yn ystod y tair blynedd nesaf?' (C24, arolwg Sbotolau 2024). Mae'n amlwg bod llawer yn cynllunio ceisio cyllid o ffynonellau ariannu sefydledig gan gynnwys cyfeiriadau penodol at Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (n40), Llywodraeth Cymru (n25) a Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru (n26), y mwyaf cyffredin.

Roedd cynlluniau ariannu i'r dyfodol hefyd yn cynnwys ymgyrchoedd codi arian cyhoeddus, targedu ymddiriedolaethau a sefydliadau lleol, ariannu i gefnogi caffael gwrthrych a'r angen i ddefnyddio ariannu i gefnogi twf incwm. Roedd rhestr nodweddiadol o dargedau ariannu ar gyfer un amgueddfa annibynnol yn cynnwys "Amryw ymddiriedolaethau a sefydliadau ar gyfer cefnogaeth ariannu refeniw, Loteri Genedlaethol ar gyfer datblygiad cyfalaf, Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru (ar gyfer) prosiectau llai. Bydd cefnogaeth ar gyfer gwaith addysg, datblygiad staff a phrosiectau mynediad yn flaenoriaeth". Roedd amgueddfeydd yn bwriadu tyfu eu hincwm a enillir: "gobeithiwn dyfu ein rhaglen nawdd corfforaethol, yn ychwanegol at aelodaeth cyfeillion. Rydym hefyd wedi buddsoddi yn 2025 i ailddatblygu ac ehangu ein darpariaeth manwerthu." Roedd un amgueddfa yn bwriadu "datblygu ein menter ymhellach ac yn gobeithio sicrhau grant ar gyfer cefnogaeth celfyddydau i ddatblygu ystod o gynnyrch ar gyfer cyfanwerthu".

## 3.7. Gweithlu amgueddfa

### Tabl 3.25: Gweithlu mewn amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu[1]

| Math | Gwirfoddolwyr[2] (Dydd-i-ddydd) | Staff cyflogedig[3] | Cyfanswm staff | Canran gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 854 | 135 | 989 | 86.4% |
| Awdurdod Lleol | 312 | 359 | 671 | 46.5% |
| Cenedlaethol | 681 | 931 | 1612 | 42.2% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 731 | 182 | 913 | 80.1% |
| Prifysgol | 131 | 16 | 147 | 89.1% |
| **Cyfanswm** | **2709** | **1623** | **4332** | **62.5%** |

Ffynhonnell: C28 a 29 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr yn eich amgueddfa?'.

[2] Nid yw gwirfoddolwyr sy'n ymddiriedolwyr wedi'u cynnwys yn y ffigur gwirfoddolwyr yma, sy'n ystyried staff sy'n gweithredu'r amgueddfa o ddydd i ddydd.

[3] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfanswm niferoedd staff sy'n cael eu cyflogi gan yr amgueddfa gan gynnwys staff tymhorol / achlysurol'. Mae'r niferoedd staff yn ôl nifer y bobl, nid Cyfwerth ag Amser Llawn.

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud 62.5% o weithlu'r amgueddfa yng Nghymru. Maen nhw'n ffurfio dros 80% o weithlu amgueddfeydd prifysgol, annibynnol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae 2,709 o wirfoddolwyr yn cefnogi gweithrediad amgueddfeydd o ddydd i ddydd.

Mae 1,623 o staff yn cael eu cyflogi mewn amgueddfeydd. Mae 57.4% o staff yn cael eu cyflogi mewn amgueddfeydd cenedlaethol, 22.1% mewn amgueddfeydd awdurdod lleol, 11.2% mewn safleoedd Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 8.3% mewn amgueddfeydd annibynnol a 1% mewn amgueddfeydd prifysgol.

## Tabl 3.26: Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn ôl math o lywodraethu[1]

| | Cyflogedig | Cyflogedig Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|
| Annibynnol | 135 | 72 |
| Awdurdod Lleol | 359 | 198 |
| Cenedlaethol | 931 | 604 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 182 | 115 |
| Prifysgol | 16 | 10 |
| **Cyfanswm** | **1623** | **999** |

Ffynhonnell: C29 a 29a Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfanswm niferoedd staff a gyflogir gan yr amgueddfa gan gynnwys staff tymhorol / achlysurol' a 'Faint o staff cyflogedig Cyfwerth ag Amser Llawn y mae'r amgueddfa yn ei gyflogi'.

Mae'r data ar gyfer y gymhareb gyfwerth ag amser llawn i staff cyflogedig yn dangos graddau gweithio rhan amser ar draws y sector amgueddfeydd gan fod 1,623 aelod o staff mewn 999 o rolau cyfwerth ag amser llawn. Mae'r amgueddfeydd cenedlaethol yn cyflogi 57.4% o gyfanswm nifer o staff amgueddfeydd a 65% o staff cyfwerth ag amser llawn. Wrth ystyried lefelau cyflogaeth cyfwerth ag amser llawn, mae amgueddfeydd annibynnol, awdurdod lleol, a phrifysgol i gyfrif am 28% o staff amgueddfeydd cyflogedig yng Nghymru.

## Tabl 3.27: Nifer y staff proffesiynol cyfwerth ag amser llawn yn ôl rôl a math o lywodraethu amgueddfa[1]

| Math | Blaen Tŷ | Curadurol | Cadwraeth | Mynediad / Addysg | Rheoli / Cyngor | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 177.7 | 59.9 | 35.9 | 55.4 | 63.5 | 43.3 |
| Awdurdod Lleol | 104.6 | 34.5 | 11.0 | 20.2 | 34.2 | 29.1 |
| Cenedlaethol | 187.7 | 54.5 | 18.4 | 58.2 | 124.9 | 160.7 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 60.9 | 2.8 | 11.8 | 1.6 | 14.2 | 31.6 |
| Prifysgol | 1.5 | 3.3 | 0.0 | 3.1 | 1.1 | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **532.4** | **155.0** | **77.1** | **138.5** | **237.9** | **265.7** |

Ffynhonnell: C30 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Nodwch nifer y staff proffesiynol neu wirfoddolwyr cyfwerth ag amser llawn yn y categorïau a ganlyn'.

Mae 999 o staff cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi mewn amgueddfeydd yng Nghymru ac mae 53.3% ohonynt yn cael eu cyflogi mewn rolau blaen tŷ. Y categori 'arall' yw'r gyfran fwyaf nesaf o staff sydd o bosibl yn cynrychioli natur gorgyffwrdd sawl rôl mewn amgueddfeydd llai.

## Tabl 3.28: Nifer y curaduron a gwarchodwyr cymwys yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Cymwys |
|---|---|
| Annibynnol | 37.3 |
| Awdurdod Lleol | 46.9 |
| Cenedlaethol | Data ddim ar gael |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Staff rhanbarthol |
| Prifysgol | 4.5 |
| **Cyfanswm** | **88.7** |

Ffynhonnell: C30 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Gan gydnabod y gall pobl lenwi rolau niferus, sawl un o'r rolau uchod sydd wedi'u llenwi gan guraduron neu warchodwyr cymwys?'.

[2] Nid yw AC-MW yn casglu'r data hwn ac nid oedd modd iddynt roi niferoedd.

Bydd staff amgueddfeydd yn dangos sgiliau hynod arbenigol ac yn anaml y maen nhw i'w cael y tu hwnt i'r sector treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r rolau swydd arbenigol hyn yn cynnwys staff curadurol a chadwraeth. Yn 2023/24 cyflogodd amgueddfeydd awdurdod lleol, prifysgol ac annibynnol yng Nghymru 88.7 o staff cyfwerth ag amser llawn yn y rolau hynod arbenigol hyn. Mae cadw a datblygiad proffesiynol staff o'r fath o fewn Cymru yn ffactor yng ngallu amgueddfeydd i barhau i gynnig gwasanaeth effeithiol.

## Tabl 3.29: Staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir ar sail tymor penodol ar gyfer prosiectau penodol yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Cyfwerth ag Amser Llawn Tymor Penodol (2024 yn gyffredinol) |
|---|---|
| Annibynnol | 9.5 |
| Awdurdod Lleol | 20.5 |
| Cenedlaethol | 28 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 7.2 |
| Prifysgol | 0 |
| **Cyfanswm** | **65.2** |

Ffynhonnell: C31 Arolwg Sbotolau 2024. Sylfaen cymharydd (n64)

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Faint o'ch staff cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu cyflogi ar sail cyfnod penodol yn gysylltiedig â phrosiect / grant / gweithgaredd penodol (h.y. nid ydynt yn y tîm craidd)?'.

Yn amgueddfeydd Cymru mae 65.2 staff cyfwerth ag amser llawn allan o gyfanswm o 999 staff cyfwerth ag amser llawn yn staff prosiect tymor penodol. Mae hyn yn cynrychioli 6.5% o'r gweithlu. Oherwydd bod C31 yn gofyn am sylwadau ar staff a ariennir gan brosiect, efallai y bydd staff tymor penodol ychwanegol yn gweithio ar weithgareddau craidd.

## Tabl 3.30: Cyfraniad gwirfoddolwyr at amgueddfeydd 2023/24 yn ôl math o lywodraethu amgueddfa[1]

| | Gwirfoddolwyr (Amgueddfa) | Oriau Gwirfoddolwyr (Amg) | Gwirfoddolwyr (Ymddiriedolwyr) | Oriau Gwirfoddolwyr (Ymddiriedolwyr) | Cyfanswm Gwirfoddolwyr | Cyfanswm Oriau Gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 854 | 125,143 | 251 | 65,371 | 1,105 | 190,514 |
| Awdurdod Lleol | 312 | 23,036 | 24 | 89 | 336 | 23,125 |
| Cenedlaethol | 681 | 31,310 | 16 | 1,434 | 697 | 32,744 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 731 | 70,544 | 0 | 0 | 731 | 70,544 |
| Prifysgol | 131 | 9,601 | 0 | 0 | 131 | 9,601 |
| **Cyfanswm** | **2,709** | **259,634** | **291** | **66,689** | **3,000** | **326,528** |

Ffynhonnell: C28a Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr yn eich amgueddfa?' a 'Tua sawl awr cyfrannodd gwirfoddolwyr yn 2023/24' ar gyfer gwirfoddolwyr amgueddfa ac ymddiriedolwyr amgueddfa.

Cyfrannodd tair mil o wirfoddolwyr 326,528 awr i amgueddfeydd yng Nghymru yn 2023/24. O blith y rhain, mae 291 o wirfoddolwyr mewn rolau ymddiriedolwyr, yn goruchwylio llywodraethu a chyfeiriad strategol eu hamgueddfeydd ac yn ymrwymo 66,689 awr o'u hamser i'r gwaith hwn. Mae hyn yn cynrychioli cyfraniad cyfartalog o 229 awr y flwyddyn. Fel arfer, mewn amgueddfeydd bach sy'n cael eu cynnal gan wirfoddolwyr gallai llawer o'r

Ymddiriedolwyr hyn hefyd fod yn gwirfoddoli mewn rolau o ddydd i ddydd wrth weithredu'r amgueddfa.

## Tabl 3.31: Oriau blynyddol cyfartalog 2023/24 a gyfrannwyd gan wirfoddolwyr yn ôl math o lywodraethu amgueddfa[1]

Oriau

| | Cyfartalog (Amgueddfa) | Cyfartalog (Ymddiriedolwyr) | Cyfartalog (Cyffredinol) |
|---|---|---|---|
| Annibynnol | 147 | 260 | 172 |
| Awdurdod Lleol | 74 | 4 | 69 |
| Cenedlaethol | 46 | 90 | 47 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 97 | 0 | 97 |
| Prifysgol | 73 | 0 | 73 |

Ffynhonnell: C28a Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth yw cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr yn eich amgueddfa?' a 'Tua sawl awr cyfrannodd gwirfoddolwyr yn 2023/24' ar gyfer gwirfoddolwyr amgueddfa ac ymddiriedolwyr amgueddfa.

Mae gwirfoddolwyr amgueddfeydd annibynnol yn cyfrannu, ar gyfartaledd, y mwyaf o amser (147 awr y flwyddyn) i'w hamgueddfa. Mewn amgueddfeydd annibynnol mae ymddiriedolwyr yn cyfrannu, ar gyfartaledd, 260 awr y flwyddyn i'w hamgueddfeydd gyda gwirfoddolwyr gweithredol yn cyfrannu cyfartaledd blynyddol o 147 awr (rhwng 2 a 3 awr yr wythnos).

## Tabl 3.32: Newid mewn cyllideb hyfforddi er Sbotolau 2022 yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Cynyddol | Gostyngol | Aros yr un peth | Dim |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 2 | 2 | 10 | 26 |
| Awdurdod Lleol | 5 | 2 | 6 | 17 |
| Cenedlaethol | 0 | 0 | 7 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Prifysgol | 0 | 1 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **7** | **5** | **27** | **45** |


Ffynhonnell: C33 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Er arolwg Sbotolau 2022 a yw'ch cyllideb hyfforddi wedi newid?' a gofynnwyd i ymatebwyr ddewis un o'r opsiynau a restrir yn y tabl.

Adroddodd mwy na hanner (53.6%) o amgueddfeydd yn yr arolwg nad oedd ganddynt gyllideb hyfforddi. Dim ond 7 amgueddfa (8.3%) a adroddodd gynnydd mewn cyllideb ac adroddodd 5 ostyngiad (6%) gyda gweddill yr amgueddfeydd (n27, 32.1%) yn adrodd cyllideb stond.

Mae mynediad at hyfforddiant ar gyfer ymron i hanner yr amgueddfeydd yn yr arolwg yn dibynnu ar fynediad at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu am ddim neu a ariennir yn allanol gan nad oes ganddynt gyllideb wedi'i neilltuo.


### Ffigur 3.5: Mae datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddolwyr yn newid dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.5: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.3

Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2006 a 2022 a ddarparwyd gan LIC a C32 arolwg Sbotolau 2024

## Ffigur 3.6: Newid datganiad ystod datblygu staff a gwirfoddolwyr dros amser yn ôl maint amgueddfa




Disgrifiad o Ffigur 3.6: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.4


Ffynhonnell: Data Sbotolau rhwng 2006 a 2022 a ddarparwyd gan LIC a C32 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad am ddarparu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr. Byddai sgôr o 3 yn nodi proses ymsefydlu llawn i bawb, asesiad o anghenion hyfforddi, a chynllun hyfforddi a hyfforddiant wedi'i ddarparu. Mae sgorau uwch yn nodi bod gan yr amgueddfa gyllideb hyfforddiant wedi'i neilltuo, dull wedi'i gynllunio i adnabod anghenion hyfforddi a bod staff a gwirfoddolwyr yn cyrchu cefnogaeth fewnol a chyrsiau a seminarau allanol.

Mae'r arfer yn ymwneud â datblygiad staff a gwirfoddolwyr yn statig ar y cyfan ar draws ystod oes arolwg Sbotolau. Mae'n bosibl y gallai unrhyw amrywiad yn y canlyniadau gael eu priodoli i'r sylfaen sampl newidiol.

## 3.8. Casgliadau


### Ffigur 3.7: Newid datganiad ystod darparu adeiladau addas dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad Ffigur 3.7: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.5

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C34 arolwg Sbotolau 2024

### Ffigur 3.8: Newid datganiad ystod darparu adeiladau addas dros amser yn ôl maint amgueddfa





Disgrifiad o Ffigur 3.8: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.6

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C34 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad am ddarparu adeilad addas ar gyfer yr amgueddfa a gweithdrefnau cynnal a chadw a rheoli sydd wedi'u sefydlu. Byddai sgôr o 3 wedi nodi bod adeilad yr amgueddfa yn dal gwynt a dŵr ac mae arolygiadau a chynnal a chadw hanfodol yn cael eu cynnal. Mae sgorau uwch yn nodi bod amserlen cynnal a chadw arferol wedi'i sefydlu, cynllun rheoli adeilad wedi'i sefydlu, camau gweithredu wedi'u gweithredu, a chofnodion yn cael eu cadw.

Dros y cyfnod adrodd o 2022 i 2024 mae darpariaeth adeilad addas yn gymedrol sefydlog. Gwelir y newidiadau mwyaf ar gyfer mathau llywodraethu gyda meintiau sampl llai amgueddfeydd Ymddiriedolaeth Genedlaethol (o 4.71 i 5.25) a phrifysgol (o 3.75 i 4.33).


## Ffigur 3.9: Newid datganiad ystod monitro amgylcheddol dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.9: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.7

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C35 arolwg Sbotolau 2024

### Ffigur 3.10: Newid yn y datganiad ystod monitro amgylcheddol dros amser yn ôl maint amgueddfa




Disgrifiad o Ffigur 3.10: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.8


Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C35 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad wrth fonitro amodau amgylcheddol yn yr amgueddfa fel rhan o'i ddull o ofalu am gasgliadau. Fel arfer, byddai hyn yn cynnwys monitro golau, tymheredd a lefelau lleithder perthynol. Byddai sgôr o 3 yn nodi bod yr amgueddfa yn ymgymryd â pheth monitro, bod ganddi ddealltwriaeth sylfaenol o faterion a bod cyfarpar monitro wedi'i raddnodi. Mae sgorau uwch yn nodi cyfarpar monitro yn gysylltiedig â chyfrifiadur, a bod yr amodau gofynnol ar gyfer casgliadau arbenigol wedi'u hadnabod. Mae data yn cael eu dadansoddi a'u gweithredu.

Yn unol â gofynion polisi a chynllun gofal a chadwraeth (6.1 a 6.2) o safon achredu, mae'r holl amgueddfeydd yn y sampl yn nodi eu bod yn cyrraedd yr isafswm 'Rhywfaint o fonitro ar waith. Cyfarpar wedi'i stori a'i raddnodi yn ddigonol. Dealltwriaeth sylfaenol o'r materion (datganiad ystod 3). Mae'r maes hwn o arfer amgueddfa yn cael ei gydnabod yn raddadwy gan y safon achrediad (h.y. nid yw'r disgwyliad ar amgueddfa fach yr un peth ag amgueddfa fawr neu Amgueddfa Genedlaethol) ac mae hyn wedi'i dynnu o ymatebion arolwg o ran y grwpiau maint. Amgueddfeydd bach sydd bennaf yn y math o lywodraethu annibynnol ac mae'r sgôr is yno yn adlewyrchu hyn.

Awgryma'r sgorau datganiad ystod 2024 bod arfer monitro amgylcheddol yn parhau'n ddigyfnewid ar y cyfan ers sgorau 2022 ac eithrio ar gyfer amgueddfeydd prifysgol sy'n adrodd ar sgôr yn symud o 3.75 i 5. Mae'r darlun sy'n statig ar y cyfan wedi'i atgyfnerthu pan fydd y sgorau yn cael eu gweld yn ôl maint amgueddfa.


**Ffigur 3.11: Newid yn y datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl math o lywodraethu**




Disgrifiad o Ffigur 3.11: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.9.

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LlC a C36 arolwg Sbotolau 2024

**Ffigur 3.12: Newid yn y datganiad ystod rheoli amgylcheddol dros amser yn ôl maint amgueddfa**




Disgrifiad Ffigur 3.12: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.10

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LlC a C36 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad am reoli'r amgylchedd amgueddfa i fodloni anghenion ei gasgliadau. Fel arfer, byddai hyn yn cynnwys rheolaethau ar olau, tymheredd a lefelau lleithder cymharol. Mae sgôr o 3 yn nodi ryw ymdrech ar reoli a dealltwriaeth sylfaenol o faterion. Mae sgorau uwch yn nodi bod cyfarpar rheoli wedi'u sefydlu, y gellir eu cysylltu â chyfarparu monitro a bod rheolaethau yn cael eu gweithredu am o leiaf 50 y cant o'r amser ac uwch.

Yn unol â gofynion polisi a chynllun gofal a chadwraeth (6.1 a 6.2) y safon achredu, mae'r holl amgueddfeydd yn y sampl yn nodi eu bod o leiaf yn cyrraedd 'Ryw ymdrech ar reolaeth (amgylcheddol), dealltwriaeth sylfaenol o faterion' (3). Mae'r maes hwn o arfer amgueddfa wedi'i gydnabod yn raddadwy gan y safon achredu ac mae hyn yn dod o ymatebion arolwg o ran y grwpiau maint. Amgueddfeydd bach sydd bennaf yn y math o lywodraethu annibynnol ac mae'r sgôr is yno yn adlewyrchu hyn.

Mae'r sgorau datganiad ystod yn dangos arfer rheoli amgylcheddol sy'n dangos ychydig o duedd i fyny ar gyfer amgueddfeydd prifysgol, awdurdod lleol ac annibynnol. Mae amgueddfeydd cenedlaethol wedi cynnal sgôr gyson uchel (6). Mae'r duedd i fyny ar gyfer amgueddfeydd bach a fydd yn cynnwys llawer o amgueddfeydd annibynnol a rhai awdurdod lleol yn dilyn y duedd fach ar i fyny. Gallai hyn fod oherwydd dychwelyd i weithio ar y safle yn dilyn aflonyddu yn ystod Covid-19 hyd at 2022.

## Tabl 3.33: Gwrthrychau sy'n cael eu cadw gan amgueddfeydd a chaffaeliadau newydd yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Gwrthrychau mewn casgliad | Pryniannau Newydd | Rhoddion Newydd |
|---|---:|---:|---:|
| Annibynnol | 508,603 | 475 | 7,630 |
| Awdurdod Lleol | 869,502 | 180 | 3,550 |
| Cenedlaethol | 5,300,000 | 16 | 150 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 51,880 | 238 | 42 |
| Prifysgol | 52,476 | 13 | 188 |
| **Cyfanswm** | **6,782,461** | **922** | **11,560** |

Ffynhonnell: C37 a 38 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Sawl gwrthrych/eitem sydd gennych yn eich casgliad?' a 'Sawl caffaeliad newydd a ddaeth i'ch casgliadau parhaol yn 2023/24?' a gofynnwyd iddynt roi niferoedd o dan benawdau yn y tabl.

Cofnododd amgueddfeydd a oedd yn cymryd rhan eu bod yn cadw 6,782,461 gwrthrych yn eu casgliadau. Yn Sbotolau 2022, y nifer a gofnodwyd oedd 6,284,099. Gall graddfa'r cynnydd fod wedi'i briodoli i'r nifer cynyddol o amgueddfeydd sy'n cymryd rhan yn yr arolwg. Cyfanswm nifer y pryniannau newydd a rhoddion newydd a ychwanegwyd at gasgliadau a adroddwyd yw 922 o bryniannau newydd a 11,560 o roddion newydd nad ydynt i gyfrif am gynnydd o bron i 500,000 yng nghyfanswm nifer y gwrthrychau a gedwir yn Amgueddfeydd

Cymru. Dangosodd Sbotolau 2022 bod 1,228 o wrthrychau wedi'u prynu a 10,696 o roddion newydd wedi'u derbyn yn 2021/22. Dyma nifer casglu ar lefel debyg dros y cyfnod.

## Tabl 3.34: Gwrthrychau yn gadael casgliadau parhaol yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Rhoddion | Gwerthu | Dinistr |
|---|---|---|---|
| Annibynnol | 36 | 0 | 6 |
| Awdurdod Lleol | 187 | 639 | 3 |
| Cenedlaethol | 484 | 0 | 7 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 2 | 0 | 2 |
| Prifysgol | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **709** | **639** | **18** |

Ffynhonnell: C39 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Sawl gwrthrych sydd wedi gadael y casgliadau parhaol yn 2023 i 2024 yn ôl yr isod:' a gofynnwyd iddynt roi niferoedd o dan y penawdau yn y tabl.

Yn 2023/24, adroddwyd bod 1,366 o wrthrychau wedi'u hadrodd yn gadael casgliadau amgueddfeydd trwy rodd, gwerthu neu ddinistrio. Mae hon ar lefel debyg i hynny a adroddwyd yn Sbotolau 2022 (1,396 gwrthrych yn gadael casgliadau parhaol). Mae hyn yn dangos y potensial ar gyfer arweinyddiaeth o fewn Cymru yn ymwneud â rhesymoli casgliadau, ond nad yw rhesymoli casgliadau gweithredol eto wedi'u gwreiddio'n eang yn arfer rheoli casgliadau mewn amgueddfeydd achrededig ar draws Cymru, er gwaethaf problemau storfa orlawn a adroddir.

## Tabl 3.35: Pryd y bydd storfeydd yn orlawn ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu (nifer yr amgueddfeydd)[1]

Nifer

| | Eisoes yn orlawn | <5 mlynedd | 5 i 10 mlynedd | >10 mlynedd |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 24 | 9 | 5 | 2 |
| Awdurdod Lleol | 17 | 11 | 1 | 1 |
| Cenedlaethol | 0 | 7 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 1 | 2 | 1 | 0 |
| Prifysgol | 1 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **43** | **30** | **7** | **4** |

Ffynhonnell: C40 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Gan ystyried cyfraddau casglu a gwaredu presennol, yn eich barn hi pa mor hir y cymer hi i'r storfeydd ddod yn orlawn? a gofynnwyd iddynt ddewis un o'r penawdau yn y tabl.

## Tabl 3.36: Pa mor hir hyd nes y bydd y storfeydd yn orlawn ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu (canran yr amgueddfeydd) [1]

Canran yr ymatebion


| | Eisoes yn orlawn | <5 mlynedd | 5 i 10 mlynedd | >10 mlynedd |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 28.6% | 10.7% | 6.0% | 2.4% |
| Awdurdod Lleol | 20.2% | 13.1% | 1.2% | 1.2% |
| Cenedlaethol | 0.0% | 8.3% | 0.0% | 0.0% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 1.2% | 2.4% | 1.2% | 0.0% |
| Prifysgol | 1.2% | 1.2% | 0.0% | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **51.2%** | **35.7%** | **8.4%** | **4.8%** |

Ffynhonnell: C40 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Gan ystyried cyfraddau casglu a gwaredu presennol, yn eich barn hi pa mor hir y cymer hi i'r storfeydd ddod yn orlawn? a gofynnwyd iddynt ddewis un o'r penawdau yn y tabl.

Mae dros hanner (51.2%) o storfeydd amgueddfeydd Cymru eisoes yn orlawn. Erbyn 2030 bydd gan y rhan fwyaf o amgueddfeydd (88.9%) storfeydd gorlawn. Mae hyn yn ganlyniad tebyg iawn i Sbotolau 2022. Er y bu gostyngiad bach yn y lefelau cyfredol o orlenwi (o 57% i 51.2%) gellid esbonio'r lleddfu tymor byr hwn gan warediadau a buddsoddiad cyfalaf. Y darlun tymor hwy yw mai dim ond un mewn ugain (4.8%) amgueddfa sydd â'r capasiti ar gyfer deng mlynedd neu fwy.


## Ffigur 3.13: Pa mor hir hyd nes y bydd storfeydd yn orlawn ar gyfraddau cyfredol yn ôl math o lywodraethu




Ffynhonnell: C40 Arolwg Sbotolau 2024

Mae gorlenwi yn gyffredin ar draws pob math o lywodraethu. Dim ond nifer fechan o amgueddfeydd annibynol, prifysgol ac awdurdod lleol sy'n disgwyl y bydd ganddynt gapasiti ar gyfer casglu ymhen degawd.


### Ffigur 3.14: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.4: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.11

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C41 arolwg Sbotolau 2024

### Ffigur 3.15: Newid datganiad ystod storio a chadw tŷ dros amser yn ôl maint amgueddfa




Disgrifiad o Ffigur 3.15: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.12

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C41 arolwg Sbotolau 2024


Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad wrth ddarparu gofod storio casgliad a threfnau cadw tŷ cysylltiedig. Byddai sgôr o 3 yn nodi bod gan yr amgueddfa storfeydd arfaethedig gyda mynediad diogel at wrthrychau unigol, pecynnu gradd cadwraeth ar gyfer gwrthrychau a storfeydd yn cael eu glanhau yn rheolaidd.  Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer mynediad cyhoeddus i gasgliadau a storir. Mae sgorau uwch yn nodi bod gweithredu rhaglenni monitro plâu, gofod cwarantîn ar gyfer gwrthrychau sy'n dod i mewn, gweithle pwrpasol yn y storfa, gwirio cyflwr yn rheolaidd a lle i ehangu.

Mae'r ymatebion hyn ar gyfer storio a chadw tŷ yn dangos amgueddfeydd achrededig yn gweithredu o fewn gofynion y safon ond nid heb heriau. Mae'r datganiad ystod yn casglu perfformiad wrth ddarparu gofod storio casgliad a threfnau cadw tŷ cysylltiedig.

Fel arfer, mae'r adnoddau cynyddol sydd ar gael mewn amgueddfeydd mwy yn cael eu hadlewyrchu yn yr ystod o sgorau (ac yn unol â gallu i godi'r safon achredu). Gallai'r mân amrywiadau mewn sgorau dros amser fod yn unol â diffygion y dull datganiad ystod a newidiadau yn y sampl sylfaen yn hytrach na'n arwydd o newidiadau ar raddfa eang.

Adrodda amgueddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phrifysgol gynnydd yn eu sgorau, sy'n deillio o dueddd i fyny ar gyfer amgueddfeydd canolig. Mae amgueddfeydd annibynnol a bach yn dangos tuedd mwy statig neu ychydig i lawr.


## Ffigur 3.16: Newid datganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.16: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.13

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C42 arolwg Sbotolau 2024

## Ffigur 3.17: Newid yn natganiad ystod arddangos a chadw tŷ dros amser yn ôl maint amgueddfa





Disgrifiad o Ffigur 3.17: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.14

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LlC a C42 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad cadw tŷ ardaloedd arddangos fel rhan o ddull yr amgueddfa i ofalu am gasgliadau. Byddai sgôr o 3 yn nodi bod arddangosfeydd yn daclus ac yn drefnus, mae rhai casys arddangos o ansawdd da, ac mae monitro plâu wedi'u sefydlu. Mae sgorau uwch yn nodi rhaglen glanhau a gofal am gasgliadau integredig, mynediad hawdd at wrthrychau ar gyfer glanhau a defnydd ar gesys arddangos gradd cadwraeth yn bennaf.

Dengys sgorau datganiad ystod 2024 symudiad i lawr ar gyfer amgueddfeydd mawr a bach, yn fwyaf tebygol wedi'i hysbysu gan yr un symudiad i lawr ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol ac annibynnol. Mae amgueddfeydd canolig, prifysgol, awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn adrodd ar gynnydd. Byddai angen edrych ymhellach ar hyn i ganfod y rhesymau y tu ôl i'r newidiadau hyn. Mae'r sgorau yn adlewyrchu cydymffurfio â safon achrediad wrth ofal am gasgliadau ac mae natur graddadwy y safon ar draws gwahanol fathau o amgueddfeydd.


## Ffigur 3.18: Newid yn natganiad ystod dogfennau dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.18: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.15

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C43 arolwg Sbotolau 2024

## Ffigur 3.19: Newid yn natganiad ystod dogfennau dros amser yn ôl maint amgueddfa




Disgrifiad o Ffigur 3.19: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.16

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C43 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad wrth ddogfennu casgliad amgueddfa o ystyried Spectrum, safon rheoli casgliadau'r DU. Byddai sgôr o 3 yn nodi bod gweithdrefnau craidd Spectrum ar waith a bod gwaith ar y gweill i gynnal dogfennaeth ôl-weithredol. Mae sgorau uwch yn nodi bod gwaith dogfennaeth ôl-weithredol rhwng 60 y cant ac yn gwbl gyflawn.

Adlewyrchir cydymffurfiad â gofynion achredu yn y sgôr datganiad ystod o '3', ffigur sydd wedi'i fodloni'n hawdd ar draws pob maint a math o lywodraethu ac fe'i gwelir yn Ffigur 3.18 a 3.19. Mae sgorau datganiad ystod dogfennaeth wedi parhau yn weddol gyson dros y ddegawd ddiwethaf ac ychydig iawn o dystiolaeth sydd o welliant cyffredinol dros amser. Gallai fod yn bosib bod cyflawni 60 y cant o ddogfennaeth ôl-weithredol wedi'i gyflawni yn atal sgorau uwch yn y maes hwn.

Mae'r sgorau datganiad ystod dogfennaeth yn dangos rhywfaint o gynnydd i fyny ar gyfer amgueddfeydd bach a chanolig gydag ychydig o duedd i lawr ar gyfer amgueddfeydd mawr. Mae sgôr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi neidio o 3.27 yn 2022 i 4.75 yn 2024. Dylid trin hyn yn ofalus oherwydd y maint sampl bach yn 2024.

## Tabl 3.37: Mynediad i'r cyhoedd at gasgliadau ar-lein[1]

| | Trwy Gasgliad y Werin Cymru | Uchafbwyntiau ar wefan | Cyfran sylweddol ar wefan / cronfa ddata cyhoeddus | Trwy Gyfryngau Cymdeithasol | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 16 | 17 | 11 | 12 | 8 |
| Awdurdod Lleol | 21 | 23 | 4 | 17 | 5 |
| Cenedlaethol | 7 | 0 | 7 | 0 | 7 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 1 | 2 | 4 | 2 | 0 |
| Prifysgol | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **47** | **44** | **28** | **33** | **22** |

Ffynhonnell: C44 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A all y cyhoedd gyrchu'ch casgliadau ar-lein?' a gofynnwyd iddynt roi tic ym mhob un a oedd yn berthnasol o'r penawdau yn y tabl.

Mae gwefan Casgliad y Werin Cymru, gwefannau amgueddfa a sianeli cyfryngau cymdeithasol yn allfeydd a ddefnyddir amlaf i ddarparu mynediad cyhoeddus at gasgliadau gwybodaeth ar-lein. Mae eiddo'r Amgueddfa Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnig mynediad ehangach a dyfnach trwy byrth ar-lein a dyma'r disgwyliad ar gyfer mathau eraill o amgueddfeydd.

Gallai amgueddfeydd hefyd rannu llwybrau 'eraill' i'w cyrchu yn y sylwadau testun rhydd ac roedd y rhain yn cynnys Art UK, Google Arts and Culture, Museum Data Service ac YouTube.

Nododd ychydig o amgueddfeydd bod diffyg capasiti yn golygu nad oeddynt yn cynnig unrhyw ffurf ar fynediad i'r cyhoedd at gasgliadau ar-lein ar hyn o bryd. "Nid yw'n casgliad ar-lein ar hyn o bryd - nid ydym wedi cael gwirfoddolwr eto sydd â'r wybodaeth i reoli gwefan a chyfryngau cymdeithasol".

## 3.9. Dysgu

### Tabl 3.38: Sesiynau dysgu ffurfiol a phresenoldeb (wyneb yn wyneb) yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Sesiynau (Gwirioneddol) | Sesiynau (Amcangyfrif) | Cyfranogwyr (Gwirioneddol) | Cyfranogwyr (Amcangyfrif) |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 509 | 292 | 27,943 | 4,571 |
| Awdurdod Lleol | 1,149 | 124 | 24,460 | 12,214 |
| Cenedlaethol | 0 | 4,890 | 146,694 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 79 | 31 | 2,159 | 800 |
| Prifysgol | 34 | 140 | 4,773 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,771** | **5,477** | **206,029** | **17,585** |

Ffynhonnell: C9 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Sawl sesiwn ffurfiol (h.y. sesiynau gyda darparwyr addysg ffurfiol megis ysgol/coleg/sefydliad AU) gyflenwodd eich amgueddfa yn 2023/24?' a gofynnwyd iddynt nodi niferoedd a ph'un a oeddynt yn niferoedd gwirioneddol neu amcangyfrifedig.

Darparodd amgueddfeydd Cymru tua 7,248 sesiwn ddysgu i 223,554 o gyfranogwyr yn 2023/24. Mae'r cyfansymiau hyn yn cyfuno ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig sy'n rhoi'r darlun mwyaf cyflawn ar gyfer gweithgaredd dysgu ffurfiol wyneb yn wyneb. Darparodd amgueddfeydd cenedlaethol sesiynau dysgu ffurfiol i fwy na 150,000 o gyfranogwyr. Cynigiodd amgueddfeydd annibynnol ac awdurdod lleol mwy na 2,000 o weithgareddau i dros 69,000 o gyfranogwyr.

### Tabl 3.39: Sesiynau dysgu ffurfiol a phresenoldeb (digidol) yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Sesiynau (Gwirioneddol) | Sesiynau (Amcangyfrif) | Cyfranogwyr (Gwirioneddol) | Cyfranogwyr (Amcangyfrif) |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 21 | 25 | 551 | 700 |
| Awdurdod Lleol | 4 | 0 | 289 | 0 |
| Cenedlaethol | 0 | 4,708 | 8,781 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prifysgol | 141 | 0 | 1,446 | 0 |
| **Cyfanswm** | **166** | **4,733** | **11,067** | **700** |

Ffynhonnell: C9 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Sawl sesiwn ffurfiol (h.y. sesiynau gyda darparwyr addysg ffurfiol megis ysgol/coleg/sefydliad AU) gyflenwodd eich amgueddfa yn 2023/24?' a gofynnwyd iddynt nodi niferoedd a ph'un a oeddynt yn niferoedd gwirioneddol neu amcangyfrifedig.

Darparodd amgueddfeydd Cymru tua 4,899 o sesiynau dysgu i 11,767 o gyfranogwyr yn 2023/24. Mae'r cyfansymiau hyn yn cyfuno ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig sy'n rhoi'r darlun mwyaf cyflawn ar gyfer gweithgaredd dysgu ffurfiol digidol. Darparodd amgueddfeydd cenedlaethol sesiynau dysgu ffurfiol i 8,781 o gyfranogwyr ar-lein. Cynigiodd amgueddfeydd prifysgol mwy na 141 o weithgareddau i 1,446 o gyfranogwyr.

## Tabl 3.40: Cyfanswm nifer y sesiynau dysgu a phresenoldeb yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Sesiynau Wyneb yn Wyneb | Presenoldeb Wyneb yn Wyneb | Sesiynau Digidol | Presenoldeb Digidol |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 801 | 32,514 | 46 | 1,251 |
| Awdurdod Lleol | 1,273 | 36,674 | 4 | 289 |
| Cenedlaethol | 4,890 | 146,694 | 4,708 | 8,781 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 110 | 2,959 | 0 | 0 |
| Prifysgol | 174 | 4,773 | 141 | 1,446 |
| **Cyfanswm[2]** | **7,248** | **223,614** | **4,899** | **11,767** |

Ffynhonnell: C9 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Sawl sesiwn ffurfiol (h.y. sesiynau gyda darparwyr addysg ffurfiol megis ysgol/coleg/sefydliad AU) gyflenwodd eich amgueddfa yn 2023/24?' a gofynnwyd iddynt nodi niferoedd a ph'un a oeddynt yn niferoedd gwirioneddol neu amcangyfrifedig.

[2] Mae cyfanswm y ffigurau a ddefnyddir uchod yn cyfuno niferoedd gwirioneddol ac amcangyfrifedig.

Yn 2023/24 cafwyd 223,614 o gyfranogwyr mewn sesiynau dysgu ffurfiol wyneb yn wyneb mewn amgueddfeydd yng Nghymru. Mae amgueddfeydd cenedlaethol i gyfrif am 65.6% o'r cyfranogwyr hyn gyda 16.4% yn mynychu amgueddfeydd awdurdod lleol a 14.5% yn mynychu amgueddfeydd annibynnol.

Yr amgueddfeydd cenedlaethol gyflenwodd y sesiynau dysgu ffurfiol digidol yn bennaf, gan gyflwyno 96% o'r sesiynau gyda 74.6% o'r mynychwyr. Mae amgueddfeydd prifysgol yn ddarparwr dysgu mwy o ran sesiynau digidol na sesiynau wyneb yn wyneb gan eu bod yn darparu sesiynau dysgu digidol ffurfiol ar gyfer 12.3% o fynychwyr o'i gymharu â sesiynau dysgu wyneb yn wyneb i 2.1% o fynychwyr. Gallai hyn berthyn i fynediad sefydliadol at, ac argaeledd, cyfarpar i gyflenwi sesiynau dysgu digidol ffurfiol ynghyd â phrif rôl y gwesteiwyr prifysgol.

## Tabl 3.41: Cyfanswm nifer y sefydliadau dysgu ffurfiol a ymgysylltodd yn 2023/24 yn ôl math o lywodraethu[1]

| Math | Nifer |
|---|---|
| Annibynnol | 637 |
| Awdurdod Lleol | 667 |
| Cenedlaethol | 2,487 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 135 |
| Prifysgol | 68 |
| **Cyfanswm** | **3,994** |

Ffynhonnell: C10 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Beth oedd cyfanswm nifer yr ysgolion a sefyddliadau dysgu ffurfiol a ymgysylltodd yn 2023/24?'.

Ymgysylltodd ymron i 4,000 o ysgolion a sefydliadau dysgu ffurfiol gydag amgueddfeydd yng Nghymru o 2023 i 2024. Ymgysylltodd 62.3% ohonynt gydag amgueddfeydd cenedlaethol, ymgysylltodd 16.7% ag amgueddfeydd awdurdod lleol, ymgysylltodd 15.9% ag amgueddfeydd annibynnol, 3.4% gydag amgueddfeydd Ymddiriedolaeth Genedlaethol a 1.7% gydag amgueddfeydd prifysgol.

## Tabl 3.42: Sesiynau dysgu anffurfiol a phresennoldeb (wyneb yn wyneb) yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Sesiynau (Gwirioneddol) | Sesiynau (Amcangyfrif) | Cyfranogwyr (Gwirioneddol) | Cyfranogwyr (Amcangyfrif) |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 848 | 221 | 22,840 | 21,119 |
| Awdurdod Lleol | 1,224 | 124 | 15,978 | 4,925 |
| Cenedlaethol | 0 | 161 | 0 | 210,916 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 55 | 134 | 0 | 9,050 |
| Prifysgol | 95 | 2 | 6,034 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,222** | **642** | **44,852** | **246,010** |

Ffynhonnell: C12 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Faint o weithgareddau anffurfiol gyflenwodd eich amgueddfa yn 2023/24?' a gofynnwyd iddynt nodi niferoedd a ph'un a oeddynt yn ffigurau gwirioneddol neu amcangyfrifedig.

Mae sesiynau dysgu anffurfiol a niferoedd a gymerodd ran ar gyfer sesiynau wyneb yn wyneb a digidol yn cynnwys niferoedd mawr o gyfranogwyr amcangyfrifedig felly bydd y ffigurau wedi'u cyfuno yn cael eu defnyddio ar gyfer dadansoddi.

## Tabl 3.43: Sesiynau dysgu anffurfiol a phresenoldeb (digidol) yn ôl math o lywodraethu[1]

| Math | Sesiynau (Gwirioneddol) | Sesiynau (Amcangyfrif) | Cyfranogwyr (Gwirioneddol) | Cyfranogwyr (Amcangyfrif) |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 15 | 12 | 3,500 | 16,828 |
| Awdurdod Lleol | 16 | 0 | 14,119 | 50 |
| Cenedlaethol[2] | 0 | 8 | 0 | 30,533 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prifysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **31** | **20** | **17,619** | **47,411** |

Ffynhonnell: C12 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Faint o weithgareddau anffurfiol gyflenwodd eich amgueddfa yn 2023/24?' a gofynnwyd iddynt nodi niferoedd a ph'un a oeddynt yn ffigurau gwirioneddol neu amcangyfrifedig.

[2] Mae'r ffigur digidol ar gyfer Cenedlaethol yn cynnwys gweithdai rhithiol AC-MW a gyflenwyd a nifer yr adnoddau dysgu a lawrlwythwyd.

## Tabl 3.44: Cyfanswm nifer y sesiynau dysgu anffurfiol a phresenoldeb yn 2023/24[1]

| Math | Sesiynau Wyneb yn Wyneb | Presenoldeb Wyneb yn Wyneb | Sesiynau Digidol | Presenoldeb Digidol |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 1,069 | 43,959 | 27 | 20,328 |
| Awdurdod Lleol | 1,348 | 20,903 | 16 | 14,169 |
| Cenedlaethol[2] | 161 | 210,916 | 8 | 30,533 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 189 | 9,050 | 0 | 0 |
| Prifysgol | 97 | 6,034 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm[3]** | **2,864** | **290,862** | **51** | **65,030** |

Ffynhonnell: C12 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Faint o weithgareddau anffurfiol gyflenwodd eich amgueddfa yn 2023/24?' a gofynnwyd iddynt nodi niferoedd a ph'un a oeddynt yn ffigurau gwirioneddol neu amcangyfrifedig.

[2] Mae'r ffigurau a ddarparwyd ar gyfer sesiynau digidol a phresenoldeb digidol (Cenedlaethol) yn cynnwys gweithdai rhithiol AC-MW a gyflenwyd a nifer yr adnoddau dysgu a lawrlwythwyd.

[3] Mae'r ffigurau a ddefnyddir uchod yn cyfuno niferoedd gwirioneddol ac amcangyfrifedig.

Yn 2023/24 cafwyd 355,892 o gyfranogwyr mewn sesiynau dysgu anffurfiol (wyneb yn wyneb a digidol) mewn amgueddfeydd yng Nghymru. Roedd presenoldeb wyneb yn wyneb i gyfrif am 81.7% o gyfranogwyr. Roedd amgueddfeydd cenedlaethol i gyfrif am 72.5% o gyfranogwyr wyneb yn wyneb a 47% o gyfranogwyr digidol. Roedd amgueddfeydd awdurdod lleol i gyfrif am 7.2% o fynychwyr wyneb yn wyneb a 21.8% o fynychwyr digidol. Roedd amgueddfeydd annibynnol i gyfrif am 15.1% o fynychwyr wyneb yn wyneb a 31.3% o fynychwyr digidol.

## Tabl 3.45: Datganiadau Ystod Cyfartalog - Dysgu Ffurfiol ac Anffurfiol yn ôl math o lywodraethu[1]

| Math | Dysgu Ffurfiol | Dysgu Anffurfiol |
|---|---|---|
| Annibynnol | 2.90 | 3.03 |
| Awdurdod Lleol | 4.03 | 3.83 |
| Cenedlaethol | 6.00 | 6.00 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 3.75 | 3.50 |
| Prifysgol | 4.67 | 4.67 |
| **Cyfartaledd cyffredinol** | **3.67** | **3.64** |

Ffynhonnell: C11 a C13 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Dewiswch y datganiad ystod sy'n cyd-fynd ac yn disgrifio orau eich amgueddfa'.

## Tabl 3.46: Datganiadau Ystod Cyfartalog - Dysgu Ffurfiol ac Anffurfiol yn ôl maint amgueddfa[1]

| Maint | Dysgu Ffurfiol | Dysgu Anffurfiol |
|---|---|---|
| Mawr | 4.44 | 4.25 |
| Canolig | 4.50 | 4.38 |
| Bach | 2.93 | 3.02 |

Ffynhonnell: C11 a C13 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Dewiswch y datganiad ystod sy'n cyd-fynd ac yn disgrifio orau eich amgueddfa'.

Adroddodd pob amgueddfa yn yr arolwg eu bod yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol yn unol â gofynion safon achrediad. Mae darpariaeth ddysgu amgueddfa yn raddadwy yn y safon (h.y. byddai disgwyl i amgueddfa fawr gynnig darpariaeth fwy nac amgueddfa lai) ac adlewyrchir hyn yn sgorau'r amgueddfeydd yn y sampl.

Mae amgueddfeydd mawr a chanolig yn sgorio eu hunain ychydig yn uwch na'u darpariaeth dysgu ffurfiol o'i gymharu â darpariaeth dysgu anffurfiol. Mae gan amgueddfeydd bach ac amgueddfeydd annibynnol sgôr is ar gyfer dysgu ffurfiol yn hytrach nac anffurfiol. Gallai hyn berthyn i'w capasiti is o ran gweithlu a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer a gwasanaethu grwpiau dysgu ffurfiol.

Rhoddwyd cyfle i'r amgueddfeydd ddiffinio a monitro data dysgu ffurfiol ac anffurfiol gan ddefnyddio eu systemau mewnol eu hunain. Gallai'r mesurau hyn amrywio o gyfrif cofnodion yn nyddiadur amgueddfa hyd at ddefnyddio dadansoddeg i gasglu ymgysylltiad digidol. Bydd y cyfansymiau rhifiadol a ddarperir gan ymatebwyr yn cael eu dylanwadu gan y system gyfrif ar waith. Mae'r ffigurau a ddarperir ar gyfer mynediad digidol at sesiynau ffurfiol ac anffurfiol gan AC-MW yn cynnwys gweithdai rhithiol a gyflenwyd a nifer yr adnoddau dysgu a lawrlwythwyd. Mae'n annhebygol y bydd gan ymatebwyr eraill y gallu i gasglu ac adrodd ar ddata tebyg. Dylid gwneud cymhariaethau rhwng gwahanol amgueddfeydd â gofal ac ymwybyddiaeth nad oes dull safonol ar hyn o bryd ymhlith amgueddfeydd Cymru i ddiffinio, categoreiddio a chasglu sesiynau dysgu.

## Tabl 3.47: Cymharu darpariaeth dysgu Sbotolau 2024 yn erbyn Sbotolau 2020 a Sbotolau 2022[1]

Nifer


| | 2019 | 2022 | 2024 | Adfer |
|---|---|---|---|---|
| Sesiynau Ffurfiol | 10,115 | 5,378 | 11,235 | 111% |
| Cyfranogwyr Ffurfiol | 274,306 | 156,953 | 209,863 | 77% |
| Sesiynau Anffurfiol | 19,117 | 1,989 | 2,374 | 12% |
| Cyfranogwyr Anffurfiol | 590,402 | 133,168 | 311,445 | 53% |
| Pob sesiwn | 29,232 | 7,367 | 13,609 | 47% |
| Yr holl gyfranogwyr | 864,708 | 290,121 | 521,308 | 60% |
| Sefydliadau Dysgu Ffurfiol yr ymgysylltwyd â hwy | 3,623 | 2,790 | 3,337 | 92% |

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2019 a 2022 a ddarparwyd gan LIC a C9 a C10 arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd cwestiynau ychydig yn wahanol yn 2019 o'i gymharu â 2022/24. I wneud iawn am hyn, mae ffigurau 2019 yn ffigurau ar y safle ac oddi ar y safle wedi'u cyfuno. Mae ffigurau 2022/24 yn ffigurau wyneb yn wyneb a digidol wedi'u cyfuno. Dim ond y sefydliadau hynny (n52) a atebodd y ddau arolwg sydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn fel y gellir defnyddio'r data at ddibenion cymharu.

Roedd nifer y sesiynau dysgu ffurfiol a gyflenwyd gan amgueddfeydd a ymatebodd yn rhagori ar lefelau cyn-Covid. Yn 2024 roedd sesiynau dysgu ffurfiol yn gwneud cyfanswm o 111% o ffigurau 2019. Mae nifer y sefydliadau dysgu ffurfiol yr ymgysylltwyd â hwy gan amgueddfeydd wedi cyrraedd 92% o ffigurau 2019. Mae nifer y cyfranogwyr mewn sesiynau dysgu ffurfiol ar 77% o ffigurau 2019. Mae cyfranogiad anffurfiol ar ychydig dros hanner (53%) o lefel cyn-Covid 2019. Yn 2024, cafodd 2,374 o sesiynau dysgu anffurfiol eu cynnig o'i gymharu â 19,117 yn 2019. Nid oes mesur safonol ar gyfer diffinio neu gasglu data ar ddarpariaeth dysgu anffurfiol. Gallai newidiadau mewn ffigurau dros y cyfnodau amser adlewyrchu newidiadau wrth gasglu data yn hytrach na newidiadau yn y ddarpariaeth addysgol a gynigiwyd.


## Ffigur 3.20: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.20: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.17

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LlC a C11 arolwg Sbotolau 2024

## Ffigur 3.21: Newid datganiad ystod dysgu ffurfiol dros amser yn ôl maint




Disgrifiad Ffigur 3.21: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.18


Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LlC a C11 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad o ran ymgysylltu gyda'r sector dysgu ffurfiol. Byddai sgôr o 3 yn awgrymu bod yr amgueddfeydd yn rhoi rhywfaint o gymorth i

grwpiau addysgol a bod darpariaeth wedi deillio o rywfaint o ymgynghori. Mae sgorau uwch yn awgrymu bod llwyddiant yn cael ei fesur, a bod arbenigedd addysgol wedi llywio'r ddarpariaeth.

Ymddengys bod y datganiad ystod a oedd yn gysylltiedig â dysgu ffurfiol yn gyson â 2022 ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol. Adroddir ar gynnydd yn y lefel a adroddir cyfartalog gan amgueddfeydd Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan symud o 2.86 i 3.75 ac amgueddfeydd awdurdod lleol o 3.72 i 4.03. Mae sgorau amgueddfeydd annibynnol wedi cwympo o 3.06 i 2.90. Gallai darlun tebyg o sgorau cynyddol ar gyfer amgueddfeydd o faint canolig a sgorau gostyngol ar gyfer amgueddfeydd bach adlewyrchu goruchafiaeth amgueddfeydd awdurdod lleol yn y categori canolig ac amgueddfeydd annibynnol yn y categori bach.


### Ffigur 3.22: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.22: Graff llinell yn dangos data a gyflwynir yn nhabl C.19

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C13 arolwg Sbotolau 2024

### Ffigur 3.23: Newid datganiad ystod dysgu anffurfiol dros amser yn ôl maint




Disgrifiad o Ffigur 3.23: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.20

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C13 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad o ran ymgysylltu gyda'r sector dysgu anffurfiol. Byddai sgôr o 3 yn awgrymu bod yr amgueddfa wedi darparu rhywfaint o weithgareddau dysgu fel ffeithlenni, digwyddiadau neu becynnau astudio, mae sgorau uwch yn awgrymu bod digwyddiadau'n cael eu trefnu'n rheolaidd, a bod arbenigedd addysgol wedi llywio darpariaeth.

Mae cynnydd yn y sgôr datganiad ystod dysgu anffurfiol yn amgueddfeydd prifysgol o 3 i 4.67 er 2022. Roedd y sgorau yn weddol statig yn y categorïau amgueddfeydd eraill.

Yn unol â sgorau dysgu ffurfiol (ffig 3.21) mae amgueddfeydd maint canolig wedi adrodd ar gynnydd o 3.87 i 4.38 er mae'n ymddangos nad oes cydberthynas â math o lywodraethu.

Cynigiodd y cwestiynau testun rhydd (Ffynhonnell: C9a, C12a arolwg Sbotolau 2024) gyfle i ymatebwyr ychwanegu sylwadau i ychwanegu at y data rhifiadol a ddarparwyd mewn ymateb i gwestiynau am ddarpariaeth dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Roedd ymatebion yn perthyn i ddysgu ffurfiol a adroddwyd ar ystod o weithgareddau er ymweliadau ysgol oedd y rhai a grybwyllwyd amlaf. Nodwyd cyfnodau o gau a diffyg staff arbenigol fel rhwystrau at gyflenwi dysgu ffurfiol. Nododd ymatebwyr nad oedd eu diffyg capasiti yn gymesur â diffyg galw "Rydym yn profi anawsterau â'r capasiti ar gyfer darpariaeth dysgu ffurfiol, ond mae galw mawr amdano. Er mwyn bodloni'r galw, rhaid i ni sicrhau cyllid ar gyfer swyddog addysg, y llwyddom i wneud hynny ar gyfer rhai sesiynau yn ystod eleni. Mae'r galw yn fwy na'n capasiti fel amgueddfa annibynnol heb gyllid craidd."

Roedd ymatebion yn ymwneud â dysgu anffurfiol yn adrodd ar faterion capasiti, "Nid ydym yn ymroi i hyrwyddo sesiynau dysgu anffurfiol oherwydd diffyg capasiti staff", boed hynny'n staffio neu ffocws gwasanaeth ar ailddatblygiadau ffisegol. Er hynny, mae amgueddfeydd wedi creu cyfleoedd ar gyfer "ymweliadau grŵp dysgu anffurfiol hunanarweiniol, wedi'i hwyluso ac wedi'i arwain gan bartner". Nododd amgueddfeydd gryfderau hefyd yn ymwneud ag unigolion craidd i gefnogi ymweliadau "Rydym yn ffodus bod gennym fynediad at nifer o athrawon dwyieithog sydd wedi ymddeol sy'n cynorthwyo gyda'r ymweliadau hyn". Bu rhai amgueddfeydd yn llwyddiannus wrth ddenu cyllid ychwanegol i "gyflenwi rhaglen o weithgareddau trwy gydol y flwyddyn ar gyfer plant a theuluoedd ac wrth agor Mannau Cynnes bob penwythnos yn ystod cyfnod cau tymhorol arferol yr amgueddfa". Crybwyllodd yr amgueddfeydd yn benodol Y Gronfa Ffyniant Gyffredin wrth gefnogi rolau dros dro sydd wedi cefnogi dysgu ac ymgysylltu. “Ers 2024 mae arian Ffyniant Gyffredin yn talu am swyddog dros dro yn y maes yma”

Adrodda amgueddfeydd am heriau wrth ymgysylltu ag ysgolion, hyd yn oed wrth gael eu cefnogi'n weithredol gan eu hawdurdod lleol. Roedd adroddiadau yn cynnwys yr isod: "y llynedd (2024) trefnodd yr awdurdod lleol arddangosfa addysgol wedi'i anelu at ysgolion lleol lle cafodd amryw sefydliadau gan gynnwys ni ein hunain eu gwahodd i fynych i ddangos yr hyn a oedd gennym i'w gynnig, serch hynny o blith ryw 25 o ysgolion yn yr ardal [awdurdod lleol] ni fynychodd dim mwy na ryw 6 i 7 o staff addysgu gyda 2 ohonynt o'r un ysgol ac er inni gael sawl ymholiad yn ymwneud ag ymweliadau daeth dim ohonynt." "Er COVID, hyd yn oed gyda phecynnau addysg wedi'u hadnewyddu a marchnata uniongyrchol, rydym wedi ei chael hi'n anodd dod â grwpiau ysgol yn ôl i'r safleoedd. Mae hyn yn deillio'n bennaf o gostau a thrafnidiaeth ar gyfer yr ysgolion".

Mae'r niferoedd a adroddwyd o sesiynau dysgu yn paentio darlun o broffil gweithredol o wasanaethau yn ategu at ddarpariaeth addysgol ar draws Cymru. Serch hynny, mae'r testun rhydd yn datgelu o dan y ffigurau hyn bod amgueddfeydd yn pryderu am eu capasiti i barhau i gyflenwi eu rhaglenni addysgol gyda materion capasiti yn ymwneud â staffio a seilwaith a pharodrwydd neu allu ysgolion i ymgysylltu.

## Tabl 3.48: Nifer yr amgueddfeydd sy'n defnyddio Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Creadigol UCL yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer

| Math | Ydy | Nac oes | Gwelliant? |
|---|---|---|---|
| Annibynnol | 1 | 39 | 1 |
| Awdurdod Lleol | 6 | 24 | 6 |
| Cenedlaethol | 7 | 0 | 7 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 1 | 3 | 1 |
| Prifysgol | 1 | 2 | 1 |

Ffynhonnell: C14 a C14a Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A ydych chi wedi defnyddio pecyn cymorth mesurau Llesiant Creadigol UCL i fesur effaith gwaith eich amgueddfa ar lesiant?'. Roedd cwestiwn ategol yn gofyn, 'Wnaeth eich canlyniadau ddangos cynnydd mewn llesiant?'.

Defnyddir y pecyn cymorth mesurau Llesiant Creadigol UCL yn gyson yn yr amgueddfeydd cenedlaethol ond niferoedd isel sy'n ei ddefnyddio yn amgueddfeydd awdurdod lleol ac annibynnol. Roedd yr holl amgueddfeydd hynny sydd wedi defnyddio'r pecyn cymorth yn gallu cyflwyno tystiolaeth o gynnydd yn llesiant cyfranogwyr. Awgryma sylwadau o'r amgueddfeydd hynny sydd wedi defnyddio'r pecyn cymorth ei bod hi'n gyffredin bod rhwng 16 a 26 pwynt canran o welliannau mewn llesiant yn cael eu hadrodd ar gyfer cyfranogwyr gweithgareddau yn yr amgueddfa. Roedd yr ymatebion yn cynnwys datganiadau megis 'Fel cyfartaledd cyfunol, gwellodd llesiant ymwelwyr gan 20%' a 'cymerodd ysgolion y ddwy ysgol ran mewn dau brosiect hirdymor ar wahân gyda'r amgueddfa a dangosodd y canlyniadau gynnydd mewn llesiant ar 16% a 20% yn y drefn honno'. Nododd un ymatebydd bod rhai ymwelwyr gyda dementia yn gweld y cwestiynau yn anodd eu hateb.

## 3.10. Cydraddoldeb Amrywiaeth Cynhwysiant

### Tabl 3.49: Darpariaeth arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau yn targedu cymunedau penodol yn ôl math o lywodraethu [1]

Nifer

| | Annibynnol | Awdurdod Lleol | Cenedlaethol | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Prifysgol | **Cyfanswm** | **Canran** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ailbennu Rhywedd | 2 | 4 | 0 | 2 | 0 | **8** | **10%** |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 4 | 10 | 7 | 2 | 0 | **23** | **27%** |
| Merched | 10 | 8 | 7 | 1 | 3 | **29** | **35%** |
| Crefydd neu Gred | 3 | 4 | 7 | 2 | 1 | **17** | **20%** |
| Anabledd | 8 | 9 | 7 | 3 | 1 | **28** | **33%** |
| Hil neu ethnigrwydd | 7 | 14 | 7 | 1 | 1 | **30** | **36%** |
| Oedran - Cyffredinol | 11 | 17 | 7 | 1 | 2 | **38** | **45%** |
| Oedran - Pobl hŷn (60+) | 15 | 15 | 7 | 2 | 1 | **40** | **48%** |
| Oedran (0 - 5 mlwydd oed) | 12 | 18 | 7 | 2 | 2 | **41** | **49%** |
| Oedran - Pobl ifanc (16-25) | 10 | 19 | 7 | 3 | 2 | **41** | **49%** |
| Siaradwyr Cymraeg | 12 | 12 | 7 | 3 | 2 | **36** | **43%** |
| Priodas / Partneriaeth Sifil | 1 | 5 | 0 | 2 | 0 | **8** | **10%** |
| Beichiogrwydd / mamolaeth | 1 | 3 | 0 | 1 | 0 | **5** | **6%** |
| Cyn-ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf | 6 | 6 | 7 | 2 | 1 | **22** | **26%** |
| Pobl â dementia | 13 | 11 | 7 | 4 | 0 | **35** | **42%** |
| Cymuned Sipsiwn, Roma, Teithwyr | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | **4** | **5%** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | 5 | 1 | 0 | 0 | 1 | **7** | **8%** |

Ffynhonnell: C15 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Ers arolwg Sbotolau 2022 a ydych chi wedi darparu arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau a oedd wedi'u targedu at unrhyw un o'r cymunedau a ganlyn?' a gofynnwyd iddynt roi tic ym mhob un a oedd yn berthnasol o'r tabl uchod.

Mae amrywiaeth eang o ddarpariaeth wedi'i thargedu ar draws ymatebwyr yr arolwg ar gyfer cynulleidfaoedd â nodweddion gwarchodedig. Digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar oedran (pobl ifanc a phobl hŷn), siaradwyr Cymraeg a phobl sy'n byw gyda dementia yw'r mwyaf cyffredin. Y meysydd a gafodd eu targedu'n llai cyson yn y rhaglennu oedd cymunedau Sipsi/Roma, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Priodas ac Ailbennu Rhywedd.  Mae'r cyffredinolrwydd hwn yng ngweithgareddau amgueddfeydd yn cyd-fynd â chynrychiolaeth yng ngweithredoedd polisi fel yr adroddir yn nhabl 3.49.

Ar gyfer digwyddiadau eraill wedi'u targedu, crybwyllodd ymatebwyr blant, myfyrwyr sy'n gysylltiedig ag amgueddfeydd prifysgol, pobl ag anawsterau dysgu ac amgylcheddwyr. Nododd mwy nac un amgueddfa bod eu harddangosfeydd yn gynhwysol ar y cyfan ac 'ar gael i bob ymwelydd'.

Adroddodd dwy ar bymtheg o'r 84 amgueddfa a ymatebodd nad oeddynt wedi darparu unrhyw arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau yn targedu cymunedau penodol ers arolwg 2022.

## Tabl 3.50: Nifer yr amgueddfeydd sydd wedi cynnal archwiliad mynediad ffurfiol yn ôl math o lywodraethu[1]

Nifer


| Math | Ydy | Nac oes | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Annibynnol | 15 | 22 | 3 |
| Awdurdod Lleol | 15 | 12 | 3 |
| Cenedlaethol | 7 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 4 | 0 | 0 |
| Prifysgol | 0 | 3 | 0 |

Ffynhonnell: C16 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Ers arolwg Sbotolau 2022 a yw'r amgueddfa wedi cynnal archwiliad mynediad gydag adroddiad ffurfiol ac argymhellion?' a gofynnwyd iddynt roi un o'r ymatebion yn y tabl uchod.

Adroddodd gyfanswm o 41 amgueddfa eu bod wedi cynnal archwiliad mynediad ers 2022, nid oedd 37 wedi cynnal un a 6 ddim yn gwybod. Roedd yr amgueddfeydd cenedlaethol i gyd wedi cynnal archwiliad mynediad diweddar. Yn y sector amgueddfeydd annibynnol, roedd mwy o amgueddfeydd nad oeddynt wedi cynnal archwiliad mynediad yn y ddwy flynedd ddiwethaf nac oedd wedi cynnal un. Roedd nifer gyfartal o amgueddfeydd awdurdod lleol wedi cynnal archwiliad mynediad ffurfiol â'r rheini a oedd yn adrodd nad oeddynt yn gwybod neu heb gynnal un.


### Ffigur 3.24: Newid datganiad ystod arddangos dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.24: Llinell graff yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.21

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LlC a C17 arolwg Sbotolau 2024

### Ffigur 3.25: Newid datganiad ystod arddangos dros amser yn ôl maint yr amgueddfa




Disgrifiad o Ffigur 3.25: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.22

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LlC a C17 arolwg Sbotolau 2024


Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad wrth ddarparu arddangosfeydd. Byddai sgôr o 3 yn arwydd bod gan yr amgueddfeydd arddangosfa, gan gynnwys arddangosfeydd dros dro. Mae sgorau uwch yn dangos bod yr amgueddfa wedi adnewyddu'r arddangosfeydd yn ystod y deng mlynedd diwethaf ac wedi defnyddio gwerthusiad crynodol a ffurfiannol i'w datblygu.

Y prif feysydd gwelliant er 2022 yw amgueddfeydd maint canolig ac amgueddfeydd awdurdod lleol.

Byddai'r gofynion i amgueddfeydd hunanasesu cynnydd datganiad ystod o sgôr o bedwar i bump yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf mawr gan fod gofyn i o leiaf 10% o arddangosfeydd gael eu hadnewyddu yn y 10 mlynedd ddiwethaf.

Dengys y sgôr ar gyfer amgueddfeydd prifysgol gynnydd er 2022. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hwn fel tuedd o ystyried maint sampl tair amgueddfa yn 2024 sydd i'w gymharu â phedair amgueddfa yn 2022.


### Ffigur 3.26: Newid datganiad ystod mynediad dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.26: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.23

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C18 arolwg Sbotolau 2024

## Ffigur 3.27: Newid datganiad ystod mynediad dros amser yn ôl maint yr amgueddfa




Disgrifiad o Ffigur 3.27: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.24

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C18 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad wrth roi mynediad i bobl gydag anableddau corfforol, synhwyrol, dysgu a gwybyddol. Byddai sgôr o 3 yn awgrymu bod yr amgueddfa wedi defnyddio rhestr wirio archwilio gydnabyddedig, bod mentrau i oresgyn rhwystrau mynediad wedi'u nodi, a bod o leiaf un aelod o staff wedi cael hyfforddiant priodol. Mae sgorau uwch yn awgrymu bod yr amgueddfa'n ymgynghori â defnyddwyr anabl a phobl nad ydynt yn ddefnyddwyr, wedi cynnal archwiliad mynediad llawn, a'i bod rhoi ei argymhellion ar waith.

Mae'r duedd gyffredinol gan amgueddfeydd o bob maint yn statig ar y cyfan. Nid oes yr un math o lywodraethu amgueddfa wedi newid o un lefel datganiad ystod i un arall ers Sbotolau 2022.

Nid oes yr un categori maint amgueddfa wedi newid o un lefel datganiad ystod i un arall. Ni ddylid gor ddehongli amrywiadau mewn data.

## Tabl 3.51: Nifer yr amgueddfeydd sy'n cynnal camau cysylltiedig â chydraddoldeb a chynhwysiant[1]

Nifer

| | Dim Hyd Yma | Digwyddiadau ad hoc | Eitemau a nodwyd yn strategaeth a dogfen gynllunio'r amgueddfa | Cynllun gweithredu E&I yn cael ei ddatblygu | Cynllun gweithredu E&I wedi'i greu ac yn cael ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | 20 | 7 | 6 | 6 | 2 |
| Awdurdod Lleol | 4 | 16 | 17 | 4 | 4 |
| Cenedlaethol | 0 | 7 | 7 | 0 | 7 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 0 | 3 | 2 | 3 | 0 |
| Prifysgol | 1 | 2 | 2 | 1 | 0 |

Ffynhonnell: C48 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Pa weithgareddau ydych chi wedi'u cynnal i wella'ch camau cysylltiedig â Chydraddoldeb a Chynhwysiant (E&I)?' a gofynnwyd iddynt roi tic ym mhob un sy'n berthnasol o'r penawdau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl.

Y tu hwnt i'r amgueddfeydd cenedlaethol dim ond niferoedd bach o amgueddfeydd awdurdod lleol (n4) ac annibynnol (n2) sydd â chynllun cydraddoldeb a chynhwysiant gweithredol sy'n cael ei weithredu. Er bod llawer o amgueddfeydd yn adrodd ar weithgaredd i ddatblygu cynllun neu i gynnwys gwaith yn nogfennau cynllunio ehangach yr amgueddfa, awgryma data y byddai angen ffocws ar amgueddfeydd annibynnol ac awdurdod lleol i ddatblygu gweithgareddau a chynlluniau gweithredu E&I a all ddangos rhaglen weithredu gyson.

## Tabl 3.52: Cydraddoldeb a chynhwysiant o fewn polisïau a chynlluniau[1]

Nifer

| | Annibynnol | Awdurdod Lleol | Cenedlaethol | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Prifysgol | **Cyfanswm** | **Canran** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ailbennu Rhywedd | 5 | 8 | 0 | 2 | 1 | **16** | **19%** |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 6 | 17 | 7 | 3 | 1 | **34** | **40%** |
| Merched | 10 | 16 | 7 | 2 | 2 | **37** | **44%** |
| Crefydd neu Gred | 4 | 6 | 7 | 2 | 1 | **20** | **24%** |
| Anabledd | 22 | 22 | 7 | 4 | 2 | **57** | **68%** |
| Hil neu ethnigrwydd | 11 | 19 | 7 | 2 | 2 | **41** | **49%** |
| Oedran - Cyffredinol | 9 | 18 | 0 | 1 | 2 | **30** | **36%** |
| Oedran - Pobl hŷn (60+) | 13 | 15 | 0 | 1 | 2 | **31** | **37%** |
| Oedran (0 - 5 mlwydd oed) | 8 | 16 | 0 | 1 | 2 | **27** | **32%** |
| Oedran - Pobl ifanc (16-25) | 8 | 19 | 7 | 2 | 1 | **37** | **44%** |
| Siaradwyr Cymraeg | 14 | 21 | 7 | 4 | 2 | **48** | **57%** |
| Priodas / Partneriaeth Sifil | 3 | 8 | 0 | 2 | 1 | **14** | **17%** |
| Beichiogrwydd / mamolaeth | 3 | 5 | 0 | 2 | 1 | **11** | **13%** |
| Cyn-ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf | 6 | 7 | 7 | 2 | 2 | **24** | **29%** |
| Pobl â dementia | 11 | 14 | 7 | 3 | 1 | **36** | **43%** |
| Cymuned Sipsiwn, Roma, Teithwyr | 2 | 4 | 7 | 1 | 1 | **15** | **18%** |
| Arall | 7 | 0 | 7 | 1 | 1 | **16** | **19%** |

Ffynhonnell: C49 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A ydych chi wedi cynnwys camau yn ymwneud â chynhwysiant, cydraddoldeb, a chael gwared ar rwystrau y mae'r cymunedau a ganlyn yn eu hwynebu ym mholisïau a chynlluniau eich sefydliad?' a gofynnwyd iddynt roi tic ym mhob un perthnasol o'r tabl uchod.

Y cymunedau sydd wedi gweld y nifer uchaf o amgueddfeydd yn cymryd camau polisi i gael gwared ar rwystrau at gydraddoldeb a chynhwysiant yw'r rheini ag anabledd a siaradwyr Cymraeg. Ar ôl y rhain y cymunedau a ystyrir amlaf nesaf yw'r rhai â nodweddion gwarchodedig megis hil, rhywedd a chenedl. Mae pobl â dementia a phobl ifanc (16-25 oed) yn ddwy gymuned nad ydynt yn rhai â nodweddion gwarchodedig penodol ond sydd wedi ymddangos yn ymron i hanner yr holl bolisïau a chynlluniau ar gyfer cynhwysiant. Y cymunedau sydd wedi'u cynrychioli lleiaf o fewn polisi yw beichiogrwydd a mamolaeth, priodas, a chymunedau sipsi a Roma. O fewn y sector amgueddfeydd bu gwaith eirioli cyson yn ymwneud â mentrau megis cyfeillion dementia ac amgueddfeydd yn sefydlu paneli ieuenctid. Gallai hyn esbonio eu cyffredinolrwydd cymharol o fewn polisi.

## Tabl 3.53: Nifer yr amgueddfeydd sy'n ymgysylltu â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol[1]

Nifer

| Math | Annibynnol | Awdurdod Lleol | Cenedlaethol | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Prifysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi arddangos ymrwymiad | 10 | 19 | 7 | 4 | 2 |
| Wedi cymryd camau | 17 | 21 | 7 | 4 | 2 |
| Wedi casglu data gwaelodlin | 6 | 9 | 7 | 4 | 2 |
| Wedi mabwysiadu recriwtio cadarnhaol | 7 | 4 | 7 | 4 | 2 |
| Wedi adolygu systemau | 5 | 10 | 7 | 3 | 1 |
| Wedi cyd-gynllunio digwyddiadau | 7 | 10 | 7 | 4 | 0 |
| Wedi adolygu casgliadau | 13 | 19 | 7 | 4 | 0 |
| Wedi ychwanegu gwrthrychau | 4 | 6 | 7 | 0 | 1 |
| Wedi cynnwys straeon | 5 | 10 | 7 | 2 | 0 |
| Wedi cynnwys straeon ac adnoddau addysgol | 6 | 8 | 7 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: C50 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A ydych chi wedi ymgymryd ag unrhyw un o'r camau a ganlyn a argymhellir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol?' a gofynnwyd iddynt roi tic ym mhob un sy'n berthnasol o'r penawdau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl.

Allwedd:

A: Wedi dangos ymrwymiad i wrth-hiliaeth yn eich llywodraethu
B: Wedi cymryd camau i greu amgylchedd gwaith cynhwysol
C: Wedi casglu data gwaelodlin ar amrywiaeth ethnig yn y gweithlu a'r tîm llywodraethu
D: Wedi mabwysiadu strategaethau recriwtio cadarnhaol ar gyfer grwpiau wedi'u tangynrychioli
E: Wedi adolygu systemau ar gyfer adrodd a delio â chwynion o wahaniaethu
F: Wedi cyd-gynllunio digwyddiadau, gweithgareddau, arddangosfeydd a/neu ddehongliad gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

G: Wedi adolygu'ch casgliadau i adnabod gwrthrychau perthnasol i adrodd straeon cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
H: Wedi ychwanegu gwrthrychau at eich casgliadau i gynrychioli cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
I: Wedi cynnwys straeon o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eich dehongliad (arddangosfeydd ac orielau parhaol)
J: Wedi cynnwys straeon o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eich rhaglen ddysgu ac adnoddau addysgiadol

Roedd yr holl amgueddfeydd cenedlaethol wedi ymgysylltu ag ARWAP ar draws yr holl feysydd a restrir. Ar gyfer pob math arall o sefydliad y cam mwyaf cyffredin i'w gwblhau oedd 'Wedi cymryd camau i greu amgylchedd gwaith cynhwysol'. Y cam lleiaf cyffredin i'w gymryd oedd 'Wedi ychwanegu gwrthrychau at eich casgliadau i gynrychioli cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol' ar draws pob math o lywodraethu, er ar gyfer amgueddfeydd awdurdod lleol y gweithgaredd lleiaf cyffredin oedd 'Wedi mabwysiadu strategaethau recriwtio positif ar gyfer grwpiau wedi'u tangynrychioli'. Gallai'r canfyddiadau hyn adlewyrchu statws storfeydd fel rhai wedi'u gorlenwi a chyfyngiad amgueddfeydd awdurdod lleol i osod eu polisïau recriwtio eu hunain.

### Tabl 3.54: Nifer y staff a gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith mewn amgueddfeydd yn ôl math o lywodraethu[1]

Y cant

| | Gwirfoddolwyr | Ymddiriedolwr | Staff |
|---|---|---|---|
| Annibynnol | 17% | 23% | 38% |
| Awdurdod Lleol | 20% | 67% | 20% |
| Cenedlaethol[2] | 3% | 0% | 35% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol[2] | 5% | 0% | 5% |
| Prifysgol | 12% | 0% | 13% |
| **Cyfanswm** | **10%** | **25%** | **28%** |

Ffynhonnell: C29b Arolwg Sbotolau 2024. Sylfaen (n84)

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Faint o bobl sy'n siaradwyr Cymraeg (rydym yn diffinio hyn fel gallu cyrchu cyfleusterau a gwasanaethau yn Gymraeg)?'. Ar gyfer ymatebion gan AC-MW cafodd hyn ei fapio i lefel sylfaen A2.

[2] Nid oedd y wybodaeth ar gyfer ymddiriedolwyr cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer AC-MW ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae'r ystadegau swyddogol o'r arolwg poblogaeth blynyddol yn awgrymu bod 26.9% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Awgryma'r ffigurau hyn bod siaradwyr Cymraeg ymhlith staff ac Ymddiriedolwyr yn gyffredinol yr un peth â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae data arolwg poblogaeth blynyddol hefyd yn dangos bod siaradwyr Cymraeg yn gostwng gydag oed a allai yn rhannol esbonio'r data ar gyfer gwirfoddolwyr y mae amgueddfeydd yn draddodiadol yn eu tynnu o grwpiau oed hŷn.

## 3.11. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Atebodd dwy ar bymtheg o amgueddfeydd eu bod wedi cynnal asesiad carbon (C46).

Gofynnwyd i amgueddfeydd adrodd ar gyfrifianellau carbon a ddefnyddiwyd a'u canlyniadau. Y dulliau a adroddwyd yn gyffredin oedd tystysgrif ynni i'w harddangos (DEC), pecynnau cymorth mewnol (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), yn ganolog trwy arbenigwyr cyngor, ac archwiliadau ynni wedi'u cynnal gan ymgynghorwyr annibynnol a argymhellwyd trwy sefydliad Julie's bicycle. O ganlyniad i gynnal yr archwiliadau hyn adroddodd 3 amgueddfa bod yr argymhellion wedi'u defnyddio i hysbysu cais grant cyfalaf trawsnewid llwyddiannus i Lywodraeth Cymru. Adnabu ymatebwyr gamau a gymerwyd hefyd i ostwng effaith carbon. Dim ond tri ymatebydd oedd yn gallu adnabod cyfanswm nifer y tunnelli o allyriadau carbon o'u gweithgareddau. Gallai hyn ddod yn faes blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth.

### Tabl 3.55: Lefelau risg i amgueddfeydd o lifogydd[1]

Y cant[2]

| | Llifogydd o afonydd | Llifogydd o'r môr | Llifogydd o ddŵr wyneb / cyrsiau dŵr bach |
|---|---|---|---|
| Risg isel iawn | 76.2% | 82.1% | 53.6% |
| Risg isel | 8.3% | 9.5% | 29.8% |
| Risg ganolig | 2.4% | 4.8% | 6.0% |
| Risg uchel | 13.1% | 3.6% | 10.7% |

Ffynhonnell: C47 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A ydych chi wedi gwirio perygl o lifogydd ar gyfer cod post holl safleoedd eich amgueddfa?'. Darparwyd data gan ddefnyddio cyfrifiannell perygl llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

[2] Y ffigur yw canran yr ymatebwyr sy'n disgyn i'r categori perygl hwnnw.

Mae'r ymatebion yn nodi bod 15.5% o amgueddfeydd ar berygl canolig neu uwch o lifogydd o afonydd, gyda bron i 17% wrth berygl canolig neu uwch o lifogydd o ddŵr wyneb neu gyrsiau dŵr bach. O ystyried effaith bosibl llifogydd ar amgueddfeydd, dylai meddu ar gynlluniau trychinebau ar waith gydag ystyriaethau penodol ar gyfer rheoli risg llifogydd fod yn flaenoriaeth i'r sefydliadau hyn.

## 3.12. Partneriaethau

### Tabl 3.56: A ofynnwyd i'r amgueddfa gyflenwi data i'w Hawdurdod Lleol / corff cyhoeddus fel rhan o adrodd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?[1]

| Math | Ydy | Nac oes |
|---|---|---|
| Annibynnol | 0 | 40 |
| Awdurdod Lleol | 11 | 19 |
| Cenedlaethol | 7 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 0 | 4 |
| Prifysgol | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **18** | **66** |

Ffynhonnell: C51 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A ofynnwyd i chi gyflenwi data i'ch Awdurdod Lleol/corff cyhoeddus fel rhan o adrodd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?'.

Mae amgueddfeydd yng Nghymru yn gweithio tuag at fynd i'r afael â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws llawer o'u gweithgareddau. Mae croesgyfeirio i'r Ddeddf yn ofyniad yng ngrantiau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ac mae'r ymatebion testun rhydd i C51 lle gofynnwyd i amgueddfeydd roi enghreifftiau o adrodd yn dangos i rai amgueddfeydd bod hyn yn arfer cyffredin. Ymhlith y dyfyniadau oedd, "rhaid i'r holl adroddiadau i'r cabinet ddangos sut ydym yn bodloni'r ddeddf" a "Darparwyd ar gyfer Cynllun Gwasanaeth Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor [enw]; darparwyd fel rhan o Adolygiad Buddsoddiad / Cynllun Busnes cyfredol ACW". Mae AC-MW yn gorff a enwir yn y ddeddf ac mae "Amgueddfa Cymru wedi rhoi mewnbwn i ddatblygu amcanion llesiant PSP." Mae dulliau ffurfiol ar waith i adrodd ar ddata o 7 safle AC-MW. Mae 11 amgueddfa awdurdod lleol ychwanegol yn darparu data ar gyfer adrodd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae 19 amgueddfa awdurdod lleol pellach nad ydynt yn adrodd ac nid oes unrhyw un o'r mathau llywodraethu amgueddfa eraill yn cyfrannu data sy'n awgrymu bod angen gwaith o hyd i gau'r bwlch rhwng y gweithgaredd ac adrodd ar y data.

## Tabl 3.57: Math o wasanaethau a ddarperir gan AC-MW a ddefnyddiwyd yn ôl math o lywodraethu[1]

Y cant

| | Annibynnol | Awdurdod Lleol | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Prifysgol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor cadwraeth | 25% | 40% | 100% | 33% | 35% |
| Gwasanaethau addysg | 10% | 10% | 0% | 0% | 9% |
| Gwybodaeth neu ymchwil | 13% | 20% | 25% | 0% | 16% |
| Cyngor casgliadau | 20% | 43% | 75% | 0% | 31% |
| Benthyciad gwrthrych | 30% | 50% | 50% | 33% | 39% |
| Cyngor diogelwch | 8% | 7% | 25% | 0% | 8% |
| Arall | 15% | 7% | 0% | 0% | 10% |

Ffynhonnell: C52 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a ganlyn a ddarperir gan AC-MW ers arolwg Sbotolau 2020?' a gofynnwyd iddynt roi tic wrth bob un sy'n berthnasol.

## Tabl 3.58: Nifer y gwasanaethau a ddarperir gan AC-MW a ddefnyddiwyd yn ôl math o lywodraethu[1]

| | Nifer o wasanaethau a ddefnyddiwyd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| Annibynnol | 33% | 40% | 10% | 15% | 0% | 0% | 3% |
| Awdurdod Lleol | 23% | 23% | 27% | 13% | 7% | 7% | 0% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 0% | 25% | 25% | 25% | 0% | 25% | 0% |
| Prifysgol | 67% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Cyfanswm** | **29%** | **31%** | **18%** | **14%** | **3%** | **4%** | **1%** |

Ffynhonnell: C52 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'A ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarperir gan AC-MW ers arolwg Sbotolau 2022?' a gofynnwyd iddynt roi tic ym mhob un sy'n berthnasol.

O'r ymatebion a ddarparwyd, mae 71% o amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol wedi defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan AC-MW, gyda hanner y rheini wedi defnyddio mwy nac un gwasanaeth. Benthyg gwrthrych, cyngor ar gadwraeth a chyngor ar gasgliadau yw'r gwasanaethau a ddefnyddir yn fwyaf rheolaidd. Mae dros 75% o amgueddfeydd awdurdod lleol a 67% o amgueddfeydd annibynnol wedi defnyddio'r gwasanaethau gyda llawer yn defnyddio gwasanaethau lluosog. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gyda'i chynghorwyr arbenigol ei hun, sydd lleiaf tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau.

## Tabl 3.59: A ydych chi wedi gweithio mewn partneriaeth gyda AC-MW yn ôl math o lywodraethu[1]

| Math | Ydy | Nac oes |
|---|---|---|
| Annibynnol | 8 | 32 |
| Awdurdod Lleol | 16 | 14 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 0 | 4 |
| Prifysgol | 1 | 2 |
| Cyfanswm | 25 | 52 |

Ffynhonnell: C53 Arolwg Sbotolau 2024

[1] Gofynnwyd i ymatebwyr 'Ydych chi wedi gweithio mewn partneriaeth gyda AC-MW (e.e. ar arddangosfeydd, prosiectau, digwyddiadau) ers arolwg Sbotolau 2022?'.

Adroddodd mwy na hanner amgueddfeydd awdurdod lleol a phumed o amgueddfeydd annibynnol eu bod wedi gweithio mewn partneriaeth gyda AC-MW. Nid oedd unrhyw amgueddfeydd prifysgol a dim ond un eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn adrodd am weithio mewn partneriaeth.

Mae amgueddfeydd eisiau gweithio mewn partneriaeth gyda AC-MW ar draws eu gweithgareddau gyda llawer o ymatebion i C5 testun rhydd 'Pa fath o gefnogaeth neu weithio mewn partneriaeth gyda AC-MW fyddai gennych ddiddordeb ynddynt?'. Roedd yr atebion yn cynnwys nifer o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'u rhestru yn nhabl 3.57. Mae amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol yn rhyngweithio ar draws ystod o wasanaethau. Mae presenoldeb AC-MW yn cael ei werthfawrogi p'un a yw'r gefnogaeth yn cael ei defnyddio'n weithredol ai peidio er enghraifft "Mae'n braf cael y tawelwch meddwl o wybod eu bod nhw yno pe bai eu hangen arnom."

Mae gwasanaethau arbenigol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr a gellir eu hesbonio gan faint llai cyffredinol yr amgueddfeydd nad ydynt yn genedlaethol a'r diffyg capasiti staff ac arbenigedd arbenigol yn y sefydliadau hyn. Amrywiodd yr atebion ar gyfer y mathau o wasanaethau y mae gan amgueddfeydd ddiddordeb ynddynt o'r "holl wasanaethau" cyffredinol i'r penodol "Ymchwil a hyfforddiant archif' neu 'Cyngor ar Gadwraeth; Gwasanaethau Addysg; Benthyg Gwrthrych; Cyngor ar Gasgliadau a Chyngor ar Ddiogelwch". Cafwyd ystod o ymatebion gan amgueddfeydd a ddefnyddiodd wasanaethau mwy traddodiadol megis "cyngor ar gadwraeth a chyngor ar gasgliadau arbenigol, e.e. astudiaethau natur' a'r rheini sy'n elwa o arfer museolegol modern megis 'cyd-greu prosiectau yn ymwneud â bywyd gwledig yng Nghanolbarth Cymru" neu "Ddatblygu adnoddau digidol ar gyfer grwpiau addysg."

Nododd ychydig o'r adrodd er bod ganddynt ddiddordeb mewn cefnogaeth gan AC-MW nid oeddynt wedi canfod llwybrau hyd yma i wneud hynny "Nid oeddwn yn sylweddoli fod Amgueddfa Cymru yn cynnig hyn hyd nes i mi ddarllen amdano uchod yn yr arolwg hwn. Hoffwn wybod pwy y gallaf gysylltu â nhw a pha lefel o gefnogaeth y gallent ei chynnig, yn enwedig gyda materion cadwraeth."  Nododd eraill nad oeddynt wedi cyrchu'r gefnogaeth


hyd yma ond yr hoffent wneud hynny "Ar brosiectau / arddangosfeydd ar y cyd." neu "Nid wyf yn ymwybodol o ba wasanaethau y byddai Amgueddfa Cymru yn gallu eu cynnig yn swyddogol".

Cafodd mentrau gweithio ar y cyd ar draws amgueddfeydd yng Nghymru eu cynrychioli yn yr ymatebion, yn enwedig rhwydwaith CELF (Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru) yn adrodd eu bod yn "rhan o rwydwaith orielau CELF ac wedi ceisio cefnogaeth AC o ran benthyciadau, cadwraeth a diogelwch fel rhan o hyn".

Gwnaeth ymatebwyr nodi casgliadau benthyg yn rheolaidd (n32) fel adnodd gwerthfawr i AC-MW y tu hwnt i arbenigedd staff. Mae'r gallu i gyrchu gwrthrychau o'r casgliadau cenedlaethol yn flaenoriaeth i lawer a fynegodd ddymuniad i 'gyrchu pethau lleol' a 'rhannu mwy o gasgliadau cenedlaethol o arwyddocâd o fewn ein hardal'. Denodd rai ymatebwyr sylw at y ffaith bod gwrthrychau yr oeddynt yn dymuno eu benthyca 'yn cael eu storio ar hyn o bryd' yn AC-MW.  Nododd ymatebwyr eraill yn gadarnhaol y 'byddent yn hoffi parhau â benthyciadau' gan AC-MW mewn arddangosfeydd parhaol a dros dro.

## 3.13. Polisi a chynllunio


### Ffigur 3.28: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio dros amser yn ôl math o lywodraethu




Disgrifiad o Ffigur 3.28: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.25.

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LIC a C45 arolwg Sbotolau 2024

## Ffigur 3.29: Newid datganiad ystod polisi a chynllunio dros amser yn ôl maint




Disgrifiad o Ffigur 3.29: Graff llinell yn dangos y data a gyflwynir yn nhabl C.26.

Ffynhonnell: Data Sbotolau o 2006 i 2022 a ddarparwyd gan LlC a C45 arolwg Sbotolau 2024

Mae'r datganiad ystod hwn yn casglu perfformiad mewn perthynas â darparu Blaengynllun i arwain gwaith amgueddfa. Mae sgôr o 3 yn awgrymu bod cynllun yn cynnwys datganiad o bwrpas, nodau ac amcanion allweddol, cynllun gwariant ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r flwyddyn ddilynol a pholisïau sy'n ymwneud ag o leiaf bedwar maes gweithredu. Mae sgorau uwch yn awgrymu bod cynlluniau'n cael eu llywio gan ymgynghori ac ymchwil y farchnad gan gynnwys dangosyddion perfformiad, gwybodaeth fanylach am y gyllideb, a meincnodi ac adolygu rheolaidd.

Ac eithrio amgueddfeydd cenedlaethol, mae'r holl amgueddfeydd wedi adrodd ar gynnydd yn sgorau datganiad ystod ar ba mor gyfredol a graddau eu cynhyrchiad a defnydd ar bolisïau a chynlluniau. Mae'r canlyniadau o amgueddfeydd cenedlaethol wedi gostwng.

Mae'r rhesymau y tu ôl i hyn yn gwarantu ymchwilio ymhellach gan fod y polisïau a'r cynlluniau hyn yn sail i arfer da ar draws ystod eang o waith amgueddfa. Nid yw'r datganiad ystod hwn yn mapio'n union â gofynion achredu, ond o bosibl gan ei bod hi'n gyfnod ôl-pandemig, ac ailsefydlu ffurflenni achredu, mae llawer o amgueddfeydd yn canolbwyntio ar ddogfennau polisi a chynllunio perthnasol sydd wedi arwain at y gwelliant hwn.

# 4. Adolygiad methodoleg gydag argymhellion ar gyfer casglu data yn y dyfodol

Mae'r arolwg Sbotolau wedi cael nifer o iteriadau ers ei sefydlu yn 2006. Mae pob iteriad yn darparu data gan yr ymatebwyr ac yn creu'r cyfle i ddysgu am y broses i wneud argymhellion ar gyfer casglu data yn y dyfodol. Mae'r argymhellion isod ar gyfer iteriadau yn y dyfodol yn dechrau gyda materion gweithredol ac yna'n symud i gynnwys yr arolwg. Dylid mynd i'r afael ag unrhyw newid yn y gwaith o reoli a chynnwys arolwg tymor hir gyda gofal a sylw dyledus rhwng manteision parhad yn erbyn gwelliant.

## 4.1. Amseriad yr arolwg

Gwnaeth ymatebwyr roi adborth ynghylch amseriad proses arolwg 2024. Er ei bod yn rhesymol amau na fyddai unrhyw amser yn berffaith, gellid ystyried yr arsylwadau canlynol wrth gynllunio yn y dyfodol. Adroddodd staff a oedd yn teimlo'u bod yn cael eu taenu'n denau bod llenwi arolygon yn yr un cyfnod ag y daeth grantiau sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gael y tu hwnt i'w capasiti. Cynghorir osgoi gwrthdaro â chynlluniau grant.

Ymatebodd y sector yn gadarnhaol i'r cyfnod penodol ers yr arolwg diwethaf gan barhau i fynegi y dylai'r arolwg gael ei ailadrodd bob dwy flynedd ar ddyddiad penodol.

## 4.2. Cronfa Ddata Cysylltiadau

Cododd rhai problemau arolwg o ddefnyddio cronfa ddata cysylltiadau, a gynhyrchwyd at ddibenion mewnol ar gyfer dosbarthu gwybodaeth gyffredinol a chyfathrebu achredu gan Lywodraeth Cymru. Mae profiad yr arolwg yn awgrymu sawl mater a allai atal dosbarthiad arolygon Sbotolau yn effeithiol. Mae'n anochel bod newid yn y gweithlu, felly bydd rhai anghywirdebau yn y gronfa ddata bob amser gan fod rolau a deiliaid swyddi wedi newid. Ymhellach, byddai rhai sefydliadau yn disgwyl i wahanol staff arwain ar achredu a ffurflen Sbotolau. Nid oedd ceisiadau bob amser yn cael eu bwydo trwodd i'r derbynnydd cywir mewn da bryd. Fe allai fod yn bosibl cyn rhyddhau arolwg Sbotolau yn y dyfodol i ofyn am gadarnhad gan amgueddfeydd am y cyfeiriad e-bost cyfredol gorau ar gyfer yr arolwg.

## 4.3. Newid Sefydliadol

Roedd sawl amgueddfa wedi profi newid sefydliadol sylweddol ers yr arolwg blaenorol. Gallai hyn fod wedi arwain at newid yn y strwythur llywodraethu, maint yr amgueddfa neu adnoddau ar gael. Roedd hi'n amlwg i ymchwilwyr bod un ffurf ar newid sefydliadol yn cael effaith sylweddol ar y data a gasglwyd. Y duedd oedd i amgueddfeydd awdurdod lleol gael eu had-drefnu mewn cysylltiad â gwasanaethau eraill. Lle'r oedd dau wasanaeth wedi uno, mae ganddynt gyllideb a niferoedd staffio cynyddol ac yn gweithredu ar ôl troed mwy. Cynyddodd gyfrifoldebau'r uned ond maen nhw'n aml yn cael eu rhannu gan aelodau staff. Er enghraifft, pe bai amgueddfa a llyfrgell yn uno safleoedd, byddai'r derbynnydd yn gwasanaethu'r amgueddfa a'r llyfrgell. Gan amlaf, cynrychiolodd gynnydd mewn adnoddau a lefelau staffio gyllideb fwy a mwy o staff ond cyfran lai o'r amser wedi'i neilltuo'n llwyr i

waith amgueddfa. Gellid ymchwilio i dadgyfuno amser ac adnoddau ond fe wnaeth ymatebwyr adrodd nad oedd gwybodaeth o'r fath ar gael yn rhwydd.

## 4.4. Datganiadau ystod

Casglwyd data am ddatganiadau ystod yn gyson trwy gydol oes yr arolwg ac er eu bod yn heriol mae'r sector yn gyfarwydd â nhw ac yn darparu'r gallu i fonitro tueddiadau trwy amser. Yn yr adolygiad hwn mae ymchwilwyr wedi adnabod bod y bwlch rhwng pwynt 5 a phwynt 6 ar ddatganiad ystod C17 yn ymwneud â mynediad trwy arddangosfeydd yn cynrychioli newid mwy sylweddol ac ymrwymiad ariannol sylweddol (adnewyddu o leiaf 25% o arddangosfeydd yn y 10 mlynedd ddiwethaf ar gyfer sgôr datganiad ystod 5 a 50% o arddangosfeydd ar gyfer sgôr datganiad ystod o 6) na meysydd datganiad ystod eraill. Gellid adolygu hyn cyn iteriad nesaf yr arolwg.

## 4.5. Geiriad

Yn C30, gofynnwyd i Ymatebwyr 'Gan gydnabod y gall pobl lenwi sawl rôl, faint o'r rolau uchod sy'n cael eu llenwi gan guraduron neu gadwraethwyr cymwys?'. Mae dadleuon proffesiynol am natur curadur neu warchodwr cymwys. Er y gallai rhai ddeall bod y termau hyn yn adlewyrchu teitlau proffesiynol ac addysg ffurfiol, efallai y gallai eraill ddeall hyn i adlewyrchu cymhwysedd yn y rôl. Mae hwn yn faes cymhleth, ond efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno myfyrio ar sut mae'r data hyn yn cael ei ddefnyddio a phenderfynu a oes mwy o ganllawiau y gellid eu darparu yng ngeiriad y cwestiwn hwn.

Ar gyfer C31 mae'r tîm ymchwil yn awgrymu bod geiriad cwestiwn "Faint o'ch staff cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu cyflogi dros gyfnod penodol ynghlwm wrth brosiect / grant / gweithgaredd penodol (h.y. nid tîm craidd)?', yn cael ei adolygu i egluro os mai'r bwriad yw nodi'r defnydd o staff cyfwerth ag amser llawn 'ar brosiectau penodol' neu p'un a yw'r data'n cael ei ddefnyddio'n fwy cyffredinol i gyfrifo staff ar gontractau penagored yn erbyn cyfnod penodol.

Mewn iteriadau'r gorffennol o arolwg Sbotolau mae E&I yn Saesneg wedi'u defnyddio i gynrychioli *Equality and Inclusion* (Cydraddoldeb a Chynhwysiant) ond ar gyfer y diffiniadau yn 2024 defnyddiwyd E&I i olygu *Equity and Inclusion* (Tegwch a Chynhwysiant). Ar gyfer iteriadau Sbotolau yn y dyfodol, argymhellwn ddewis un geiriad a bod cwestiynau ac adrodd yn defnyddio terminoleg gyffredin.

## 4.6. Cwestiynau ychwanegol

Dylai arolygon yn y dyfodol ystyried ffyrdd o gasglu data yn well gan amgueddfeydd gyda seiliau cyllideb cenedlaethol a lleol i alluogi data i gael ei ddehongli yn fwy cywir pan fydd ffigurau yn perthyn i systemau cyfrifo ariannol lleol a chenedlaethol.

AIM yn casglu data ar sail maint amgueddfa. Diffiniad AIM o amgueddfa 'fach' yw llai na 20,000 o ymwelwyr. Mae'r ffigur hwn yn rhy fawr ar gyfer gwahaniaethiad yn y sector amgueddfeydd yng Nghymru. Gellid cysylltu ag AIM am gyflwyno categori amgueddfa maint micro at ddiben eu casglu data sy'n cyd-fynd â ffigur Sbotolau o lai na 10,000 o ymwelwyr.

## 4.7. Gwella ansawdd data

Gan nad oes dull safonol ar hyn o bryd ymhlith amgueddfeydd Cymru i ddiffinio, categoreiddio a chasglu sesiynau dysgu gellid ymchwilio i hyn.

Gan nad oes dull safonol ar hyn o bryd ymhlith amgueddfeydd Cymru i gategoreiddio a chasglu materion cyllideb gellid ymchwilio i derminoleg ac adrodd data mwy safonol.

# Atodiad A: Holiadur

## Sbotolau 2024

### Croeso

# Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd a Gweithdai 2024

**Cefndir**
Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Emma Chaplin Heritage and Museum Services i ymgymrydâ'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd. Arolwg cynhwysfawr ar amgueddfeydd yw 'Sbotolau' sydd â'rnod o gasglu data a darparu asesiad cyfredol o'r sector amgueddfeydd yng Nghymru. Maecanfyddiadau'r Arolwg Sbotolau yn helpu i gyfrannu at effaith cymdeithasol ac economaiddamgueddfeydd yng Nghymru.

Disgwylir i Emma Chaplin Heritage and Museum Services ymgysylltu â'r sector amgueddfeydd igefnogi cyfranogwyr i gymryd rhan yn yr Arolwg Sbotolau. Gwahoddir cyfranogwyr i weithdy rhithwirdwyieithog ar ffurf sesiwn holi ac ateb 'sut i'.

Bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services ond yn cysylltu â'r amgueddfeydd hynny syddnaill ai wedi'u hachredu neu'n gweithio tuag at achrediad drwy Gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru yw rheolwr data yr ymchwil. Bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Servicesyn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r arolwg a gweithdai cyn ei rannu â LlywodraethCymru.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir arwefan Llywodraeth Cymru.

Mae'ch cyfranogiad yn yr ymchwil yn hollol wirfoddol. Fodd bynnag, mae'ch barn a'ch profiad ynbwysig i helpu i lunio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hwn yn Emma Chaplin Heritage and Museum Services yw:
EmmaChaplin
Cyfeiriad e-bost: emma@emmachaplin.co.uk
Rhif ffôn: 07884 254 351

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

**Pa ddata personol rydym yn ei ddal a ble rydym yn cael y wybodaeth hon?**
Diffinnir data personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'nanuniongyrchol trwy gyfeirio at ddynodydd'.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'ch manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) i Emma Chaplin Heritage and Museum Services at ddibenion cynnal yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydda'ch gwahodd i weithdy i'ch cefnogi i gwblhau'r arolwg. Mae Llywodraeth Cymru yn dal eichmanylion cyswllt oherwydd eich ymwneud â Chynllun Achredu Amgueddfeydd y DU yng Nghymru lle mae cais am achrediad wedi'i wneud yn flaenorol.

Bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services ond yn defnyddio'ch enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn at ddibenion cysylltu â chi i gymryd rhan yn yr Arolwg Sbotolau a'ch gwahodd i gymryd rhan mewn gweithdy i'ch cefnogi i gwblhau'r arolwg. Mae'ch cyfranogiad yn wirfoddol ac os nad ydych yndymuno cymryd rhan ar unrhyw adeg neu dderbyn negeseuon atgoffa, atebwch yr e-bost gwahodd abydd eich manylion yn cael eu tynnu.

Nid yw'r ymchwil hon yn gofyn am gasglu data personol ychwanegol gennych ar gyfer yr arolwg na'r gweithdy. Ni fydd eich cyfeiriad e-bost na'ch cyfeiriad IP yn cael eu casglu wrth gwblhau'r arolwg felly bydd yr ymatebion yn ddienw.

Mae'r arolwg yn cynnwys opsiwn i gytuno i ryddhau'r atebion i rai cwestiynau ar wefan LlywodraethCymru. Os byddwch yn cytuno, bydd y data penodol ar gael yn gyhoeddus.

Os byddwch yn dewis darparu data personol ychwanegol fel rhan o'r ymchwil, byddwn yn ceisio peidio â'ch adnabod o, na chysylltu'ch hunaniaeth â, yr ymatebion a ddarparwch.

Os byddwch yn codi ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol wrth ofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol yn unig ac yn ei ddileu o ddata'r ymchwil wedi hynny.

**Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio eich data?**
Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus;hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn hollol wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth ymarferol am ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth.

**Pa mor ddiogel yw'ch data personol?**
Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i Emma Chaplin Heritage and Museum Services bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer gyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect ymchwil hwn all gael mynediad at y data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn defnyddio'r data hwn. Mae gan Emma Chaplin Heritage and Museum Services Ardystiad Hanfodion Seiber.

Wrth gynnal arolygon, mae Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn defnyddio rhaglen meddalwedd o'r enw Online Surveys. Rydym wedi sicrhau bod Online Services yn

cydymffurfio â GDPR y DU ac yn bodloni ein disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata a gesglir drwy'r feddalwedd hon.

Mae gan Emma Chaplin Heritage and Museum Services weithdrefnau i fynd i'r afael ag unrhyw doriadau diogelwch data a amheuir. Os bydd toriad a amheuir yn digwydd, bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn adrodd hyn i Lywodraeth Cymru a fydd yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni wneud hynny.

Bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gynhyrchu adroddiad. Ni fydd data'r adroddiad a'r arolwg yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod eich data personol.

**Am ba hyd ydym yn cadw eich data personol?**
Bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn dal data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn dileu unrhyw ddata personol o fewn tri mis i ddiwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

Bydd Emma Chaplin Heritage and Museum Services yn darparu fersiwn dienw o'r data i Lywodraeth Cymru na fydd yn cynnwys gwybodaeth a allai eich adnabod.

**Hawliau'r unigolyn**
O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r data personol a ddarparwch, mae gennych yr hawl:
● I gael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
● I ni gywiro anghywirdebau yn y data hwnnw;
